

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Rhif/Number: 47/2014



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

## **Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector**

### **David Vivian, Mark Winterbotham, Briony Gunstone a Jessica Huntley Hewitt**

Safbwyntiau'r ymchwilydd, ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Corke

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801138

e-bost: [joanne.corke@cymru.gsi.gov.uk](mailto:joanne.corke@cymru.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978-1-4734-1353-5

© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .....	4
Crynodeb Fesul Sector .....	11
1 Cyflwyniad .....	24
2 Pwysigrwydd ac effaith gyffredinol sgiliau Cymraeg .....	38
3 Lefelau sgiliau Cymraeg presennol .....	55
4 Defnydd o sgiliau Cymraeg .....	65
5 Cynyddu sgiliau Cymraeg yn y gweithle .....	73
6 Recriwtio a Sgiliau Cymraeg .....	92
7 Cymwysterau a Hyfforddiant i ddatblygu Sgiliau Cymraeg .....	102
8 Deddfwriaeth a pholisi .....	113
9 Cymorth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle .....	122
Atodiad A: Astudiaethau achos .....	126
Atodiad B: Tablau atodol .....	141
Atodiad C: Diffiniadau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol o bob sector .....	146
Atodiad D: Holiadur dros y Ffôn .....	155
Atodiad E: Niferoedd sylfaen ar gyfer tablau a ddangoswyd yn flaenorol yn yr adroddiad .....	194

## Rhestr Tablau

Tabl 1.1: Proffil o'r sampl ar gyfer cam yr archwiliad ansoddol .....	29
Tabl 1.2: Proffil o sampl y profion gwybyddol .....	29
Tabl 1.3: Canlyniadau'r ymateb fel cyfanswm ac yn ôl sector .....	33
Tabl 1.4: Proffil o sampl yr astudiaethau achos .....	37
Tabl 2.1: Pwysigrwydd cael staff â sgiliau Cymraeg ar gyfer masnach ddomestig yng Nghymru, yn ôl sector a rhanbarth .....	41
Tabl 2.2: Sut mae sgiliau Cymraeg yn effeithio ar y llinell waelod, yn ôl sector (digymell) .....	49
Tabl 2.3: Y gyfran sy'n disgwyl gweld cynnydd neu ostyngiad yn yr angen am sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn ystod y 2-3 blynedd nesaf, yn ôl sector, rhanbarth a maint .....	51
Tabl 2.4: Sut mae sefydliadau'n disgwyl i ofynion hyfedredd yn y Gymraeg gynyddu yn y 2-3 blynedd nesaf (dewis o blith opsiynau) .....	54
Tabl 3.1: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ym mhob grŵp galwedigaethol – yn ôl sector .....	60
Tabl 3.2: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ym mhob grŵp galwedigaethol, yn ôl maint y cyflogwr .....	61
Tabl 3.3: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau ar bob lefel, yn ôl sector .....	63
Tabl 3.4: Cyfran y sefydliadau a chanddynt staff ar bob lefel sgil, yn ôl sector .....	64
Tabl 4.1: Cyfran y staff sy'n defnyddio pob math o sgil yn rheolaidd, yn ôl sector .....	69
Tabl 4.2: Dibenion defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl sector .....	70
Tabl 4.3: Manteision yn sgil defnyddio'r Gymraeg, yn ôl sector .....	72
Tabl 5.1: Galwedigaethau lle byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg, yn ôl sector .....	77
Tabl 5.2: Y prif resymau pam nad oes gan staff sgiliau Cymraeg lefel uwch, yn ôl sector (awgrymwyd oni nodwyd) .....	89

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Tabl 5.3: Rhesymau sy'n atal mwy o staff â sgiliau Cymraeg rhag cael eu cyflogi neu wella sgiliau staff presennol, yn ôl sector .....	91
Tabl 6.1: Gweithgarwch recriwtio a chyfran y swyddi gwag lle cafodd sgiliau Cymraeg eu hystyried yn ddymunol, yn ôl sector a rhanbarth .....	93
Tabl 6.2: Gweithgarwch recriwtio a chyfran y swyddi gwag lle'r ystyriwyd bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol, yn ôl sector a rhanbarth .....	95
Tabl 7.1: A yw cyflogwyr wedi cael anawsterau wrth gael hyd i gyrsiau hyfforddi Cymraeg priodol, yn ôl sector a rhanbarth .....	107
Tabl 7.2: Dulliau a ddefnyddir i gofnodi, mesur neu asesu lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith staff (dewis o blith opsiynau) .....	112
Tabl 8.1: A oes gan y sefydliad bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg, yn ôl math, sector a maint y sefydliad .....	116
Tabl 8.2: Ymwybyddiaeth o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac os oes ymwybyddiaeth ohono, ei effaith debygol ar y sefydliad yn y dyfodol, yn ôl sector, math o sefydliad, maint a rhanbarth .....	120
Tabl 9.1: Lle'r aethpwyd i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth ynglŷn â'r Gymraeg yn y gweithle (digymell) .....	123
Tabl B1: Gofal Cymdeithasol .....	141
Tabl B2: Gofal Plant .....	142
Tabl B3: Lletygarwch .....	143
Tabl B4: Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol .....	144
Tabl B5: Manwerthu .....	145
Tabl E1: Niferoedd sylfaen ar gyfer Tabl 3.1 (y sefydliadau ym mhob sector sy'n cyflogi pob galwedigaeth) .....	194
Tabl E2: Niferoedd sylfaen ar gyfer Tabl 3.2 (y sefydliadau ym mhob band maint sy'n cyflogi pob galwedigaeth) .....	195

## Rhestr Ffigurau

Ffigur 1.1: Proffil maint cyffredinol, ac yn ôl sector a rhanbarth .....	35
Ffigur 1.2: Math o gyflogwr, yn gyffredinol ac yn ôl sector a rhanbarth .....	35
Ffigur 1.3: Rhanbarth, yn gyffredinol ac yn ôl sector .....	36
Ffigur 2.1: Pwysigrwydd cael staff â sgiliau Cymraeg i'r safle, yn ôl sector a rhanbarth .....	39
Ffigur 2.2: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer masnach .....	40
Ffigur 2.3: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid, yn ôl sector a rhanbarth .....	44
Ffigur 2.4: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer bodlonrwydd a chadw staff, yn ôl sector a rhanbarth .....	45
Ffigur 2.5: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg i linell waelod busnesau, yn ôl sector a rhanbarth .....	47
Ffigur 2.6: Rhesymau dros ddisgwyl cynnydd yn yr angen am sgiliau Cymraeg (digymell) .....	52
Ffigur 3.1: Cyfran y sefydliadau a chanddynt sgiliau Cymraeg, yn ôl sector a rhanbarth .....	56
Ffigur 3.2: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, yn ôl sector a rhanbarth .....	57

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Ffigur 3.3: Nifer a chyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, a'r niferoedd a gyflogir, ym mhob grŵp galwedigaethol.....	59
Ffigur 3.4: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau ar bob lefel .....	62
Ffigur 4.1: Cyfran y sefydliadau lle mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl sector a rhanbarth .....	66
Ffigur 4.2: Cyfran y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl sector a rhanbarth.....	67
Ffigur 5.1: A fyddai cael mwy o staff sy'n gallu siarad Cymraeg / lefel uwch o sgiliau yn Gymraeg o fudd i'r sefydliad, yn ôl sector a rhanbarth .....	75
Ffigur 5.2: Manteision canfyddedig i'r busnes yn sgil gwella sgiliau Cymraeg (digymell) .....	76
Ffigur 5.3: Y sector Gofal Cymdeithasol: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg .....	81
Ffigur 5.4: Y sector Gofal Plant: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg .....	82
Ffigur 5.5: Y sector Lletygarwch: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg .....	83
Ffigur 5.6: Y sector Creadigol: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg .....	84
Ffigur 5.7: Y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg .....	85
Ffigur 5.8: Y Sector Manwerthu: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg .....	86
Ffigur 6.1: Safbwyntiau cyflogwyr ynghylch argaeledd sgiliau Cymraeg ymhlith ymgeiswyr ar gyfer galwedigaethau allweddol, yn ôl sector a rhanbarth .....	98
Ffigur 6.2: Safbwyntiau cyflogwyr ynghylch ansawdd sgiliau Cymraeg ymhlith ymgeiswyr ar gyfer galwedigaethau allweddol, yn ôl sector a rhanbarth .....	99
Ffigur 6.3: Sut mae cyflogwyr yn asesu sgiliau Cymraeg ymgeiswyr .....	99
Ffigur 7.1: Mathau o ddarparwyr hyfforddiant a ddefnyddiwyd i gyflwyno hyfforddiant ar sgiliau Cymraeg .....	105
Ffigur 7.2: Anawsterau a gafwyd wrth gael hyd i gyrsiau hyfforddi Cymraeg (digymell) .....	108
Ffigur 7.3: Gweithgareddau anffurfiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg (digymell).....	110
Ffigur 8.1: Lefel gyffredinol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl math o gyflogwr.....	118
Ffigur 9.1: I le y byddai sefydliadau nad ydynt wedi derbyn cyngor am y Gymraeg yn ddiweddar yn mynd i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth (digymell) .....	125

## Crynodeb Gweithredol

### Penawdau

- Ystyriai ychydig dros draean y cyflogwyr o'r wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil fod cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn bwysig *iawn* (18 y cant) neu'n *weddol* bwysig (17 y cant). Roedd y ffigur yn uwch ymhlith cyflogwyr yn y sectorau Gofal Plant, Bwyd-amaeth a Gofal Cymdeithasol. Ar y llaw arall, teimlai tua dau o bob pump (39 y cant) *nad oedd hi'n bwysig o gwbl* cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar eu safle.
- Teimlai ychydig llai na thraean o'r holl gyflogwyr yn y sector preifat fod sgiliau Cymraeg eu staff yn cynnig rhywfaint o fudd i'w llinell waelod, er mai cymharol ychydig (pump y cant) a ystyriai fod y sgiliau hynny'n cael effaith sylweddol yn hynny o beth.
- Roedd gan ddau draean (66 y cant) o'r cyflogwyr staff â sgiliau Cymraeg, a dywedodd ychydig dros draean ohonynt fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle (35 y cant).
- Amcangyfrifai'r cyflogwyr fod gan bron chwarter yr holl staff sgiliau Cymraeg ar ryw lefel neu'i gilydd, a bod 14 y cant o'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Roedd y ffigurau ar gyfer yr agwedd olaf yn uwch yn y sector Gofal Plant (59 y cant), y sector Creadigol (39 y cant) a'r sector Bwyd-amaeth (25 y cant).
- Roedd dros chwarter y sefydliadau (28 y cant) o'r farn y byddai'n fuddiol iddynt gael mwy o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu fwy o staff a chanddynt lefel uwch o sgiliau Cymraeg.
- Yn gyffredinol, roedd gan un o bob deg cyflogwr swydd wag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg ar lefel sylfaenol o leiaf wedi bod yn ddymunol. Roedd hyn yn llawer uwch ymhlith cyflogwyr Gofal Plant (30 y cant) a chyflogwyr Gofal Cymdeithasol (19 y cant).
- Dros y 12 mis diwethaf, roedd pedwar y cant o sefydliadau wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant wedi'i gynllunio'n benodol i ddatblygu sgiliau Cymraeg
- Roedd pedwar y cant o gyflogwyr wedi ceisio gwybodaeth, cyngor neu gymorth ar faterion a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf. O blith y rhai *nad* oedd wedi gwneud hynny, *ni* fyddai mwy na dau o bob pump yn gwybod o le i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth o'r fath.
- Roedd saith y cant o'r sefydliadau'n disgwyl y byddai eu hangen am sgiliau Cymraeg yn cynyddu yn y 2-3 blynedd nesaf. Roedd hyn yn uwch ymhlith cyflogwyr Gofal Plant (28 y cant), Gofal Cymdeithasol (15 y cant), Creadigol (12 y cant) a Lletygarwch (10 y cant).

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion canfyddiadau arolwg a gynhaliwyd o ganol mis Medi hyd ddiwedd mis Hydref 2013. Cynhaliwyd yr arolwg ymhlith dros 4,000 o gyflogwyr yng Nghymru a weithredai mewn wyth sector (Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch, Creadigol, Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol, Manwerthu, Bwyd-amaeth ac Adeiladu). Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd 10 astudiaeth achos ansoddol manylach.

Nod yr astudiaeth oedd darparu gwybodaeth manwl gywir a dibynadwy am anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Cymraeg, yn y presennol a'r dyfodol, ar sail sector, galwedigaeth a rhanbarth, ac am ganfyddiadau cyflogwyr ynghylch effaith defnyddio'r Gymraeg ar linell waelod y busnes. Nod arall oedd asesu safbwyntiau ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael er mwyn sicrhau cymaint o fudd ag sy'n bosibl yn sgil y Gymraeg a dwyieithrwydd.

## Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg

Roedd ychydig dros draean y cyflogwyr yn ystyried bod cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn bwysig *iawn* (18 y cant) neu'n *weddol* bwysig (17 y cant) i'w busnes. Yn ogystal, roedd chwarter yn teimlo nad oes rhyw lawer o bwysigrwydd i hyn (dywed 25 y cant *nad yw'n bwysig iawn*), gan adael tua dau o bob bump (39 y cant) a ystyriai nad yw cael staff â sgiliau Cymraeg yn bwysig o *gwbl*.

O bell ffordd, cyflogwyr o'r sectorau Gofal Plant a Bwyd-amaeth oedd yn fwyaf tebygol o ystyried bod cael staff â sgiliau Cymraeg yn bwysig (disgrifiwyd hyn yn bwysig *iawn* gan 42 y cant o'r sector Gofal Plant a 33 y cant o'r sector Bwyd-amaeth). Cyflogwyr yn y sectorau Adeiladu a'r Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol oedd yn lleiaf tebygol o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig *iawn* neu'n *weddol* bwysig (25 a 26 y cant, yn y drefn honno).

Roedd gwahaniaethau clir rhwng rhanbarthau, gyda chyflogwyr yng ngogledd Cymru'n fwyaf tebygol o ystyried ei bod hi'n bwysig cael sgiliau Cymraeg ar eu safle (57 y cant)

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

a'r rhai yn ne-ddwyrain Cymru'n lleiaf tebygol o ystyried bod hynny'n bwysig (16 y cant).

### **Effaith sgiliau Cymraeg ar fasnach, gwasanaeth i gwsmeriaid a'r llinell waelod**

Roedd bron dau o bob pum cyflogwr (37 y cant) sy'n gweithredu busnes yn rhanbarthol neu'n genedlaethol oddi mewn i Gymru (hy, y tu hwnt i'w hardal leol) yn meddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w masnach ranbarthol / genedlaethol yng Nghymru. Nid yw'n syndod bod hyn yn llai pwysig ar gyfer busnes a weithredir yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol (mae 14 y cant o'r rhai sy'n gweithredu busnes yng ngweddill y DU a naw y cant o'r rhai sy'n gweithredu busnes yn rhyngwladol yn teimlo bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer y fasnach hon). Ar bob mesur, cymharol ychydig oedd yn meddwl bod cael sgiliau Cymraeg yn bwysig *iawn* (16 y cant ar gyfer masnach ddomestig, tri y cant ar gyfer masnach y DU a masnach ryngwladol)

Roedd ffigur tebyg, yn agos at ddau o bob pum sefydliad (37 y cant) yn y sectorau a drafodwyd yn yr ymchwil yn teimlo bod sgiliau Cymraeg yn bwysig er mwyn sicrhau ansawdd eu gwasanaeth i gwsmeriaid. Roedd hyn yn llawer uwch ymhlith cyflogwyr Gofal Plant (75 y cant) ac yng ngogledd Cymru (56 y cant).

Roedd pump y cant o gyflogwyr sector preifat sy'n ceisio creu elw yn teimlo bod sgiliau Cymraeg yn cael effaith sylweddol *iawn* ar eu llinell waelod, 10 y cant yn teimlo eu bod yn cael effaith *weddol* sylweddol, ac 17 y cant arall yn teimlo eu bod yn cael ychydig o effaith. Roedd tua thraean felly'n nodi bod y sgiliau hyn o ryw fudd cyffredinol i'w llinell waelod. Mae'r sector Gofal Plant yn amlwg fel y sector lle mae sgiliau Cymraeg yn cael y mwyaf o effaith ar ei linell waelod: nododd yn agos at hanner y cyflogwyr hyn (46 y cant) eu bod yn cael effaith sylweddol iawn, neu effaith weddol sylweddol.

### **Lefelau sgiliau Cymraeg presennol a'r defnydd ohonynt yn y gweithle**

At ei gilydd, roedd gan ddau draean o'r cyflogwyr (66 y cant) yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil staff a oedd yn meddu ar sgiliau Cymraeg. Adroddwyd bod gan bron chwarter (24 y cant) yr holl staff sgiliau Cymraeg ar ryw lefel neu'i gilydd. Roedd y ffigur yma'n llawer uwch yn y sector Gofal Plant (66 y cant) a'r sector



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Creadigol (48 y cant), ac yng ngogledd Cymru (39 y cant) a chanolbarth Cymru (38 y cant).

Roedd safbwyntiau'r cyflogwyr ynghylch lefelau sgiliau'r staff yn weddol debyg ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Roeddent yn ystyried bod gan tua un o bob deg aelod o staff sgiliau uwch, bod gan bedwar y cant sgiliau canolradd, a bod gan rhwng chwech a saith y cant sgiliau lefel mynediad ym mhob un o'r meysydd hyn.

Adroddodd bron dau o bob pum sefydliad (38 y cant) fod ganddynt *unrhyw* staff a chanddynt sgiliau Cymraeg lefel uwch o ran deall, siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Roedd y gyfran hon yn llawer uwch yn y sector Bwyd-amaeth (50 y cant) a'r sector Gofal Plant (49 y cant), ac ar ei hisaf yn y sector Adeiladu (26 y cant) a'r sector Manwerthu (33 y cant).

Nid yw'r ffaith bod sgiliau Cymraeg yn bodoli ymhlith y staff o reidrwydd yn golygu bod y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio'n wirioneddol yn y gweithle. Yn gyffredinol, adroddodd tri o bob deg sefydliad (31 y cant) fod ganddynt staff â sgiliau Cymraeg, ond nad oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle. Yn gyffredinol, dywedodd ychydig dros draean y cyflogwyr (35 y cant) fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle.

Amcangyfrifodd y cyflogwyr fod 14 y cant o'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Roedd hyn yn amrywio'n aruthrol rhwng y gwahanol sectorau. Yn y sector Gofal Plant roedd bron tri o bob pum aelod o staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (59 y cant), ac roedd y ffigur hefyd yn llawer uwch na'r cyfartaledd yn y sector Creadigol (39 y cant) a'r sector Bwyd-amaeth (25 y cant).

Defnyddir y Gymraeg yn fwy aml yn y gwaith er mwyn deall Cymraeg llafar a siarad Cymraeg (mae oddeutu naw o bob deg aelod o staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn ei defnyddio'n rheolaidd yn y modd yma) nag ar gyfer darllen (67 y cant) neu ysgrifennu (60 y cant).

### **Yr awydd am fwy o sgiliau Cymraeg**

Roedd dros chwarter y sefydliadau (28 y cant) o'r gred y byddai cael mwy o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu fwy o staff a chanddynt lefel uwch o sgiliau Cymraeg o fudd iddynt. Dywedodd pump y cant y byddai hyn o fudd *syllweddol*. Mewn saith y cant o sefydliadau eraill, nid oedd posibilrwydd gwella gan fod gan yr holl staff eisoes sgiliau lefel uwch (mae hyn yn cynyddu i 26 y cant ymhlith cyflogwyr Bwyd-amaeth).

Prif fanteision gwella sgiliau Cymraeg yn nhyb y cyflogwyr hyn oedd gwella gwasanaeth cwsmeriaid (53 y cant), a'u helpu i ennill busnes newydd neu gynyddu gwerthiant (33 y cant).

### **Hyfforddiant a gweithgareddau anffurfiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg**

Dros y 12 mis diwethaf, roedd pedwar y cant o sefydliadau wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant wedi'i gynllunio'n benodol i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynyddu i 12 y cant ymhlith y rhai a chanddynt 50 neu fwy o staff, ac roedd yn llawer uwch yn y sector Gofal Plant (31 y cant), ac ymhlith sefydliadau llywodraeth leol, llywodraeth ganolog a sefydliadau elusennol neu o'r sector gwirfoddol (45, 27 ac 15 y cant yn y drefn honno; mae hyn yn cymharu â dau y cant yn y sector preifat).

Ychydig o gyflogwyr (dau y cant) a oedd erioed wedi'i chael hi'n anodd canfod cyrsiau hyfforddi Cymraeg priodol, er y dylid nodi nad oedd y mwyafrif helaeth ohonynt (88 y cant) erioed wedi mynd ar drywydd hyfforddiant o'r fath.

### **Recriwtio a Sgiliau Cymraeg**

Adroddodd un o bob deg cyflogwr y bu ganddo swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg ar lefel sylfaenol o leiaf wedi bod yn ddymunol. Roedd y galw am sgiliau Cymraeg o'r farchnad lafur ar ei fwyaf yn y sector Gofal (adroddodd 30 y cant o sefydliadau Gofal Plant ac 19 y cant o sefydliadau Gofal Cymdeithasol fod ganddynt swyddi gwag lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol).

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Yn nhermau cyfaint, byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol ym mron un o bob pum swydd wag yn ystod y 12 mis diwethaf (18 y cant, er bod hyn yn codi i 59 y cant ar gyfer yr holl swyddi gwag o fewn y sector Gofal Plant).

Mae'r farchnad lafur fel arfer yn gallu bodloni anghenion recriwtio cyflogwyr, a dim ond wyth y cant o gyflogwyr a adroddodd eu bod yn ei chael hi'n anodd llenwi unrhyw swyddi yn ystod y 12 mis diwethaf. Adroddodd un y cant o sefydliadau eu bod wedi'i chael hi'n anodd recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf a hynny, *yn rhannol o leiaf*, oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith yr ymgeiswyr.

### **Cymwysterau Cymraeg**

Roedd dau o bob pum cyflogwr (40 y cant) yn gofyn bod gan staff ar eu safle gymwysterau galwedigaethol neu dystysgrifau penodol. O blith y cyflogwyr hyn, roedd naw y cant (sy'n cyfateb i bedwar y cant o'r holl sefydliadau yn y sector a drafodwyd yn yr ymchwil) yn teimlo ei bod hi'n fuddiol, neu y byddai'n fuddiol darparu cyfran o leiaf o'r cymwysterau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd un y cant o gyflogwyr yn gofyn bod gan o leiaf rhai o'r staff ar eu safle gymwysterau Cymraeg penodol. Ymhlith y cyflogwyr hyn, roedd y mwyafrif (69 y cant) yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe bai cymwysterau Cymraeg yn darparu gwybodaeth am gymhwysedd dysgwyr mewn sgiliau penodol (megis deall Cymraeg llafar, siarad Cymraeg ac ati) yn ogystal â gradd gyffredinol.

### **Cynlluniau Iaith Gymraeg**

Adroddodd deg y cant o'r ymatebwyr fod ganddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer eu sefydliad (ac roedd pump y cant o ymatebwyr eraill yn ansicr ynghylch hyn). Roedd tri y cant o'r holl gyflogwyr (ond 43 y cant o sefydliadau llywodraeth leol a 35 y cant o safleoedd llywodraeth ganolog) yn ymwybodol bod ganddynt Gynllun Iaith Gymraeg o dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

## **Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle ac o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Teimlai wyth y cant o'r ymatebwyr fod eu dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle yn *dda*, ac roedd traean arall (33 y cant) yn teimlo eu bod yn deall *rhywfaint* ynghylch hynny. O ran Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn benodol, roedd naw y cant wedi clywed amdano. Teimlai lleiafrif o'r rhai a oedd wedi clywed am y mesur y byddai'n cael effaith sylweddol (saith y cant) neu ychydig o effaith (21 y cant) ar eu sefydliad yn y dyfodol.

### **Cymorth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle**

Roedd pedwar y cant o gyflogwyr yn y sectorau a drafodwyd yn yr ymchwil wedi gofyn am unrhyw wybodaeth, cyngor neu gymorth busnes ar faterion a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y 2 i 3 blynedd diwethaf. Roedd lefel y bodlonrwydd ag ansawdd y cymorth a gafwyd yn uchel: roedd bron naw o bob deg yn fodlon iawn (51 y cant) neu'n weddol fodlon (36 y cant), o gymharu â thri y cant a oedd yn anfodlon.

O blith y cyflogwyr *nad* oeddent wedi gofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth busnes yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y 2 i 3 blynedd diwethaf, *ni* fyddai bron hanner ohonynt (45 y cant) yn gwybod o le i gael y fath wybodaeth neu gyngor.

### **Newid i'r angen am sgiliau Cymraeg yn y blynyddoedd nesaf**

Roedd saith y cant o sefydliadau'n disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu yn ystod y 2-3 blynedd nesaf (tra bod un y cant yn disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg ostwng). Roedd cyflogwyr o'r sector Gofal Plant (28 y cant), y sector Gofal Cymdeithasol (15 y cant), y sector Creadigol (12 y cant) a'r sector Lletygarwch (10 y cant) yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddisgwyl y byddai eu hangen am sgiliau Cymraeg yn cynyddu, ynghyd â chyflogwyr a chanddynt 100 neu fwy o staff (19 y cant).

## **Crynodeb Fesul Sector**

Yn y Crynodeb Gweithredol, trafodwyd rhai o'r prif wahaniaethau ar draws yr wyth sector a gafodd eu cynnwys yn yr ymchwil. Ceir gwahaniaethau eang yn y rhan fwyaf o fesuriadau'r arolwg, gyda'r defnydd o'r Gymraeg a phwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn llawer uwch na'r cyffredin yn y sectorau Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol a Bwyd-amaeth, ac yn is na'r cyffredin yn y sectorau Adeiladu a Manwerthu. Trafodir y gwahaniaethau rhwng y sectorau drwy'r adroddiad cyfan, ond yn yr adran ganlynol ceir crynodeb o'r canlyniadau ym mhob sector.

### *Gofal Plant*

Mae'r sector Gofal Plant yng Nghymru yn cynnwys microsefydliadau (2-9 aelod o staff) yn bennaf (73 y cant), ac mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn safleoedd bach sy'n cynnwys 10-24 o aelodau staff. Dim ond pedwar y cant o gyflogwyr yn y sector a oedd yn cyflogi 25 neu fwy o aelodau staff. Tra bod chwarter (25 y cant) yr holl sefydliadau yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru, mae hyn yn cynyddu i oddeutu traean (34 y cant) yn achos Gofal Plant.

Cyflogwyr yn y sector Gofal Plant oedd y mwyaf tebygol o blith yr holl sectorau o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig. Roedd hynny'n wir yn gyffredinol (ystyriai 84 y cant fod sgiliau o'r fath yn bwysig, a 42 y cant fod y sgiliau'n 'bwysig iawn'), a hefyd yng nghyswllt meysydd penodol fel masnach ddomestig a gwasanaeth cwsmeriaid. Roedd bron i hanner (46 y cant) y cyflogwyr Gofal Plant sy'n gweithredu yn y sector preifat yn credu bod sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn effeithio ar eu llinell waelod.

Y sector Gofal Plant hefyd oedd yn fwyaf tebygol o fod â sgiliau Cymraeg ymhlith y staff: adroddodd bron yr holl gyflogwyr (94 y cant) fod ganddynt rai staff o leiaf a chanddynt sgiliau ar ryw lefel neu'i gilydd, ac roedd gan ddau draean (66 y cant) yr holl staff yn y sector hwn sgiliau Cymraeg. O ran darllen, siarad, deall ac ysgrifennu, roedd staff yn y sector hwn ychydig yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau lefel mynediad yn hytrach na sgiliau canolradd neu sgiliau lefel uwch (er enghraifft ar gyfer deall, siarad a darllen, roedd gan tua thraean sgiliau lefel mynediad, o gymharu â'r 25-29 y cant a chanddynt sgiliau canolradd neu sgiliau lefel uwch). Mae hyn yn wahanol i'r holl sectorau eraill, lle'r oedd mwy o'r staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn meddu ar sgiliau canolradd neu sgiliau lefel uwch yn hytrach na sgiliau lefel mynediad.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Adroddodd mwyafrif helaeth y sefydliadau Gofal Plant yr oedd gan eu staff sgiliau Cymraeg fod y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio yn y gweithle, a dywedodd 45 y cant o'r cyflogwyr fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Sgiliau llafar (siarad a deall) oedd y sgiliau a oedd yn cael eu defnyddio'n bennaf. Prif ysgogiad sefydliadau Gofal Plant a ddefnyddiai'r Gymraeg oedd cynnig gwell gwasanaeth i gwsmeriaid ac, yn gysylltiedig â hyn, gwella sgiliau Cymraeg y plant.

Ystyriai dros ddau draean (68 y cant) o gyflogwyr Gofal Pant y byddai cynyddu sgiliau Cymraeg yn fuddiol (fel y trafodir uchod, dim ond sgiliau lefel mynediad a oedd gan lawer o'r staff Gofal Plant), yn bennaf er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid.

Roedd y sector Gofal Plant ymhlith y sectorau lle'r oedd hi'n fwyaf tebygol y byddai angen cymwysterau galwedigaethol, ac roedd rhywfaint o alw i'r rhain gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg (24 y cant o'r rhai ac arnynt angen cymwysterau galwedigaethol). Roedd cyflogwyr gofal plant hefyd yn fwy tebygol na sectorau eraill i ofyn am gymwysterau Cymraeg (er mai dim ond saith y cant o gyflogwyr a ofynnai am y cymwysterau hyn, hyd yn oed yn y sector Gofal Plant).

Roedd cyflogwyr Gofal Plant yn llawer mwy tebygol na'r cyffredin o fod wedi trefnu hyfforddiant Cymraeg (31 y cant o gymharu â'r ffigur cyffredinol o bedwar y cant). Ynghyd â hyn, roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi profi anhawster wrth ganfod hyfforddiant Cymraeg priodol (25 y cant, o gymharu â'r ddau y cant o gyflogwyr ar draws pob un o'r wyth sector).

Roedd galw mawr am sgiliau Cymraeg ym mhroses recriwtio'r sector hwn; ystyriwyd bod sgiliau o'r fath yn ddymunol ar gyfer 59 y cant o swyddi gwag. Y sector Gofal Plant hefyd oedd y sector a oedd yn fwyaf tebygol o gynnwys swyddi anodd eu llenwi oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg.

O ystyried lefel uchel y diddordeb yn y Gymraeg yn y sector hwn, a'r defnydd o'r iaith, yn ogystal â gofynion statudol awdurdodau lleol, nid yw'n syndod mai cyflogwyr Gofal Plant oedd y mwyaf tebygol o gael polisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (44 y cant). Roedd mwyafrif y cyflogwyr Gofal Plant yn ystyried eu bod yn deall rhywfaint ynghylch

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ac roedd oddeutu un o bob pump (21 y cant) wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - sef y gyfran uchaf o blith yr wyth sector.

Cyflogwyr gofal plant oedd yn fwyaf tebygol o ddisgwyl y byddai angen cynyddu eu sgiliau Cymraeg (28 y cant), ac mae hynny'n cyd-fynd â'r defnydd helaeth o'r Gymraeg yn y sector hwn; newidiadau mewn deddfwriaeth ac i'r gyfundrefn addysg oedd y prif resymau dros ddisgwyl hynny.

### *Gofal Cymdeithasol*

Y sector Gofal Cymdeithasol oedd yr un a chanddo'r proffil maint mwyaf o blith yr wyth sector, gyda thros hanner y sefydliadau'n cynnwys deg neu fwy o aelodau staff, ac un o bob deg yn cynnwys 50 neu fwy ohonynt. Roedd mwyafrif y sefydliadau'n rhan o weithrediadau aml-safle mwy. Roedd safleoedd gofal cymdeithasol wedi'u lleoli'n bennaf yn ne-ddwyrain Cymru (43 y cant), lle ceir sylfaen fawr o boblogaeth, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng gogledd Cymru a de-orllewin Cymru, a dim ond saith y cant yng nghanolbarth Cymru.

Roedd cyflogwyr yn y sector Gofal Cymdeithasol ymhlith y rhai a oedd yn fwyaf tebygol o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig. Ystyriai mwy na dau o bob pump (43 y cant) fod y sgiliau hyn yn bwysig yn gyffredinol, ac ystyriai oddeutu hanner fod y sgiliau'n bwysig ar gyfer masnach ddomestig oddi mewn i Gymru (50 y cant), ac mewn perthynas â gwasanaeth cwsmeriaid (47 y cant). Roedd un o bob pum cyflogwr Gofal Cymdeithasol a weithredai yn y sector preifat o'r gred fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar ei linell waelod; roedd hyn yn is na'r ffigur cyfatebol yn y sector Gofal Plant, ond yn uwch na'r ffigur cyfatebol yn y rhan fwyaf o'r sectorau eraill.

Ar ôl Gofal Plant, y sector Gofal Cymdeithasol oedd yn fwyaf tebygol o fod â sgiliau Cymraeg ar lefel safle: adroddodd bron pedwar o bum cyflogwr (79 y cant) fod sgiliau ar ryw lefel neu'i gilydd i'w cael ymhlith y staff. Fodd bynnag, dim ond tua un o bob pum aelod o staff (21 y cant) a feddai ar unrhyw sgiliau Cymraeg yn y sector hwn, sydd ymhlith y lefelau isaf a welwyd yn yr wyth sector. Fel y trafodwyd uchod, roedd y sector Gofal Cymdeithasol yn cynnwys nifer o safleoedd mwy, a allai egluro'r gwahaniaeth mawr rhwng gyfran y safleoedd a nifer y staff a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Er i fwyafrif helaeth y cyflogwyr Gofal Cymdeithasol adrodd bod ganddynt staff â sgiliau Cymraeg, dim ond tua thraean o'r gweithleoedd (34 y cant) a nododd ddefnydd gwirioneddol o sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Adroddodd tri y cant o gyflogwyr fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (y gyfran isaf yn unrhyw sector). Defnyddiai staff Gofal Cymdeithasol sgiliau llafar (deall a siarad) yn bennaf.

Ystyriai dau o bob pum cyflogwr (40 y cant) Gofal Cymdeithasol y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad, yn bennaf gan y byddai hynny'n gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid.

O blith yr holl sectorau, yn y sector Gofal Cymdeithasol yr oedd hi'n fwyaf tebygol y byddai angen cymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, yn wahanol i'r sector Gofal Plant, prin oedd y galw i gyflwyno'r rhain drwy gyfrwng y Gymraeg (naw y cant o'r rhai yr oedd angen cymwysterau galwedigaethol arnynt).

Adroddodd tua un o bob pum cyflogwr Gofal Cymdeithasol (19 y cant) un swydd wag o leiaf yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol, ac roedd y swyddi gwag hyn yn cynrychioli tua thraean (31 y cant) yr holl swyddi gwag yn y sector Gofal Cymdeithasol.

Ar ôl Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol oedd y sector â'r gyfran uchaf o gyflogwyr a adroddodd fod ganddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (31 y cant). Yn debyg i Ofal Plant, mae llawer o sefydliadau Gofal Cymdeithasol yn gweithredu o fewn (neu'n gwasanaethu) llywodraeth leol, a gallai hyn fod yn cyfrannu at y gyfran gymharol uchel yn y sector hwn. Ystyriai'r mwyafrif (64 y cant) eu bod yn deall rhywfaint ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ond dim ond 14 y cant a oedd wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd pymtheg y cant o'r cyflogwyr Gofal Cymdeithasol yn disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu, a'r prif reswm am hyn oedd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid a siaradai Gymraeg.



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

### *Lletygarwch*

Mae'r sector Lletygarwch yn cynnwys safleoedd micro (2-9) yn bennaf. Fodd bynnag, roedd gan chwarter y sefydliadau 10 neu fwy o aelodau staff. Roedd lletygarwch ymhlith y sectorau a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn weithrediadau aml-safle (41 y cant). Dangosai'r rhaniad daearyddol yn y sector Lletygarwch batrwm gweddol gyffredin: roedd dau o bob pum safle yn ne-ddwyrain Cymru (40 y cant).

Ystyriai tua thraean (35 y cant) y cyflogwyr yn y sector Lletygarwch fod sgiliau Cymraeg yn bwysig yn gyffredinol, sy'n debyg i'r cyfartaledd ar draws pob un o'r wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil. Tybiwyd yn bennaf fod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig oddi mewn i Gymru, ac ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (38 y cant i'r naill a'r llall), ond Lletygarwch hefyd oedd y sector a oedd yn fwyaf tebygol o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w fasnach ryngwladol (13 y cant, gan gyfeirio mae'n debyg at y cwsmeriaid sy'n dod i Gymru o wledydd tramor). Ystyriai un o bob naw cyflogwr Lletygarwch (11 y cant) a weithredai yn y sector preifat fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar ei linell waelod.

Adroddodd mwyafrif (66 y cant) y cyflogwyr Lletygarwch fod sgiliau Cymraeg ar ryw lefel neu'i gilydd i'w cael ymhlith eu staff, ac adroddwyd bod gan 27 y cant o holl staff Lletygarwch sgiliau Cymraeg. Yn y ddau achos, mae'r cyfrannau hyn yn cyd-fynd yn fras â'r lefelau cyfartalog ar draws yr wyth sector.

Er bod gan fwyafrif y cyflogwyr Lletygarwch sgiliau Cymraeg ymhlith y staff, dim ond traean ohonynt (34 y cant) a ddywedodd fod y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio'n wirioneddol yn y gweithle. Adroddodd chwech y cant o gyflogwyr fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Defnyddiai staff Lletygarwch sgiliau llafar yn bennaf (deall a siarad).

Ystyriai tua thraean (32 y cant) y cyflogwyr Lletygarwch y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad, yn bennaf er mwyn cynnig gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

Adroddodd un o bob saith (14 y cant) o gyflogwyr Lletygarwch un swydd wag o leiaf yn ystod y 12 mis lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol, ac roedd y swyddi

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

gwag hyn yn cynrychioli bron un o bob pum swydd wag (18 y cant) yn y sector Lletygarwch.

Adroddodd bron un o bob pum sefydliad Lletygarwch (18 y cant) fod ganddo bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg. Roedd ychydig dros ddau o bob pump (42 y cant) yn ystyried eu bod yn deall rhywfaint ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ac roedd 11 y cant wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### *Creadigol*

Roedd y sector Creadigol ymhlith y lleiaf o ran maint sefydliadau: roedd 85 y cant yn ficrosefydliadau (2-9), a 10 y cant yn sefydliadau bach a oedd yn cynnwys 10-24 aelod o staff. Dim ond un y cant a oedd yn cynnwys 50 aelod o staff neu fwy. O blith yr holl sectorau, y sector Creadigol oedd â'r crynhoad mwyaf o'i sefydliadau yn ne-ddwyrain Cymru (52 y cant), gydag oddeutu un o bob pum sefydliad yng ngogledd Cymru a de-orllewin Cymru, ac un o bob deg sefydliad yng nghanolbarth Cymru.

Ystyriai dau o bob pum (39 y cant) cyflogwr yn y sector Creadigol fod sgiliau Cymraeg yn bwysig yn gyffredinol (ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr wyth sector), ac roedd cyfrannau tebyg yn meddwl bod y sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig oddi mewn i Gymru (41 y cant) a gwasanaeth cwsmeriaid (39 y cant). Ystyriai tua un o bob pum cyflogwr Creadigol a weithredai yn y sector preifat (19 y cant) fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar ei linell waelod.

Yn y sector hwn, adroddodd 68 y cant o gyflogwyr fod sgiliau Cymraeg ar ryw lefel neu'i gilydd i'w cael ymhlith eu staff, sef tua'r lefel gyfartalog ar gyfer yr wyth sector. Fodd bynnag, adroddwyd bod gan bron hanner (48 y cant) yr holl staff Creadigol sgiliau Cymraeg; sef cyfran sylweddol uwch na'r hyn a gafwyd yn yr holl sectorau eraill, ar wahân i Ofal Plant. Roedd staff Creadigol hefyd yn debygol iawn o feddu ar sgiliau lefel uwch.

Er bod gan fwyafrif y sefydliadau Creadigol sgiliau Cymraeg, ac er gwaethaf y gyfran uchel o staff Creadigol a chanddynt sgiliau, dim ond tua thraean (34 y cant) y cyflogwyr a ddywedodd fod y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio'n wirioneddol yn y gweithle. Adroddodd un o bob un ar ddeg (naw y cant) fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

yn y gweithle. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o sectorau eraill, roedd staff Creadigol yr un mor debygol o ddefnyddio sgiliau ysgrifennu â sgiliau llafar Cymraeg, gyda llawer o sefydliadau'n defnyddio sgiliau ysgrifenedig ar gyfer gweithgarwch marchnata a gwefannau.

Ystyriai bron dau o bob pum (39 y cant) cyflogwr Creadigol y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad, o ran gwella gwasanaeth cwsmeriaid a hefyd er mwyn datblygu busnes.

Adroddodd tua un o bob saith cyflogwr (15 y cant) yn y sector Creadigol fod ganddo o leiaf un swydd wag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol. Mae hyn yn cynrychioli ychydig dros chwarter (27 y cant) yr holl swyddi gwag yn y sector Creadigol.

Adroddodd deuddeg y cant o sefydliadau Creadigol fod ganddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg. Ystyriai ychydig dros hanner (53 y cant) eu bod yn deall rhywfaint ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ac roedd 16 y cant wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y gyfran uchaf ond un o blith yr wyth sector, ar ôl Gofal Plant).

Roedd deuddeg y cant o gyflogwyr y sector Creadigol yn disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu; y ddau brif reswm a roddwyd oedd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith a newidiadau i ddeddfwriaeth.

### *Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol*

Microsefydliadau oedd pedwar o bob pum cyflogwr o'r Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol, ac roedd y rhan fwyaf o'r gweddill yn y categori 10-24. Roedd gan bedwar y cant o'r safleoedd 50 neu fwy o staff. Roedd cyfran helaeth iawn o safleoedd y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol i'w cael yn ne-ddwyrain Cymru, gyda bron hanner (49 y cant) y safleoedd wedi'u lleoli yn yr ardal honno. Fel y gwelwyd mewn sectorau eraill, roedd cyfran y safleoedd yng ngogledd Cymru ac yn ne-orllewin Cymru yn debyg (tua un o bob pump), tra bod wyth y cant o safleoedd wedi'u lleoli yng nghanolbarth Cymru.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Yn gyffredinol, roedd ychydig dros chwarter (26 y cant) cyflogwyr y Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol yn ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig, sef un o'r cyfrannau isaf a welwyd o blith yr wyth sector. Roedd ychydig mwy ohonynt yn ystyried bod y sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig oddi mewn i Gymru ac ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (31 y cant yn y naill a'r llall). Ystyriai tri ar ddeg y cant o gyflogwyr Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar eu llinell waelod.

Adroddodd ychydig dros ddau draean (68 y cant) o gyflogwyr Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol fod rhyw lefel neu'i gilydd o sgiliau i'w cael ymhlith eu staff, ond dim ond tua un o bob pum aelod o staff (19 y cant) yn y sector hwn a feddai ar sgiliau (y lefelau isaf o blith yr wyth sector).

Er i fwyafrif y cyflogwyr Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol adrodd bod ganddynt staff â sgiliau Cymraeg, llai na thraean y safleoedd (29 y cant) a nododd ddefnydd gwirioneddol o'r sgiliau hyn yn y gweithle. Adroddodd un o bob ugain (pump y cant) fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Er bod staff y Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol y fwy tebygol o ddefnyddio sgiliau llafar, roedd y cyfrannau cymharol a ddefnyddiai sgiliau ysgrifennu yn uwch nag yn y rhan fwyaf o sectorau eraill. Fel y gwelwyd yn y sector Creadigol, roedd hyn yn gysylltiedig â defnyddio sgiliau ar gyfer gweithgarwch marchnata a gwefannau.

Ystyriai traean (33 y cant) cyflogwyr y Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad, o ran gwella gwasanaeth cwsmeriaid a hefyd er mwyn datblygu busnes.

Roedd y galw am sgiliau Cymraeg yn y broses recriwtio yn weddol isel; adroddodd 10 y cant o gyflogwyr Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol fod ganddynt un neu fwy o swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol; roedd hyn yn cynrychioli 11 y cant o holl swyddi gwag y Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol.

Adroddodd naw y cant o sefydliadau Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol fod ganddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg. Ystyriai tua hanner (49 y cant) eu bod yn deall

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

rhywfaint ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle; roedd naw y cant wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### *Bwyd-amaeth*

Microsefydliadau (2-9) yw bron yr holl sefydliadau yn y sector Bwyd-amaeth yng Nghymru. Dim ond tri y cant o gyflogwyr yn y sector hwn a gyflogai dros 10 aelod o staff. Dyma'r proffil lleiaf o blith pob un o'r wyth sector. Roedd dosbarthiad safleoedd Bwyd-amaeth yn gymharol gyfartal ar draws gogledd Cymru, canolbarth Cymru a de-orllewin Cymru. Fodd bynnag, dim ond 11 y cant ohonynt oedd wedi'u lleoli yn neddwyrain Cymru.

Ar ôl Gofal Plant, y sector Bwyd-amaeth oedd y sector a oedd yn fwyaf tebygol o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w busnes; ystyriai bron hanner (45 y cant) y cyflogwyr fod y sgiliau hynny'n bwysig, a thraean (33 y cant) fod y sgiliau'n bwysig iawn. Roedd cyfrannau tebyg yn meddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig oddi mewn i Gymru (43 y cant) ac ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (41 y cant), ac ystyriai dros draean (35 y cant) fod y sgiliau hefyd yn bwysig o ran bodlonrwydd a chadw staff; roedd hyn yn sylweddol uwch na'r rhan fwyaf o'r sectorau eraill, ond yn is na'r sector Gofal Plant. Ystyriai ychydig dros un o bob bump (22 y cant) o'r rhai a weithredai yn y sector preifat fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar eu llinell waelod.

Roedd cyfran y cyflogwyr Bwyd-amaeth a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ymhlith eu staff yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cyffredinol (68 y cant). Fodd bynnag, 34 y cant oedd cyfran y staff a chanddynt unrhyw sgiliau, a hynny'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd. Yn ogystal, roedd yr aelodau hynny o staff a chanddynt sgiliau'n fwyaf tebygol o feddu ar sgiliau lefel uwch - patrwm tebyg i'r hyn a welwyd yn y sector Creadigol, ac yn wahanol i bob sector arall.

Roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle ym mron hanner (49 y cant) y sefydliadau, sef y gyfran uchaf ar ôl Gofal Plant. Yn ogystal, adroddodd dros draean (37 y cant) y cyflogwyr fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg, cyfran llawer uwch na'r hyn a welwyd yn yr holl sectorau eraill, ar wahân i'r sector Gofal Plant. Roedd staff

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Bwyd-amaeth yn debygol o ddefnyddio sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yn ogystal â sgiliau Cymraeg llafar, ac roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar gyfer ystod eang o ddibenion ffurfiol ac anffurfiol yn y sector hwn. Mae hyn yn awgrymu mai'r Gymraeg yw iaith arferol y gweithle yn achos llawer o sefydliadau yn y sector hwn.

Ystyriai tri ar ddeg y cant o gyflogwyr Bwyd-amaeth y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad. Fodd bynnag, roedd gan lawer o staff Bwyd-amaeth eisoes sgiliau lefel uwch (mewn tua chwarter o'r safleoedd Bwyd-amaeth, roedd gan yr holl staff eisoes sgiliau lefel uwch), gan olygu nad oedd unrhyw bosibilrwydd ar gyfer gwella.

Er ei bod hi'n llai tebygol y byddai angen cymwysterau galwedigaethol penodol yn y sector Bwyd-amaeth na'r rhan fwyaf o'r sectorau eraill, roedd rhywfaint o alw am gael cyflwyno cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg (23 y cant) ymhlith y cyflogwyr hynny a ofynnai am gymwysterau o'r fath.

Er gwaethaf y defnydd helaeth o'r Gymraeg mewn sefydliadau Bwyd-amaeth, roedd cyflogwyr yn y sector hwn ychydig yn llai tebygol na chyflogwyr y sectorau eraill o fod wedi trefnu hyfforddiant Cymraeg i'r staff. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu bod y Gymraeg yn iaith fwy arferol yn y sector yma, a bod llawer yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, gan leihau'r angen am hyfforddiant yn y gweithle.

Adroddodd pump y cant o gyflogwyr Bwyd-amaeth iddynt fod â swydd wag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol, er mai ychydig a gafodd eu recriwtio yn gyffredinol (dim ond 12 y cant o gyflogwyr Bwyd-amaeth a adroddodd fod ganddynt unrhyw swydd wag yn ystod y 12 mis diwethaf).

Adroddodd tri y cant o sefydliadau Bwyd-amaeth fod ganddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg. Ystyriai ychydig dros ddau o bob pump (43 y cant) eu bod yn deall rhywfaint ynghylch deddfwriaeth a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ac roedd 12 y cant wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### *Manwerthu*

Roedd y sector Manwerthu yn cynnwys cyfran uwch o safleoedd mwy na'r rhan fwyaf o'r sectorau eraill. Er hynny, microsefydliadau oedd tri chwarter ohonynt (76 y cant).

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Sefydliadau bach yn cynnwys 10-49 o staff oedd ychydig dros un o bob bump ohonynt (21 y cant), ac roedd gan dri y cant 50 neu fwy o staff. Roedd safleoedd manwerthu yn fwyaf tebygol o fod wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru (44 y cant), gydag oddeutu chwarter yng ngogledd Cymru, chwarter arall yn ne-orllewin Cymru, a naw y cant yng nghanolbarth Cymru.

Yn gyffredinol, ystyriai traean (33 y cant) y cyflogwyr manwerthu fod sgiliau Cymraeg yn bwysig; mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer yr wyth sector. Ystyriai tua dau o bob pump (39 y cant) fod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer eu masnach ddomestig oddi mewn i Gymru, ac ystyriai 35 y cant fod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer ansawdd eu gwasanaeth cwsmeriaid, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer yr wyth sector. Ystyriai deuddeg y cant o gyflogwyr Manwerthu sy'n gweithredu yn y sector preifat fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar eu llinell waelod.

Adroddodd mwyafrif (66 y cant) y cyflogwyr Manwerthu fod sgiliau Cymraeg ar ryw lefel neu'i gilydd i'w cael ymhlith eu staff, ac adroddwyd bod gan 22 y cant o'r holl staff Manwerthu y sgiliau hynny. Yn y ddau achos, mae'r cyfrannau hyn yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer yr wyth sector.

Er bod gan fwyafrif y cyflogwyr Manwerthu sgiliau Cymraeg ymhlith eu staff, ychydig dan draean y cyflogwyr (31 y cant) a nododd ddefnydd gwirioneddol o'r sgiliau hyn yn y gweithle. Adroddodd chwech y cant o gyflogwyr fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd staff Manwerthu yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio sgiliau llafar na sgiliau ysgrifenedig.

Ystyriai ychydig dros chwarter (27 y cant) y cyflogwyr Manwerthu y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad, a hynny'n bennaf er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid.

Roedd y galw am sgiliau Cymraeg yn y broses recriwtio yn weddol isel; adroddodd wyth y cant o gyflogwyr Manwerthu y bu ganddynt un neu fwy o swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol, er bod y swyddi hynny'n cynrychioli un o bob pump (20 y cant) o'r holl swyddi gwag yn y sector Manwerthu.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Adroddodd un o bob ugain (5 y cant) sefydliad Manwerthu fod ganddo bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg. Roedd ychydig dros draean (36 y cant) yn deall rhywfaint ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, (a hynny'n sylweddol is na'r rhan fwyaf o'r sectorau eraill); roedd chwech y cant wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### *Adeiladu*

Roedd gan y sector Adeiladu un o'r proffiliau maint lleiaf ymhlith yr wyth sector: microsefydliadau (2-9) oedd 87 y cant o gyflogwyr Adeiladu, a sefydliadau bach yn cynnwys 10-24 o aelodau staff oedd wyth y cant ohonynt. Dim ond dau y cant oedd yn cynnwys 50 neu fwy o staff. Gweithrediadau un safle oedd y mwyafrif helaeth ohonynt (90 y cant). Fel y rhan fwyaf o'r sectorau eraill, roedd crynhoad uchel o gyflogwyr y sector Adeiladu wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru (40 y cant), gyda chwarter yng ngogledd Cymru, chwarter arall yn ne-orllewin Cymru, ac un o bob deg yng nghanolbarth Cymru.

Ystyriai chwarter (25 y cant) y cyflogwyr Adeiladu fod cael sgiliau Cymraeg ymhlith y staff yn gyffredinol bwysig ar gyfer eu safle, y gyfran isaf a welwyd o blith pob un o'r wyth sector. Ystyriai cyfran debyg fod y sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig oddi mewn i Gymru (27 y cant) ac ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (28 y cant). Teimlai un ar ddeg y cant o gyflogwyr Adeiladu fod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar eu llinell waelod.

Y sector Adeiladu oedd y sector a oedd yn lleiaf tebygol o gynnwys sgiliau Cymraeg ar lefel safle; ychydig dros hanner (54 y cant) y cyflogwyr a adroddodd fod ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ymhlith y staff. Fodd bynnag, 22 y cant oedd cyfran y staff Adeiladu a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, ffigur nad oedd ond ychydig yn is na'r cyfartaledd.

Gan gyd-fynd â'r gyfran is o sefydliadau o fewn y sector hwn a chanddynt sgiliau Cymraeg, adroddodd tua chwarter (24 y cant) y cyflogwyr Adeiladu fod staff yn defnyddio sgiliau Cymraeg ar eu safle. Adroddodd un o bob deg fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg (roedd y gyfran hon yn uwch yng ngogledd Cymru, canolbarth



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Cymru a de-orllewin Cymru, lle adroddwyd hynny gan rhwng 14 y cant ac 19 y cant o'r cyflogwyr, o gymharu â 2 y cant yn ne-ddwyrain Cymru). Sgiliau llafar a ddefnyddiai staff adeiladu yn bennaf (deall a siarad).

Ystyriai ychydig dros un o bob pum (21 y cant) cyflogwr Adeiladu y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad (y gyfran isaf o blith yr holl sectorau, ar wahân i'r sector Bwyd-amaeth), yn bennaf er mwyn darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid, a hefyd er mwyn datblygu busnes.

Prin oedd y galw am sgiliau Cymraeg yn y broses recriwtio; adroddodd pedwar y cant o gyflogwyr Adeiladu fod ganddynt un neu fwy o swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol; roedd y swyddi hyn yn cynrychioli 11 y cant o'r holl swyddi gwag yn y sector Adeiladu.

Ychydig iawn o gyflogwyr Adeiladu (dau y cant) a adroddodd fod ganddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg. Ystyriai ychydig llai na chwarter ohonynt (23 y cant) eu bod yn deall rhywfaint ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle (ffigur sylweddol is na'r holl sectorau eraill). Roedd pedwar y cant wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddeall yr angen am sgiliau Cymraeg ymhlith cyflogwyr yng Nghymru, ac effaith sgiliau Cymraeg ar y cyflogwyr hynny. Cynlluniwyd yr ymchwil i ddarparu gwybodaeth er mwyn cynllunio hyfforddiant a gwasanaethau i fusnesau, a hefyd i godi ymwybyddiaeth am fanteision posib gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith unigolion a chyflogwyr.

### Cefndir

- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei hymrwymiad i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn anelu i gynyddu nifer y rhai sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r ymdrech tuag at fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog - nod a bennwyd yn wreiddiol yn *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Ddwyeithog* (2003).
- 1.3 Rhan annatod o'r ymrwymiad hwn yw'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010), sy'n nodi strategaeth y Llywodraeth a'i rhaglen weithredu ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys cydnabod y Gymraeg fel sgil yn y gweithle a datblygu dulliau gwell o gydnabod a chyrraedd lefelau sgil), a'r polisi ehangach a nodir yn *Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017*.<sup>1</sup>
- 1.4 Er bod darparu addysg cyfrwng Cymraeg ynddo'i hun yn rhan hollbwysig o'r ymdrech i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ystyrir bod y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn faes hanfodol er mwyn symud tuag at gymdeithas ddwyieithog. Mae *Iaith Fyw: Iaith Byw* yn nodi chwe 'maes strategol' – y pedwerydd maes yw "cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle" a'r pumed yw, "cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion". Yn wir, ystyrir "sicrhau rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle" yn elfen allweddol er mwyn sicrhau bod effeithiau'r Strategaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy dros amser.

---

<sup>1</sup> *Iaith Fyw: Iaith Byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-2017* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012 (ISBN: 978 0 7504 7014 8)

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 1.5 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae angen nodi'r mathau o hyfforddiant a chymorth y bydd ar fusnesau eu hangen er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, o ran y busnesau hynny sydd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg, a'r rhai nad ydynt eto wedi ymwneud â'r Gymraeg; yn achos yr olaf, ystyriaeth allweddol arall fydd canfod y dull gorau o hybu'r defnydd o'r Gymraeg.
- 1.6 Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau sydd ar gyrraedd o safbwynt rheoleiddio, a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i rai cyrff gydymffurfio â safonau newydd ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn sgil y Mesur hwnnw, rhoddwyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a chrëwyd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg. Y Mesur hwnnw hefyd a sefydlodd swydd y Comisiynydd Iaith.
- 1.7 Un o elfennau allweddol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oedd sefydlu safonau ar gyfer y Gymraeg i orfodi dyletswyddau ar y sector cyhoeddus ac ar rai sefydliadau yn y sector preifat er mwyn caniatáu i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau. Ym mis Mai 2013, cyhoeddwyd y byddai rheoliadau'n cael eu sefydlu erbyn diwedd 2014, ac y byddai'r rhain yn berthnasol i Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad safonau mewn perthynas â'r cyrff hyn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2014, a bydd yn cyflwyno ei chanfyddiadau i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mai. Rhagwelir y bydd y Rheoliadau yn cael eu cymeradwyo ac yn dod i rym erbyn mis Tachwedd 2014. Bydd hyn yn cyd-daro â sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg cwbl weithredol, y bwriedir iddo ymdrin ag achosion apêl a geir yn sgil y safonau. Bydd y Comisiynydd yn dechrau ymchwiliadau pellach i safonau ym mis Medi 2014 a mis Mai 2015 ar gyfer y cylch nesaf o gyrff a restrir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys cyrff o'r sector iechyd, cyrff llywodraeth leol a rhai cyrff o'r sector preifat. Rhagwelir y bydd safonau'n cael eu gorfodi ar bob corff a restrir yn y Mesur erbyn diwedd 2016.<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> Gweler yn adran Datganiadau 2013, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, '*Datganiad Ysgrifenedig - Amserlen ar gyfer y Set Gyntaf o Safonau'r Gymraeg*'

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 1.8 Er gwaethaf pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, arsylwodd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru nad oes yr un "system gyffredinol mewn lle ar gyfer adnabod anghenion sgiliau Cymraeg cyflogwyr a sefydliadau".<sup>3</sup> Cynhaliwyd yr ymchwiliad graddfa fawr diwethaf i anghenion sefydliadau o ran sgiliau Cymraeg yn 2005,<sup>4</sup> ac argymhellodd y Bwrdd y dylid blaenoriaethu sectorau penodol i'w dadansoddi, a hefyd bod angen asesu sgiliau yn ôl rhanbarth.
- 1.9 Er mwyn llenwi'r bylchau yn yr wybodaeth am faint a natur yr angen am sgiliau Cymraeg ymhlith cyflogwyr, dyma oedd nodau ac amcanion yr ymchwil:
- Darparu gwybodaeth am yr anghenion presennol a'r anghenion yn y dyfodol o ran sgiliau Cymraeg yn ôl sector, mathau o alwedigaeth a rhanbarth;
  - Darparu safbwyntiau cyflogwyr ynglŷn â'r graddau y mae'r defnydd (neu'r diffyg defnydd) o sgiliau Cymraeg yn effeithio ar linell waelod eu busnes;
  - Darparu canfyddiadau cyflogwyr ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i'w busnes mewn perthynas â sgiliau Cymraeg, ac ynghylch a yw'r cymorth hwn yn addas i'w hanghenion.

---

<sup>3</sup> Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, *Polisiâu Sgiliau a'r Iaith Gymraeg*, Chwefror 2011.

<sup>4</sup> *Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru - Sgiliau Iaith Gymraeg mewn Saith Sector: Adroddiad i Bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru* gan Beaufort Research a Menter a Busnes, Mawrth 2005.

## Methodoleg

1.10 Er mwyn bodloni'r amcanion a amlinellir uchod, roedd tri phrif gam i'r ymchwil:

- Cam yr archwiliad ansoddol, a oedd yn cynnwys 10 trafodaeth benagored wyneb yn wyneb
- Arolwg meintiol graddfa fawr a oedd yn cynnwys 4,000 o gyfweiliadau dros y ffôn (cyn hynny, cynhaliwyd cam peilot a oedd yn cynnwys 50 o gyfweiliadau, a cham profi gwybyddol)
- Astudiaethau achos dilynol a oedd yn cynnwys 10 trafodaeth wyneb yn wyneb â chyflogwyr a gafodd eu cyfweild yng ngham y cyfweiliadau dros y ffôn.

1.11 Yn seiliedig ar sectorau a gafodd eu blaenoriaethu cyn hynny gan Lywodraeth Cymru, a chan ystyried argymhellion a wnaed gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru,<sup>5</sup> cytunwyd y dylid cynnwys wyth sector yn yr ymchwil hwn:

- Gofal Plant
- Gofal Cymdeithasol
- Creadigol
- Lletygarwch, hamdden a thwristiaeth
- Gwasanaethau Proffesiynol / Busnes (Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol)
- Manwerthu
- Amaethyddiaeth a Chynhyrchu Bwyd (gelwir hyn yn 'Bwyd-amaeth' drwy'r holl adroddiad hwn)
- Adeiladu

1.12 Oddi mewn i hyn, ystyriwyd bod pedwar Sector o bwysigrwydd neilltuol: Gofal Cymdeithasol; Gofal Plant; Lletygarwch, hamdden a thwristiaeth; a'r Sector Creadigol.

1.13 Ceir diffiniad yn Atodiad C o bob un o'r sectorau hyn o ran eu cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (2007).

---

<sup>5</sup> Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, *Polisiau Sgiliau a'r Iaith Gymraeg*, Chwefror 2011.

*Cam yr Archwiliad Ansoddol*

1.14 Cynlluniwyd y cam hwn o'r ymchwil yn gymorth i ddylunio'r holiadur meintiol, ac i ddeall sut mae cyflogwyr yn siarad am y materion sy'n ymwneud â'r angen am sgiliau Cymraeg. Cynhaliwyd deg cyfweiliad manwl wyneb yn wyneb gyda chyflogwyr yn rychwantu ystod o sectorau, meintiau a rhanbarthau perthnasol, gan gynnwys cyfweiliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg (pump yn y naill iaith a'r llall). Cynhaliwyd y rhain gan ymchwilwyr IFF, Old Bell 3 ac Iaith.

1.15 Defnyddiwyd cwestiynau sgrinio i ddethol busnesau a ddefnyddiai Sgiliau Cymraeg, neu yr oedd angen sgiliau Cymraeg arnynt yn rhan o'u gweithrediadau busnes. I fod yn gymwys, roedd yn rhaid i fusnesau ateb un neu fwy o'r datganiadau canlynol yn gadarnhaol:

- Rydym yn gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn ein busnes.
- Defnyddir y Gymraeg yn y sefydliad, ond ar sail anffurfiol.
- Pe bai gan fwy o'n staff lefelau uwch o sgiliau Cymraeg, byddai hynny o fudd i fusnes y sefydliad.
- Rydym wedi'i chael hi'n anodd recriwtio staff a chanddynt y lefel o sgiliau Cymraeg y byddem yn ei dymuno'n ddelfrydol.
- Bydd ein hangen am sgiliau Cymraeg yn cynyddu'n sylweddol yn y 2-3 blynedd nesaf.

1.16 Dangosir nodweddion y 10 cyfweiliad ansoddol yn Nhabl 1.1.

**Tabl 1.1: Proffil o'r sampl ar gyfer cam yr archwiliad ansoddol**

	Cyfweiliadau a gynhaliwyd			Cyfweiliadau a gynhaliwyd	
	Saesneg	Cymraeg		Saesneg	Cymraeg
<b>Sector</b>			<b>Rhanbarth</b>		
Gofal Plant	-	1	Gogledd Cymru	1	2
Gofal Cymdeithasol	-	1	Canolbarth Cymru	-	1
Creadigol	1	1	De-orllewin Cymru	-	2
Lletygarwch	2	-	De-ddwyrain Cymru	4	-
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	-	1	<b>Maint</b>		
Bwyd-amaeth	-	1	2 i 9	1	-
Manwerthu	1	-	10 i 24	1	2
Adeiladu	1	-	25 i 49	1	-
			50 i 99	-	1
			100+	2	2

*Profi Gwybyddol a'r Cam Peilot*

1.17 Ar ôl drafftio'r holiadur meintiol, cynhaliwyd 10 cyfweiliad gwybyddol, lle aeth yr ymchwilyr drwy'r holiadur arfaethedig cyn cysylltu eto â'r cyfwelai i drafod sut yr oedd wedi dehongli a deall y cwestiynau, pam yr oedd wedi rhoi'r atebion a roddwyd a beth yr oedd yn ei feddwl wrth roi'r atebion hynny. Profwyd fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg yr holiadur (gan gynnal pum cyfweiliad yn y naill iaith a'r llall), a detholwyd ymatebwyr o wahanol ardaloedd o Gymru er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw amrywiaeth ranbarthol. Yn ogystal â hyn, llwyddwyd i gynnal cyfweiliadau â sefydliadau o ystod o sectorau a bandiau maint. Dangosir proffil y cyfweiliadau a gynhaliwyd yn Nhabl 1.2.

**Tabl 1.2: Proffil o sampl y profion gwybyddol**

	Cyfweiliadau a gynhaliwyd			Cyfweiliadau a gynhaliwyd	
	Saesneg	Cymraeg		Saesneg	Cymraeg
<b>Sector</b>			<b>Rhanbarth</b>		
Gofal Plant	-	1	Gogledd Cymru	1	2
Gofal Cymdeithasol	-	-	Canolbarth Cymru	1	1
Creadigol	-	2	De-orllewin Cymru	-	2
Lletygarwch	1	1	De-ddwyrain Cymru	3	-
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	1	1	<b>Maint</b>		
Bwyd-amaeth	2	-	2 i 9	3	-
Manwerthu	-	-	10 i 24	-	1
Adeiladu	1	-	25 i 49	1	1
			50 i 99	1	3
			100+	-	-

- 1.18 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r profion gwybyddol, cafodd nifer o argymhellion eu cynnig er mwyn gwella'r holiadur yn gyffredinol, ac er mwyn gwella cwestiynau ac adrannau penodol, a'u gweithredu ar gyfer y cam peilot.
- 1.19 Daeth yn amlwg yn fuan wrth ddylunio'r holiadur y byddai angen taro cydbwysedd gofalus iawn rhwng casglu digon o fanylion ar lefel galwedigaethau, a sicrhau nad oedd yr arolwg yn rhy feichus i'r ymatebwyr, neu mor gymhleth fel na fyddai modd cynnal dadansoddiad ystyrion ohono. Penderfynwyd felly y dylid rhannu'r cam peilot yn ddau gam ar wahân, gan gynnal 25 o gyfweiliadau yn y naill gam a'r llall, a chyda saib rhwng y camau fel bo modd adolygu'r cwestiynau galwedigaeth i sicrhau bod yr ymagwedd orau bosib yn cael ei defnyddio yn yr arolwg terfynol.



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 1.20 Cynhaliwyd y 25 o gyfweiliadau cyntaf ar gyfer y peilot o 12 - 14 Awst 2013. Ar ôl cynnal ôl-drafodaeth â'r cyfweleion, ac archwilio'r data'n fanwl, diwygiwyd yr holiadur a chynnal yr ail gyfres beilot o 25 o gyfweiliadau o 29 Awst - 2 Medi 2013.

### *Y Cam Meintiol*

- 1.21 Defnyddiwyd canfyddiadau cam yr archwiliad ansoddol i sicrhau y byddai'r holiadur meintiol yn gallu bodloni holl amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr astudiaeth, ac y byddai'r holiadur yn cael ei fynegi yn y dull mwyaf ystyrllon i'r cyflogwyr a oedd yn cymryd rhan. Atodir yr holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg (Atodiad D).
- 1.22 Rhwng mis Medi a mis Hydref 2013, cynhaliwyd cyfanswm o 4,026 o gyfweiliadau â sefydliadau o'r wyth sector. Yn ogystal â gweithredu o fewn yr wyth sector penodol dan sylw, i fod yn gymwys roedd yn rhaid i gyflogwyr fod â dau aelod o staff o leiaf wedi'u lleoli yn y sefydliad.
- 1.23 Cynhaliwyd y cyfweiliadau drwy ddefnyddio System Cyfweld Dros y Ffôn drwy Gymorth Cyfrifiadur (CATI) gan IFF Research (3,711 o gyfweiliadau), a chan Old Bell 3 o'u swyddfa yn Llandeilo (315 o gyfweiliadau).
- 1.24 Cafodd yr ymatebwyr ddewis cwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cynhaliwyd cyfanswm o 163 o gyfweiliadau yn Gymraeg (pedwar y cant o gyfanswm y cyfweiliadau).<sup>6</sup>
- 1.25 Darparwyd sampl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector gofal<sup>7</sup> - ym mhob sector arall tynnwyd sampl o Gronfa Ddata Busnesau Genedlaethol Experian.
- 1.26 Mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, gosodwyd targedau ar gyfer y nifer ddymunol o gyfweiliadau i'w cwblhau ym mhob sector. Yn sail ar gyfer hyn, ystyriwyd a oedd y sector yn un â blaenoriaeth, a nifer y cyflogwyr ym mhob sector. Arweiniodd hyn at dargedau cychwynnol o 1,000 yn y sector Lletygarwch,

---

<sup>6</sup> Cynhaliwyd holl gyfweiliadau Old Bell 3 gan ymchwilydwyr dwyieithog. Y drefn a ddefnyddiwyd yn IFF Research oedd gofyn ar ddechrau pob arolwg a fyddai'n well gan yr ymatebydd gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg; pe bai'r cyfwelydd yn siarad Cymraeg a bod yr ymatebydd yn dymuno parhau â'r arolwg bryd hynny, byddai modd parhau i gynnal y cyfweiliad yn y naill iaith neu'r llall. Pe na bai'r cyfwelydd yn gallu siarad Cymraeg, byddai'n amlygu'r cofnod i dderbyn galwad yn ôl yn Gymraeg, drwy ddefnyddio newidyn o fewn yr arolwg, ac yn hysbysu'r ymatebydd y byddai cyfwelydd Cymraeg ei iaith yn ffonio'n ôl i gynnal y cyfweiliad. Cafodd y cofnodion hyn wedyn eu gosod ar restr arbennig y gallai'r cyfwelwyr a oedd yn siarad Cymraeg ei gweld.

<sup>7</sup> Gwnaed hyn gan fod Llywodraeth Cymru'n gallu darparu rhestr fwy cynhwysfawr (drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)) nag a oedd ar gael drwy Experian.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

900 yn y sector Gofal (a oedd yn cynnwys Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol), tua 450 yn y sector Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol, a hefyd yn y sectorau Bwyd-amaeth, Adeiladu a Manwerthu, a 350 yn y sector Creadigol.

1.27 Wedi hynny, sefydlwyd cwotâu oddi mewn i bob sector ar sail meintiau penodol (2-9 cyflogai, 10-24, 25-49, 50-99 a 100 a mwy) fesul rhanbarth (gogledd Cymru, canolbarth Cymru, de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru). Y ddau eithriad i hyn oedd y sector Creadigol a'r sector Gofal. Gan mai bach oedd sampl y sector Creadigol (tua 1,085), a chrynhoad y sampl hwnnw yn ne-ddwyrain Cymru, ni phennwyd unrhyw gwotâu penodol o ran maint na rhanbarth. Yn y sector Gofal, nid oedd y sampl yn cynnwys manylion am faint y cyflogwyr, felly ni phennwyd unrhyw gwotâu ar gyfer maint. Ar gyfer y cwotâu yn ôl maint a rhanbarth, y nod oedd gorsamplu cyflogwyr mwy (oherwydd eu pwysigrwydd yn nhermau cyflogaeth), a sicrhau cynrychiolaeth weddol gyfartal ar draws y rhanbarthau (canlyniad hyn oedd gorsamplu canolbarth Cymru).

1.28 Dangosir canlyniadau'r ymateb yn Nhabl 1.3.

**Tabl 1.3: Canlyniadau'r ymateb fel cyfanswm ac yn ôl sector**

	<b>Pawb</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Gofal Cymdeithasol</b>	<b>Creadigol</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Cyllid</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Adeiladu</b>
Cwblhau cyfweiliad	4,026	425	581	291	1,010	460	459	454	346
Terfynu cyfweiliad / cyfweiliad anghyflawn	1,663	53	54	67	370	93	433	91	502
Gwrthod	2,330	91	113	187	592	389	312	307	339
Anghymwys (dim cyflogaion, heb fod o fewn y sectorau a ddymunir)	1,183	38	20	169	212	178	236	79	251
Rhif anghyraeddadwy	1,582	134	68	117	448	184	127	173	331
Dros y cwota	831	65	55	-	340	122	68	170	11
Ddim ar gael yn ystod gwaith maes	276	12	14	25	59	39	20	44	63
Neb ar y safle yn gallu ateb	472	17	31	17	141	136	27	60	43
Yn dal ar agor ar ddiwedd y gwaith maes / wedi'i dynnu'n ôl gan fod y cwotâu'n llawn	8,991	1,159	844	205	2,482	1,146	936	1,571	648
<i>Cyfanswm y cysylltiadau gyda chanlyniad pendant (hy, gan eithrio 'yn dal ar agor ar ddiwedd y gwaith maes')</i>	12,363	835	936	873	3,172	1,601	1,682	1,378	1,886
<i>Cyfanswm y cysylltiadau gyda chanlyniad pendant lle'r oedd y sampl o fewn y cwmpas (hy, gan eithrio anghymwys, rhif ffôn anghyraeddadwy a dros y cwota hefyd)</i>	8,767	598	793	587	2,172	1,117	1,251	956	1,293
<b>Cyfradd Cyfranogi</b> (cyfweiliadau / rhes uchod)	46%	71%	73%	50%	47%	41%	37%	47%	27%


## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 1.29 Wrth ddadansoddi, pwysolwyd canlyniadau'r arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn gynrychioliadol o bob sector, yn ôl maint a rhanbarth. I'r perwyl hwn, cafodd data'r arolwg eu chwyddo i gyd-fynd â chyfrifiadau poblogaeth y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR) ym mhob un o'r wyth sector, drwy ddefnyddio matrices maint yn ôl sector ac yn ôl rhanbarth. Yn ogystal â hyn, cynhyrchwyd pwysolau cyflogaeth ar gyfer unrhyw gwestiynau lle'r oedd cyfaint y cyflogeion (yn hytrach na nifer y cyflogwyr) yn cael ei ddadansoddi.
- 1.30 Mae'r tri siart canlynol yn dangos maint (pwysoledig), sector a phroffil rhanbarthol y cyflogwyr a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr arolwg. (Darperir y rhain er mwyn dangos y cyd-destun: nid canfyddiadau'r arolwg mohonynt fel y cyfryw, gan fod y canlyniadau wedi cael eu pwysoli, fel y disgrifir uchod, i gyd-fynd â ffigurau'r IDBR ar gyfer maint a phoblogaeth ranbarthol y cyflogwyr o fewn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil).
- 1.31 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n cynnwys llai na 10 aelod o staff (80 y cant). Fel y dengys Ffigur 1.1, roedd amrywiaeth eang fesul sector: er bod gan bron yr holl gyflogwyr Bwyd-amaeth (97 y cant) lai na 10 cyflogai, nid oedd hyn ond yn berthnasol i ychydig yn llai na hanner (47 y cant) y cyflogwyr Gofal Cymdeithasol. Yn ôl rhanbarth, roedd y cyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru yn fwy na'r cyffredin, a'r cyflogwyr yng nghanolbarth Cymru oedd y mwyaf tebygol o gael llai na 10 aelod o staff (89 y cant).
- 1.32 Fel y dengys Ffigur 1.2, gweithredai'r rhan fwyaf o'r cyflogwyr yn y sector preifat (90 y cant). Roedd hyn yn amrywio'n eang rhwng pob sector, ac yn llawer llai cyffredin yn y sectorau Gofal Plant (37 y cant; perthyn i'r sector gwirfoddol yr oedd cyflogwyr Gofal Plant gan amlaf (46 y cant)), Gofal Cymdeithasol (72 y cant) a Lletygarwch (76 y cant: i ddibenion yr arolwg hwn, mae'n werth nodi bod Lletygarwch yn cynnwys Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd - gweler atodiad C am ddiffiniad o bob sector yn ôl y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol).
- 1.33 Dengys Ffigur 1.3 wasgariad rhanbarthol cyflogwyr yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil. Roedd bron dau o bob pum sefydliad (38 y cant) wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru, tua chwarter yn ne-orllewin Cymru (23 y cant) a hefyd yng ngogledd Cymru (25 y cant), a thua un o bob wyth yng nghanolbarth Cymru (13 y cant). Roedd cyflogwyr y sector Creadigol a'r Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol yn arbennig o debygol o fod wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru (52 y cant a 49 y


## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

cant, yn y drefn honno). O gymharu â hyn, dim ond 11 y cant o'r cyflogwyr yn y sector Bwyd-amaeth oedd wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru.


**Ffigur 1.1: Proffil maint cyffredinol, ac yn ôl sector a rhanbarth**



**Ffigur 1.2: Math o gyflogwr, yn gyffredinol ac yn ôl sector a rhanbarth**



**Ffigur 1.3: Rhanbarth, yn gyffredinol ac yn ôl sector**



### Astudiaethau Achos

1.34 Er mwyn cael rhagor o wybodaeth fanwl, cynhaliwyd 10 cyfweiliad astudiaeth achos dilynol â'r cyflogwyr, gan edrych yn benodol ar faterion diddorol oedd yn codi o'r arolwg meintiol.

1.35 Detholwyd cyflogwyr i'w cynnwys yn yr astudiaethau achos yn seiliedig ar eu hymateb i rai cwestiynau allweddol yn yr arolwg meintiol; gofynnwyd am gyfweiliadau gyda chymysgedd o'r rhai:

- a feddyliai y byddai eu hanghenion o ran sgiliau Cymraeg yn cynyddu'n sylweddol;
- a feddyliai y byddai eu hanghenion o ran sgiliau Cymraeg y gostwng;
- a feddyliai y byddai'n fuddiol cael mwy o staff a allai gyfathrebu yn Gymraeg neu a chanddynt lefel uwch o Gymraeg;
- sydd wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddatblygu sgiliau Cymraeg;

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- sydd wedi cael anhawster yn canfod cyrsiau hyfforddi Cymraeg priodol i'w staff;
- a chanddynt swyddi gwag yn ddiweddar a oedd yn anodd eu llenwi, yn rhannol o leiaf oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith yr ymgeiswyr;
- sydd wedi gofyn am unrhyw wybodaeth, cyngor neu gymorth busnes yn gysylltiedig â'r Gymraeg ar gyfer y gweithle.

1.36 Cafodd cyflogwyr o bob sector ond un, ac o'r holl ranbarthau eu cynnwys.

Cynhaliodd Old Bell 3 ac Iaith gyfweiliadau wyneb yn wyneb rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014, a rhoddwyd dewis i'r cyflogwyr ymateb naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Atodir adroddiadau o'r astudiaethau achos hyn (Atodiad A).

**Tabl 1.4: Proffil o sampl yr astudiaethau achos**

	Cyfweiliadau a gynhaliwyd			Cyfweiliadau a gynhaliwyd	
	Saesneg	Cymraeg		Saesneg	Cymraeg
<b>Sector</b>			<b>Rhanbarth</b>		
Gofal Plant	-	1	Gogledd Cymru	-	2
Gofal Cymdeithasol	1	-	Canolbarth Cymru	2	-
Creadigol	2	1	De-orllewin Cymru	2	2
Lletygarwch	1	1	De-ddwyrain Cymru	2	-
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	1	-	<b>Maint</b>		
Bwyd-amaeth	-	1	2 i 9	4	2
Manwerthu	1	-	10 i 24	-	2
Adeiladu	-	-	25 i 49	2	-
			50 +	-	-

## 2 Pwysigrwydd ac effaith gyffredinol sgiliau Cymraeg


2.1 Mae'r bennod hon yn archwilio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg i gyflogwyr o fewn yr wyth sector a drafodir yn yr ymchwil, a phwysigrwydd y sgiliau hynny ar gyfer agweddau penodol ar berfformiad busnes megis masnach ddomestig, masnach ryngwladol a gwasanaeth cwsmeriaid, a llinell waelod y busnes. Agwedd arall a archwilir yn y bennod, sy'n allweddol yng nghyd-destun datblygiadau polisi diweddar, yw'r graddau y mae cyflogwyr yn disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg newid yn y dyfodol.

### Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg

- 2.2 Gofynnwyd i sefydliadau pa mor bwysig oedd hi i'w safle gynnwys staff a chanddynt sgiliau Cymraeg. Teimlai ychydig dros draean y cyflogwyr (35 y cant) fod hyn yn bwysig iawn (18 y cant) neu'n weddol bwysig (17 y cant). Ar y llaw arall, teimlai oddeutu dau draean o gyflogwyr (65 y cant) nad oedd cael staff â sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn (25 y cant) neu'n bwysig o gwbl (39 y cant).
- 2.3 Roedd y canlyniadau'n amrywio'n eang yn ôl sector a rhanbarth, fel y dengys Ffigur 2.1. O bell ffordd, cyflogwyr o'r sectorau Gofal Plant a Bwyd-amaeth oedd yn fwyaf tebygol o ystyried bod cael staff â sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w sefydliad (disgrifiwyd hyn yn bwysig iawn gan 42 y cant o'r sector Gofal Plant a 33 y cant o'r sector Bwyd-amaeth). Cyflogwyr yn y sectorau Adeiladu a'r Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol oedd yn lleiaf tebygol o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn neu'n weddol bwysig (25 a 26 y cant, yn y drefn honno). Yn wir dywedodd tua hanner yn y naill sector a'r llall nad oedd cael staff â sgiliau o'r fath yn bwysig o gwbl (53 a 45 y cant, yn y drefn honno).
- 2.4 Roedd gwahaniaethau clir rhwng rhanbarthau, gyda chyflogwyr yng ngogledd Cymru'n fwyaf tebygol o ystyried ei bod hi'n bwysig cael sgiliau Cymraeg ar eu safle (57 y cant) a'r rhai yn ne-ddwyrain Cymru'n lleiaf tebygol o ystyried bod hyn yn bwysig (16 y cant), a thros hanner y rheiny (54 y cant) yn dweud nad oedd hyn yn bwysig o gwbl.



**Ffigur 2.1: Pwysigrwydd cael staff â sgiliau Cymraeg i'r safle, yn ôl sector a rhanbarth**




- 2.5 Cafwyd amrywiadau hefyd yn ôl math o sefydliad, gyda sefydliadau a oedd yn ceisio creu elw yn llawer llai tebygol o ddweud bod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w busnes (32 y cant) na chyrrff a ariennir gan lywodraeth leol (60 y cant), elusennau (60 y cant) a chyrrff a ariennir gan y llywodraeth ganolog (71 y cant).
- 2.6 Roedd sefydliadau a chanddynt sgiliau Cymraeg ymhlith eu staff presennol yn fwy tebygol o gredu bod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w busnes; roedd tua thri chwarter (76 y cant) y sefydliadau lle'r oedd gan yr holl aelodau o staff sgiliau Cymraeg yn ystyried bod y sgiliau hyn yn bwysig, o gymharu ag oddeutu dau o bob pum sefydliad (39 y cant) lle'r oedd gan rai o'r staff sgiliau Cymraeg, a phedwar y cant o sefydliadau lle nad oedd gan unrhyw staff sgiliau Cymraeg. Yn debyg i hyn, roedd sefydliadau a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg yn fwy tebygol o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w safle (66 y cant, o gymharu â 31 y cant nad oedd ganddynt gynllun neu bolisi).

## Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer masnach

2.7 Gofynnwyd i gyflogwyr farnu pa mor bwysig yw sgiliau Cymraeg ar gyfer eu masnach ddomestig oddi mewn i Gymru (os oeddent yn gweithredu ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol oddi mewn i Gymru), eu masnach ddomestig drwy weddill y DU (os oeddent yn gweithredu drwy weddill y DU), a'u masnach ryngwladol (os oeddent yn gweithredu y tu allan i'r DU). Ceir crynodeb o'r canlyniadau yn Ffigur 2.2.

**Ffigur 2.2: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer masnach**



2.8 Nid yw'n syndod bod sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawer pwysicach ar gyfer masnach ranbarthol / genedlaethol oddi mewn i Gymru (mae 37 y cant yn meddwl bod y sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer yr agwedd hon ar eu busnes) na masnach gyda gweddill y DU (14 y cant) neu fasnach ryngwladol (naw y cant). Ar bob mesur, cymharol brin yw'r rhai sy'n meddwl bod cael sgiliau Cymraeg yn

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

bwysig iawn (16 y cant ar gyfer masnach ddomestig, tri y cant ar gyfer masnach y DU a masnach ryngwladol)

- 2.9 O ran pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer masnach ddomestig (heb fod yn lleol), cafwyd amrywiadau eang yn ôl sector ac yn ôl rhanbarth, fel y dengys Tabl 2.1.

**Tabl 2.1: Pwysigrwydd cael staff â sgiliau Cymraeg ar gyfer masnach ddomestig yng Nghymru, yn ôl sector a rhanbarth**

<i>Canrannau rhes</i>	<i>Sylfaen:</i>		<b>Gweddol bwysig</b>	<b>Pwysig iawn</b>	<b><i>Pwysig</i></b>
Pawb	2,908	%	21	16	37
<b>Sector</b>					
Gofal Plant	165	%	40	33	73
Bwyd-amaeth	372	%	18	25	43
Creadigol	260	%	19	21	41
Gofal Cymdeithasol	449	%	33	17	50
Manwerthu	295	%	24	15	39
Lletygarwch	697	%	23	15	38
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	398	%	20	11	31
Adeiladu	272	%	16	11	27
<b>Rhanbarth</b>					
Gogledd Cymru	766	%	26	27	53
Canolbarth Cymru	610	%	18	21	39
De-orllewin Cymru	741	%	25	16	42
De-ddwyrain Cymru	791	%	17	6	23

*Diffiniad Sylfaen: Pob cyflogwr yn yr 8 sector sy'n masnachu yng Nghymru y tu allan i'w ardal leol.*

- 2.10 Teimlai bron tri chwarter (73 y cant) y cyflogwyr Gofal Plant sy'n gweithredu yng Nghymru y tu allan i'w hardal leol fod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer eu masnach ddomestig, ac roedd traean (33 y cant) yn meddwl bod y sgiliau hyn yn bwysig iawn. Yn y sector Gofal Cymdeithasol roedd hanner y cyflogwyr yn

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

meddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig, ond cymharol ychydig oedd yn meddwl bod y sgiliau hynny'n bwysig iawn ar gyfer y fasnach honno (17 y cant).

- 2.11 Yn y rhan fwyaf o'r sectorau eraill, roedd oddeutu dau o bob pum cyflogwr yn teimlo bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer masnach ddomestig (mae hyn yn berthnasol i'r sectorau Lletygarwch, Bwyd-amaeth, Manwerthu a Chreadigol). Cyflogwyr yn y sectorau Adeiladu a'r Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol oedd yn lleiaf tebygol o feddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer eu masnach ddomestig oddi mewn i Gymru (27 y cant a 31 y cant yn y drefn honno, er bod 11 y cant yn y naill sector a'r llall yn meddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn ar gyfer eu masnach yng Nghymru).
- 2.12 Gan ddilyn y patrymau a welwyd yn y canfyddiadau o bwysigrwydd cyffredinol sgiliau Cymraeg, cyflogwyr yng ngogledd Cymru oedd yn fwyaf tebygol o gredu bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer eu masnach ddomestig yng Nghymru, a chyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru oedd yn lleiaf tebygol o gredu hynny.
- 2.13 Ychydig o wahaniaeth a gafwyd i'r canlyniadau yn ôl maint y sefydliad, er mai sefydliadau a oedd yn cynnwys 50-99 o staff oedd yn fwyaf tebygol o ddisgrifio sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn (20 y cant) neu'n weddol bwysig (32 y cant) i'w masnach ddomestig yng Nghymru.
- 2.14 Yn gyffredinol, teimlai 14 y cant o sefydliadau a oedd yn masnachu â gweddill y DU fod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer y fasnach honno. Yn ôl sector, mae Gofal Plant yn amlwg eto fel y sector sy'n fwyaf tebygol o bell ffordd o ystyried bod y sgiliau hyn yn bwysig (54 y cant, yr oedd 18 y cant ohonynt yn teimlo bod y sgiliau hyn yn bwysig iawn; er hynny, dylid nodi bod y gyfran o gyflogwyr Gofal Plant a weithredai y tu allan i Gymru yng ngweddill y DU (13 y cant) yn gymharol isel. Yn y sector Bwyd-amaeth, mae cyfran gymharol uchel (wyth y cant) yn meddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn ar gyfer eu masnach gyda gweddill y DU (heb gynnwys eu masnach yng Nghymru). Serch hynny, nid oedd y gyfran gyffredinol a ystyriai fod y sgiliau hyn naill ai'n bwysig iawn neu'n weddol bwysig ond ychydig yn uwch na'r cyffredin (17 y cant). Yn y sector Gofal Cymdeithasol, mae cyfran gymharol uchel yn meddwl bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer eu masnach gyda'r DU (27 y cant), ond ychydig sy'n meddwl bod y sgiliau hynny'n bwysig iawn ar gyfer y fasnach honno (tri y cant). Yn sector y Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol a'r sector Creadigol, ychydig iawn o gyflogwyr sy'n meddwl

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

bod sgiliau Cymraeg yn eu helpu i ennill gwaith yn y DU (saith y cant a chwech y cant, yn y drefn honno).


- 2.15 I raddau cymharol, ychydig o amrywio a gafwyd yn ôl maint sefydliadau. Yn ôl rhanbarth, ychydig o amrywio a gafwyd rhwng gogledd Cymru, canolbarth Cymru a de-orllewin Cymru, ond yn ne-ddwyrain Cymru roedd y gyfran a feddyliai fod sgiliau Cymraeg yn helpu eu masnach gyda'r DU yn is na'r cyffredin (wyth y cant).
- 2.16 Teimlai naw y cant o sefydliadau a oedd yn masnachu'n rhyngwladol fod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w masnach ryngwladol. Roedd yn bwysicach na'r cyffredin i'r canlynol:
- Cyflogwyr a chanddynt 50-99 o staff (16 y cant)
  - Cyflogwyr yng ngogledd Cymru (17 y cant, o gymharu â phedwar y cant o gyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru a chwech y cant gyflogwyr yn ne-orllewin Cymru)
  - Cyflogwyr yn y sector Lletygarwch (13 y cant)

### **Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid a bodlonrwydd y staff**

#### *Ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid*

- 2.17 Teimlai bron dau o bob pum sefydliad yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil (37 y cant) fod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer ansawdd eu gwasanaeth i gwsmeriaid. Dangosir y gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth yn Ffigur 2.3.

**Ffigur 2.3: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid, yn ôl sector a rhanbarth**



2.18 Cyflogwyr yn y sector Gofal Plant (75 y cant) ac, i raddau llai, y sector Gofal Cymdeithasol (47 y cant) oedd yn fwyaf tebygol o deimlo bod sgiliau Cymraeg yn cyfrannu at ansawdd eu gwasanaeth i gwsmeriaid. Ym mhob un o'r sectorau, roedd o leiaf un o bob wyth yn meddwl bod y sgiliau hyn yn bwysig iawn. Roedd y rhai a oedd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru'n llawer mwy tebygol na'r cyffredin o deimlo bod sgiliau Cymraeg o fudd i wasanaethau cwsmeriaid (56 y cant; mae hyn yn cymharu â 21 y cant ymhlith cyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru). Eglurodd cyflogwr yn un o'r astudiaethau achos:

*"Rydym yn apelio i bobl sy'n chwilio am elfen Gymraeg yn eu gofal dydd. Does dim llawer o feithrinfeydd a all gystadlu â ni yn hynny o beth. Bydd rhieni'n dewis gofal plant cyfrwng Cymraeg yn benodol, felly ni fyddai modd darparu'r gwasanaeth yma heb ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ymateb i ddewis ein cwsmeriaid"*

**Cyflogwr Gofal Plant, gogledd Cymru**


2.19 Mae'n ddiddorol nodi, o blith y cyflogwyr a farnodd nad oedd sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn yn gyffredinol, fod chwarter ohonynt (25 y cant) wedi ateb y cwestiwn hwn drwy ddweud bod sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn neu'n weddol bwysig ar gyfer ansawdd eu gwasanaeth i gwsmeriaid.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

### Bodlonrwydd a chadw staff

2.20 Teimlai chwarter yr holl sefydliadau fod y Gymraeg yn bwysig iawn (11 y cant) neu'n weddol bwysig (14 y cant) ar gyfer bodlonrwydd neu gadw staff.

**Ffigur 2.4: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg ar gyfer bodlonrwydd a chadw staff, yn ôl sector a rhanbarth**



2.21 I raddau helaeth, mae'r patrymau yn ôl sector a rhanbarth yn dilyn y patrymau a drafodwyd ar gyfer mesuriadau eraill yn y bennod hon, gyda sgiliau Cymraeg yn bwysicach ar gyfer bodlonrwydd a chadw staff yn y sectorau Gofal Plant, Bwyd-amaeth a Gofal Cymdeithasol, ac ymhlith cyflogwyr yng ngogledd Cymru.


2.22 Roedd sefydliadau sy'n ceisio creu elw yn llai tebygol na phob math arall o sefydliad o ddweud bod sgiliau Cymraeg yn bwysig ar gyfer bodlonrwydd a chadw staff (23 y cant, o gymharu â 45 y cant o sefydliadau elusennol neu wirfoddol, 40 y cant o sefydliadau llywodraeth leol, a 47 y cant o sefydliadau'r llywodraeth ganolog).

**Effaith gyffredinol sgiliau Cymraeg ar linell waelod y busnes**

- 2.23 Gofynnwyd i sefydliadau sy'n ceisio creu elw (ar wahân i'r rhai a ddywedodd nad oedd sgiliau Cymraeg yn bwysig o gwbl i'w busnes) amcangyfrif faint o effaith yr oedd sgiliau Cymraeg yn ei chael ar linell waelod eu busnes. Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau yn y siart canlynol, yn seiliedig ar holl gyflogwyr y sector preifat, a chan ddangos y gyfran a ddywedodd fod sgiliau Cymraeg yn cael effaith sylweddol iawn, effaith weddol sylweddol ac ychydig o effaith (ond rhyw effaith er hynny).
- 2.24 Teimlai pump y cant o gyflogwyr y sector preifat fod sgiliau Cymraeg yn cael effaith sylweddol iawn ar eu llinell waelod. Teimlai 10 y cant eu bod yn cael effaith weddol sylweddol, ac 17 y cant eu bod yn cael ychydig o effaith.
- 2.25 Mae'n werth nodi bod dau o'r cwmnïau y siaradwyd â hwy yn ystod cam yr astudiaethau achos wedi dweud na allent amcangyfrif effaith y Gymraeg ar eu llinell waelod, gan fod y Gymraeg yn rhan mor annatod o'u cynllun busnes cyffredinol, gyda'r theatr yn nodi mai gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg oedd ei "*raison d'être*".



**Ffigur 2.5: Pwysigrwydd sgiliau Cymraeg i linell waelod busnesau, yn ôl sector a rhanbarth**



2.26 Mae'r sector Gofal Plant yn amlwg fel y sector lle mae sgiliau Cymraeg yn cael y mwyaf o effaith ar ei linell waelod: nododd bron hanner (46 y cant) y rhai a weithredai yn y sector preifat eu bod naill ai'n cael effaith sylweddol iawn neu effaith weddol sylweddol.

2.27 Ychydig o wahaniaeth a gafwyd rhwng y canlyniadau yng ngogledd Cymru, canolbarth Cymru a de-orllewin Cymru. Yn ne-ddwyrain Cymru, ystyriwyd bod sgiliau Cymraeg yn cael llai o effaith: teimlai un y cant fod sgiliau Cymraeg yn cael effaith sylweddol, a dywedodd tri y cant eu bod yn cael effaith weddol sylweddol ar eu llinell waelod.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

2.28 Mae effaith sylweddol iawn neu weddol sylweddol sgiliau Cymraeg ar y llinell waelod gan amlaf yn gysylltiedig â'r ffaith bod y sgiliau hynny'n bodloni anghenion o safbwynt sylfaen cwsmeriaid y cyflogwr. Er i rai roi'r ateb cyffredinol, sef bod cael sgiliau Cymraeg yn helpu busnes (34 y cant), roedd eraill yn fwy manwl gan ddweud mai'r Gymraeg oedd prif iaith yr ardal leol (16 y cant, ni roddodd yr un cyflogwr yn ne-ddwyrain Cymru yr ateb hwn), mai'r Gymraeg oedd prif iaith eu cleient / sylfaen o gwsmeriaid (13 y cant, roedd cyflogwyr o'r sector Creadigol yn arbennig o debygol o grybwyll hyn, 24 y cant), neu'r pwynt mwy cyffredinol, sef ei bod hi'n well gan rai o'u cleientiaid siarad Cymraeg (25 y cant). Teimlai tua un o bob wyth (13 y cant) cyflogwr a ddywedodd fod sgiliau Cymraeg yn cael effaith sylweddol ar ei linell waelod, y gallai, neu y byddai'n colli busnes pe na bai ganddo unrhyw siaradwyr Cymraeg. Atebodd un o bob deg (10 y cant) ei bod hi'n ddefnyddiol cael cyflogeion dwyieithog / a allai siarad Cymraeg. Eglurodd cyflogwr yn un o'r astudiaethau achos:

*'Fydden ni ddim yn gallu tyfu i'r un graddau....i weithio ar draws Cymru....fydden ni ddim eisiau aros wedi ein hynysu fel darparrydd hyfforddiant neu gwmni cynhyrchu Saesneg ei iaith....byddai hynny'n cyfyngu arnon ni.*

**Cyflogwr creadigol, canolbarth Cymru**

2.29 Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 2.2.

**Tabl 2.2: Sut mae sgiliau Cymraeg yn effeithio ar y llinell waelod, yn ôl sector (digymell)**

	<b>Pawb</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Creadigol</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Gofal Cymdeithaso</b>	<b>Adelladu</b>	<b>Cyllid</b>
<i>Sylfaen: pawb sy'n meddwl bod sgiliau Cymraeg yn cael effaith sylweddol iawn/weddol sylweddol ar eu llinell waelod</i>	647	91	48	91	116	78	101	44	78
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Mae cynnig cyfle i gyfathrebu drwy'r Gymraeg yn helpu busnes	34	61	37	34	21	33	29	34	42
Mae cwsmeriaid / cleientiaid Cymreig yn hoffi siarad Cymraeg	25	11	26	21	22	37	32	25	21
Ardal Gymraeg ei hiaith yw hon yn bennaf	16	2	8	17	9	28	10	13	18
Y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid yn Gymraeg eu hiaith	13	8	24	11	14	9	9	16	19
Heb siaradwr Cymraeg gallem / byddem yn colli gwaith	13	24	12	5	12	20	9	7	24
Mae'n ddefnyddiol cael cyflogwyr dwyieithog / sy'n gallu siarad Cymraeg	10	16	6	5	18	6	12	13	14

**Newid i'r angen am sgiliau Cymraeg yn y blynyddoedd nesaf**

2.30 Roedd saith y cant o'r sefydliadau'n disgwyl y byddai eu hangen am sgiliau Cymraeg yn newid dros y 2-3 blynedd nesaf. Mae hyn yn debyg i'r lefel a gafwyd yn ymchwil flaenorol 2005, pan ddywedodd 10 y cant o gyflogwyr eu bod yn disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu dros y pum mlynedd nesaf.

2.31 Gan amlaf, y newid a ragwelwyd oedd cynnydd yn yr angen am sgiliau Cymraeg (saith y cant o'r holl gyflogwyr, er mai ond un y cant a ddisgwyliai y byddai eu hangen am y sgiliau hynny'n cynyddu'n sylweddol). Mewn cymhariaeth â hyn, disgwyliai un y cant o'r holl gyflogwyr i'w hangen am sgiliau Cymraeg ostwng.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 2.32 Mae Tabl 2.3 yn dangos y gwahaniaethau yn y gyfran a ddisgwyliai i'r angen am sgiliau Cymraeg gynyddu a gostwng ar eu safle yn y 2-3 blynedd nesaf, yn ôl sector, rhanbarth a maint.
- 2.33 Yn ôl sector, roedd y sectorau Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol, Creadigol a Lletygarwch oll yn llawer mwy tebygol na'r cyffredin o ddisgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu yn y 2-3 blynedd nesaf. Er bod Bwyd-amaeth yn sector sy'n rhoi pwysigrwydd uwch na'r cyffredin i sgiliau Cymraeg, nid yw'n sector sy'n disgwyl gweld newid mawr yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r sectorau Adeiladu a Manwerthu.
- 2.34 Roedd safleoedd a chanddynt o leiaf 25 aelod o staff yn llawer mwy tebygol na chyflogwyr bach neu ficrogyflogwyr o ragweld cynnydd yn yr angen am sgiliau Cymraeg, yn enwedig y rhai hynny a chanddynt 100 neu fwy o staff (19 y cant).

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 2.3: Y gyfran sy'n disgwyl gweld cynnydd neu ostyngiad yn yr angen am sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn ystod y 2-3 blynedd nesaf, yn ôl sector, rhanbarth a maint**


<i>Canrannau rhes</i>	<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector</i>		<b>Cynnydd</b>	<b>Gostyngiad</b>
Pawb	4,026	%	7	1
<b>Sector</b>				
Gofal Plant	425	%	28	*
Gofal Cymdeithasol	581	%	15	1
Creadigol	291	%	12	1
Lletygarwch	1,010	%	10	1
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	460	%	9	-
Manwerthu	454	%	4	*
Adeiladu	346	%	3	1
Bwyd-amaeth	459	%	3	1
<b>Rhanbarth</b>				
Gogledd Cymru	1,059	%	8	1
Canolbarth Cymru	827	%	5	1
De-orllewin Cymru	1,026	%	6	*
De-ddwyrain Cymru	1,114	%	8	*
<b>Maint</b>				
2-9	2,161	%	6	1
10-24	1,024	%	9	1
25-49	523	%	14	*
50-99	209	%	12	1
100+	109	%	19	1

'-' = 0 y cant, '\*' => 0 y cant ond <0.5 y cant.

*Rhesymau dros ddisgwyli cynnydd yn yr angen am sgiliau Cymraeg*

2.35 Fel y dengys Ffigur 2.6, rhoddwyd sawl rheswm pam bod cyflogwyr yn disgwyl i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu. Roedd y prif resymau'n cynnwys twf disgwyliedig yn nifer y cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg (18 y cant); cred y byddai cynnig gwasanaeth dwyieithog yn helpu eu cwsmeriaid ac yn cynyddu eu potensial o ran busnes (17 y cant); hybu'r Gymraeg yng Nghymru yn gyffredinol (16 y cant, er mai ond saith y cant o'r cyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru a grybwyllodd hyn); a chynnydd cyffredinol yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg (14 y cant). Roedd newidiadau i ddeddfwriaeth a chynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n addysgu'r Gymraeg, y naill a'r llall, ymhlith rhesymau un o bob wyth o'r cyflogwyr hyn, er bod cyflogwyr Gofal Plant yn arbennig o debygol o grybwyll hynny (18 y cant a 36 y cant, yn y drefn honno)

**Ffigur 2.6: Rhesymau dros ddisgwyli cynnydd yn yr angen am sgiliau Cymraeg (digymell)**



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

2.36 Ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol, a sefydliadau llywodraeth ganolog hefyd, y newidiadau i ddeddfwriaeth a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau dros ddisgwyl cynnydd mewn sgiliau Cymraeg (26 y cant a 36 y cant, yn y drefn honno).

### *Natur y cynnydd yn yr angen am sgiliau Cymraeg*

- 2.37 Gofynnwyd i gyflogwyr a ddisgwyliai i'w hangen am sgiliau Cymraeg gynyddu p'run ai cynyddu nifer y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg fyddai angen ei wneud ynteu cynyddu lefelau hyfedredd y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, neu'r ddau. Dywedodd bron i dri o bob pump (59 y cant) y byddai angen cynyddu'r ddau. Roedd y gweddill yn fwy tebygol o ddweud bod angen cynyddu lefelau hyfedredd staff a chanddynt sgiliau Cymraeg (23 y cant), na rhagweld y byddai angen cynyddu nifer y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg (14 y cant).
- 2.38 Cafwyd gwahaniaethau yn y mesuriad hwn yn ôl maint sefydliadau. Dywedodd pawb a chanddynt 50 neu fwy o aelodau staff mai'r hyn fyddai angen ei wneud o'u safbwynt hwy fyddai cynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg (weithiau ar y cyd â'r angen am lefelau uwch o hyfedredd).
- 2.39 Mewn cymhariaeth â hyn, nododd oddeutu chwarter y sefydliadau lleiaf (a chanddynt 2-9 o gyflogeion) mai'r unig beth fyddai angen ei wneud o'u safbwynt hwy fyddai gwella hyfedredd y staff a chanddynt eisoes sgiliau Cymraeg (28 y cant).

### *Sut y bydd angen cynyddu lefelau hyfedredd*

- 2.40 Yn gyffredinol, nododd chwech y cant o'r holl gyflogwyr eu bod yn rhagweld y byddai angen cynyddu lefelau hyfedredd sgiliau Cymraeg ymhlith eu staff yn y 2-3 blynedd nesaf. Darllenwyd rhestr o lefelau hyfedredd i'r ymatebwyr hyn a gofynnwyd ar ba lefelau y byddai angen gwella yn eu tyb hwy.

**Tabl 2.4: Sut mae sefydliadau'n disgwyl i ofynion hyfedredd yn y Gymraeg gynyddu yn y 2-3 blynedd nesaf (dewis o blith opsiynau)**

<i>Sylfaen: pawb a ddisgwyliai gynnydd mewn lefelau hyfedredd yn y Gymraeg (371)</i>	%
Staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg yn ennill rhai sgiliau	75
Staff gyda sgiliau sylfaenol neu lefel mynediad yn y Gymraeg yn gwella lefel eu sgiliau yn y Gymraeg	73
Staff gyda sgiliau canolradd yn gwella eu sgiliau	45
Staff gyda sgiliau uwch yn gwella eu sgiliau	31

2.41 Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr a ddisgwyliai y byddai angen cynyddu hyfedredd yn disgwyl y byddai angen gwella hyfedredd ymhlith y rhai nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg (75 y cant), neu rai a chanddynt sgiliau lefel sylfaenol neu fynediad (73 y cant).




### **3 Lefelau sgiliau Cymraeg presennol**

- 3.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r lefel bresennol o sgiliau Cymraeg ymhlith staff yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil. Mae'n archwilio amrywiadau mewn sgiliau yn ôl grŵp galwedigaethol, ac yn ôl categorïau sgîl (deall, siarad, ysgrifennu a darllen).

#### **Cyfran y sefydliadau a chanddynt sgiliau Cymraeg**

- 3.2 At ei gilydd, adroddodd dau draean o'r cyflogwyr (66 y cant) yn yr wyth sector fod ganddynt un aelod o staff neu fwy a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, tra dywedodd 32 y cant ohonynt nad oedd yr un aelod o'u staff yn meddu ar y sgiliau hynny.
- 3.3 Cyflogwyr yn y sector Gofal Plant a'r sector Gofal Cymdeithasol oedd yn fwyaf tebygol o gael staff a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg (94 y cant a 79 y cant, yn y drefn honno). Cyflogwyr adeiladu oedd yn lleiaf tebygol, gydag ychydig dros hanner ohonynt (54 y cant) yn nodi bod ganddynt staff â'r sgiliau hyn. Roedd y gyfran ymhlith y sectorau eraill yn weddol gyson, sef tua dau draean (rhwng 66 y cant a 68 y cant).
- 3.4 Gan adlewyrchu'r gwahaniaethau a ganfuwyd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob rhanbarth, cyflogwyr yng ngogledd Cymru oedd yn fwyaf tebygol o gael staff a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg (81 y cant), a chyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru oedd yn lleiaf tebygol o gael staff a chanddynt y sgiliau hynny (54 y cant). Adroddodd y cyflogwyr yng nghanolbarth Cymru a de-orllewin Cymru lefelau oddeutu'r cyfartaledd cyffredinol.

**Ffigur 3.1: Cyfran y sefydliadau a chanddynt sgiliau Cymraeg, yn ôl sector a rhanbarth**




- 3.5 Roedd cyflogwyr a weithredai yn y sector preifat yn llai tebygol o gael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg na chyflogwyr yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Adroddodd naw deg pump y cant o gyflogwyr llywodraeth ganolog, 80 y cant o gyflogwyr yn y sector elusennol / gwirfoddol a 77 y cant o gyflogwyr llywodraeth leol fod ganddynt staff â sgiliau Cymraeg, o gymharu â 65 y cant yn y sector preifat. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm a welwyd ymhlith yr wyth sector (roedd cyflogwyr Gofal Plant neu Ofal Cymdeithasol yn gymharol brin yng nghategori'r sector preifat (gweler Ffigur 1.2)).
- 3.6 Y cyflogwyr lleiaf a chanddynt lai na 10 aelod o staff oedd yn lleiaf tebygol o gael unrhyw aelod o staff â sgiliau Cymraeg (63 y cant). Roedd cyflogwyr canolig yn fwy tebygol o gael staff â sgiliau Cymraeg na'r sefydliadau mwyaf (89 y cant o sefydliadau a chanddynt 50-99 o aelodau staff ac 83 y cant o sefydliadau a chanddynt 25-49 o aelodau staff, o gymharu â 73 y cant o sefydliadau a chanddynt 100 neu fwy o aelodau staff).

### Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg

- 3.7 Os trown ein sylw at gyfran y staff yn hytrach na chyfran y sefydliadau, adroddwyd bod gan bron chwarter (24 y cant) y staff unrhyw sgiliau Cymraeg. Roedd y gyfran hon yn sylweddol uwch yn y sector Gofal Plant (66 y cant) a'r sector Creadigol (48 y cant) nag yn y sectorau eraill. Cafwyd cyfran fymryn yn uwch na'r cyffredin yn y sectorau Bwyd-amaeth (34 y cant) a Lletygarwch (27 y cant), tra dangosai'r sectorau Manwerthu ac Adeiladu (y naill a'r llall yn 22 y cant), y sector Gofal Cymdeithasol (21 y cant) a sector y Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol (19 y cant) gyfrannau is na'r cyffredin.
- 3.8 Staff yng ngogledd Cymru a chanolbarth Cymru oedd yn fwyaf tebygol o feddu ar sgiliau Cymraeg (39 a 38 y cant, yn y drefn honno), ac wedyn y staff yn ne-orllewin Cymru (30 y cant). Adroddwyd bod gan dri ar ddeg y cant o staff yn ne-ddwyrain Cymru sgiliau o'r fath.

**Ffigur 3.2: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, yn ôl sector a rhanbarth**



Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr holl swyddi, yn hytrach na'r holl sefydliadau


## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 3.9 Roedd gan bron hanner y staff a weithiai ym maes llywodraeth ganolog (45 y cant) sgiliau Cymraeg, o gymharu ag oddeutu chwarter y staff a weithiai yn y sector elusennol/gwirfoddol (27 y cant), ym maes llywodraeth leol ac yn y sector preifat (24 y cant yn y naill a'r llall).
- 3.10 Roedd patrwm clir yn ôl maint sefydliadau. Ymhlith sefydliadau a chanddynt 2-9 aelod o staff, roedd gan ddau o bob pum aelod staff (41 y cant) sgiliau Cymraeg; mae hyn yn gostwng i 27 y cant ymhlith sefydliadau a chanddynt 10-24 o aelodau staff, i oddeutu un o bob pump (22 y cant) mewn sefydliadau a chanddynt rhwng 25 a 99 o aelodau staff, ac 11 y cant o staff yn y sefydliadau mwyaf. Sylwer bod mwy o duedd i'r safleoedd mwyaf fod wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru (roedd 56 y cant o'r safleoedd mwyaf a chanddynt 100 neu fwy o aelodau staff wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru, tra bod 38 y cant o'r holl gwmnïau wedi'u lleoli yn y rhanbarth hwn), a bod hynny'n dylanwadu ar y canfyddiad dan sylw.

### **Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn ôl galwedigaeth**

- 3.11 Roedd cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol grwpiau galwedigaethol. Roedd y gyfran hon ar ei uchaf ymhlith Rheolwyr (33 y cant), ac ar ei hisaf ymhlith Gweithwyr Proffesiynol (18 y cant), Gweithredwyr Peiriannau (19 y cant) a Swyddi Sylfaenol (19 y cant). Dangosir hyn ar y siart canlynol. Mae'r llinell yn dangos y gyfran o bob galwedigaeth a chanddi unrhyw sgiliau Cymraeg. Mae'r bar byrraf ym mhob par yn dangos nifer y staff a chanddynt sgiliau o'r fath, a'r bar talaf yn dangos nifer y staff a gyflogir ym mhob galwedigaeth gan gwmnïau yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil.

**Ffigur 3.3: Nifer a chyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, a'r niferoedd a gyflogir, ym mhob grŵp galwedigaethol**



*Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr holl swyddi, yn hytrach na'r holl sefydliadau*

3.12 Mae'r cyfrannau cyffredinol hyn yn cuddio amrywiadau oddi mewn i sectorau, fel y dengys Tabl 3.1. Yn y sector Gofal Plant, roedd y gyfran a chanddynt sgiliau Cymraeg yn uchel, ac yn weddol debyg rhwng Rheolwyr, Gweithwyr Proffesiynol a staff Gofalu, Hamdden a gwasanaethau eraill - categorïau galwedigaethol sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli dros bedwar o bob pum aelod o staff yn sector hwn - ac yn sylweddol is yn y galwedigaethau eraill. Yn debyg, dangosai'r sector Bwyd-amaeth gyfrannau uchel ymhlith Rheolwyr a galwedigaethau'r Masnachau Crefftus - y ddau brif grŵp galwedigaethol yn y sector hwn, a chyfrannau llawer is ymhlith gweddill y galwedigaethau.

3.13 Yn wahanol i hyn, roedd proffiliau'r sectorau eraill yn ôl galwedigaeth yn tueddu i fod yn fwy gwastad.

**Tabl 3.1: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ym mhob grŵp galwedigaethol – yn ôl sector**

	Pawb	Gofal Plant	Creadigol	Bwyd-amaeth	Lletygarwch	Manwerthu	Adelradu	Gofal Cymdeithasol	Cyllid
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Yr holl staff	24	66	48	34	27	22	22	21	19
Rheolwyr / Uwch - swyddogion	33	73	44	50	34	26	25	26	28
Gweithwyr Proffesiynol	18	67	36	**	33	19	13	18	16
Gweithwyr proffesiynol Cysylltiol	22	51	57	**	15	32	**	17	13
Gweinyddol / Clercio	23	38	43	21	34	20	20	15	22
Masnachau Crefftus	23	34	35	42	16	23	25	17	5
Gofalu, Hamdden a gwasanaethau eraill	25	71	**	**	29	**	**	21	**
Gwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	22	**	26	**	30	21	30	**	24
Gweithredwyr Peiriannau	19	**	**	10	27	34	5	**	33
Swyddi Sylfaenol	19	26	69	11	24	10	11	14	11

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyflogaeth ac yn dangos y gyfran o bob galwedigaeth a chanddynt sgiliau Cymraeg, yn gyffredinol ac oddi mewn i bob sector.

Dangosir y niferoedd sylfaen ar gyfer pob cell (nifer yr ymatebwyr sy'n cyflogi pob galwedigaeth, yn gyffredinol ac yn ôl sector) yn Nhabl E1 yn Atodiad E.

\*\*\* Ni ddangoswyd y ffigur gan fod y nifer sylfaen yn isel (roedd llai na 25 o sefydliadau yn y sector hwnnw yn cyflogi'r alwedigaeth)

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

3.14 Wrth gymharu yn ôl maint cyflogwyr, gwelir mai staff a weithiai yn y sefydliadau lleiaf (2-9 aelod o staff) a oedd yn fwyaf tebygol o feddu ar sgiliau Cymraeg, ac roedd hyn yn wir ar draws y rhan fwyaf o'r grwpiau galwedigaethol. At ei gilydd, roedd gan tua dau o bob pum aelod staff (41 y cant) mewn sefydliadau bach sgiliau Cymraeg o ryw fath, ac mae hyn yn disgyn fesul cam ym mhob categori maint hyd at 11 y cant ymhlith staff y sefydliadau mwyaf.

**Tabl 3.2: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ym mhob grŵp galwedigaethol, yn ôl maint y cyflogwr**

	Pawb	2-9	10-24	25-49	50-99	100+
	%	%	%	%	%	%
Pob aelod o staff	24	41	27	23	21	11
Rheolwyr / Uwch-swyddogion	33	43	26	23	20	24
Gweithwyr Proffesiynol	18	36	24	20	15	9
Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol	22	37	26	36	15	12
Gweinyddol / Clercio	23	38	22	26	13	14
Masnachau Crefftus	23	44	21	17	17	7
Gofalu, Hamdden a gwasanaethau eraill	25	46	33	26	19	13
Gwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	22	38	29	17	26	11
Gweithredwyr Peiriannau	19	39	30	17	44	5
Swyddi Sylfaenol	19	35	22	24	20	5


*Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyflogaeth, ac yn dangos y gyfran ym mhob galwedigaeth a chanddynt sgiliau Cymraeg, yn gyffredinol ac oddi mewn i bob band maint.*

*Dangosir y niferoedd sylfaen ar gyfer pob cell (nifer yr ymatebwyr sy'n cyflogi pob galwedigaeth, yn gyffredinol ac yn ôl band maint) yn Nhabl E2 yn Atodiad E.*

## Lefelau sgiliau Cymraeg

3.15 O edrych yn fanylach ar lefelau sgiliau Cymraeg ymhlith y staff, dengys Ffigur 3.4 fod lefelau sgiliau ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn weddol debyg. Roedd gan tua un o bob deg aelod o staff sgiliau uwch ym mhob maes, pedwar y cant sgiliau canolradd, a rhwng chwech a saith y cant sgiliau lefel mynediad yn unig.

**Ffigur 3.4: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau ar bob lefel**



*Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr holl swyddi, yn hytrach na'r holl sefydliadau*

3.16 Roedd sgiliau Cymraeg lefel uwch yn fwyaf tebygol o gael eu hadrodd yn y sector Bwyd-amaeth a'r sector Creadigol. Roedd gan tua thraean y staff Creadigol, ac oddeutu un o bob pum aelod staff yn y sector Bwyd-amaeth sgiliau uwch ym mhob un o'r pedwar maes sgil (deall, siarad, darllen ac ysgrifennu), o gymharu â'r ffigur cyffredinol, sef un o bob deg. Roedd staff Gofal Plant hefyd fymryn yn fwy tebygol na'r cyffredin o feddu ar sgiliau uwch neu sgiliau canolradd. Fodd bynnag, y rheswm syml am hyn yw'r gyfran uchel o staff a chanddynt unrhyw sgiliau Cymraeg: dyma'r unig sector a chanddo fwy o staff â sgiliau lefel mynediad na sgiliau lefel uwch neu ganolradd ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.



Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 3.3: Cyfran y staff a chanddynt sgiliau ar bob lefel, yn ôl sector**

<i>Canrannau Colofn</i>	<b>Pawb</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Creadigol</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Gofal Cymdeithasol</b>	<b>Adeiladu</b>	<b>Cyllid</b>
<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector</i>	<b>4,026</b>	425	291	459	1,010	454	581	346	460
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
<b>Deall</b>									
Uwch	<b>11</b>	18	36	22	12	9	8	11	9
Canolradd	<b>4</b>	10	4	5	5	4	4	6	3
Mynediad	<b>7</b>	33	8	6	9	7	7	5	5
Dim	<b>77</b>	38	52	66	74	80	81	78	83
<b>Siarad</b>									
Uwch	<b>11</b>	17	36	23	11	10	8	11	8
Canolradd	<b>4</b>	12	5	5	5	3	4	4	3
Mynediad	<b>7</b>	33	8	4	9	7	7	6	5
Dim	<b>78</b>	38	52	68	75	80	81	79	84
<b>Darllen</b>									
Uwch	<b>10</b>	16	35	20	10	9	6	11	8
Canolradd	<b>4</b>	9	5	5	4	3	3	4	3
Mynediad	<b>6</b>	32	7	5	8	6	6	6	5
Dim	<b>80</b>	43	54	70	77	83	85	80	85
<b>Ysgrifennu</b>									
Uwch	<b>10</b>	15	34	19	10	8	6	10	7
Canolradd	<b>4</b>	9	5	6	4	3	3	4	3
Mynediad	<b>6</b>	27	6	5	7	5	6	6	5
Dim	<b>80</b>	49	55	70	78	83	85	80	85

*Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr holl swyddi, yn hytrach na'r holl sefydliadau*

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

3.17 Hyd yma yn yr adran hon, ystyriwyd y gyfran o staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar bob lefel. Mae Tabl 3.4 yn rhoi safbwynt gwahanol, gan edrych ar y gyfran o sefydliadau a chanddynt wahanol broffiliau o sgiliau Cymraeg ymhlith eu staff. Ar y cyfan, mae'n dangos bod gan yr holl staff sgiliau lefel uwch ar draws pob un o'r pedwar modd mewn saith y cant o sefydliadau. Roedd y gyfran hon yn sylweddol uwch yn y sector Bwyd-amaeth (26 y cant), ond nid oedd yn fwy na chwech y cant yn unrhyw sector arall, gan gyrraedd cyn lleied ag un y cant yn y sector Gofal Cymdeithasol.

3.18 Adroddodd ychydig llai na dau o bob pum sefydliad (38 y cant) fod ganddynt unrhyw nifer o staff â sgiliau Cymraeg lefel uwch yn unrhyw un o'r pedwar modd sgîl. Unwaith eto, roedd y gyfran hon ar ei huchaf yn y sector Bwyd-amaeth (50 y cant) a'r sector Gofal Plant (49 y cant), a Gofal Cymdeithasol wedi hynny (45 y cant). Roedd cyfran y cyflogwyr a chanddynt unrhyw staff â sgiliau Cymraeg lefel uwch yn sylweddol is yn y sectorau Adeiladu a Manwerthu (26 y cant a 33 y cant, yn y drefn honno).

**Tabl 3.4: Cyfran y sefydliadau a chanddynt staff ar bob lefel sgîl, yn ôl sector**

<i>Canrannau rhes</i>	<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector</i>		<b>Yr holl staff ar lefel uwch ym mhob un o'r pedwar maes</b>	<b>Unrhyw staff lefel uwch</b>	<b>Unrhyw staff canolradd neu lefel uwch</b>	<b>Staff ar lefel mynediad, ond heb fod yn uwch na hynny</b>	<b>Dim o'r staff yn meddu ar sgiliau Cymraeg</b>
Pawb	4,026	%	7	38	48	17	32
Bwyd-amaeth	459	%	26	50	60	7	32
Adeiladu	346	%	6	26	37	16	45
Gofal Plant	425	%	4	49	65	28	6
Creadigol	291	%	4	39	50	17	31
Cyllid	460	%	3	38	48	19	29
Lletygarwch	1,010	%	3	38	46	17	33
Manwerthu	454	%	2	33	43	22	31
Gofal Cymdeithasol	581	%	1	45	54	19	18

## 4 Defnydd o sgiliau Cymraeg

4.1 Yn y bennod flaenorol, archwiliwyd pa mor gyffredin oedd sgiliau Cymraeg ymhlith staff yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil, a beth oedd lefel y sgiliau hynny. Yn y bennod hon, ystyrir a yw'r sgiliau hyn yn cael eu defnyddio yn y gweithle, pa sgiliau sy'n cael eu defnyddio ac i ba ddiben, a manteision hynny i gyflogwyr.<sup>8</sup>

### Y graddau y defnyddir sgiliau Cymraeg yn y gweithle

- 4.2 Nid yw bodolaeth sgiliau Cymraeg ymhlith y staff o reidrwydd yn golygu y gwneir defnydd gwirioneddol o'r sgiliau hynny yn y gweithle. Ceir sawl rheswm amrywiol am y diffyg defnydd hwn. Dengys Ffigur 4.1 fod ychydig dros dri o bob deg sefydliad (31 y cant) wedi adrodd bod rhai sgiliau Cymraeg i'w cael ymhlith eu staff nad oeddent yn cael eu defnyddio yn y gweithle. Mae hyn yn gyfwerth ag oddeutu hanner yr holl sefydliadau sy'n cynnwys unrhyw sgiliau Cymraeg. Roedd y gyfran a chanddynt sgiliau ond nad oeddent yn eu defnyddio yn llawer uwch yn y sector Gofal Cymdeithasol, ac yn is yn y sector Gofal Plant a'r sector Bwyd-amaeth. Yn ystod yr astudiaethau achos, nododd un cyflogwr yn y sector Creadigol mai Saesneg oedd prif iaith y swyddfa, er bod rhai aelodau staff yn siarad Cymraeg yn rhugl a bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei annog. Y ffaith nad oedd mwyafrif y staff yn gallu siarad Cymraeg oedd wrth wraidd hyn.
- 4.3 Dim ond cyfran weddol fach (13 y cant) ar y cyfan a adroddodd fod eu holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Fodd bynnag, roedd hyn yn llawer uwch yn y sector Gofal Plant (45 y cant) ac yn y sector Bwyd-amaeth (37 y cant).
- 4.4 Fesul rhanbarth, roedd aelodau o blith staff sefydliadau de-ddwyrain Cymru yn llawer mwy tebygol o feddu ar sgiliau Cymraeg nad oeddent yn eu defnyddio yn y gweithle (38 y cant). Yng ngogledd a chanolbarth Cymru, adroddodd cyfrannau uwch o gyflogwyr fod pob aelod o'u staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle


---

<sup>8</sup> Yn y gwaith, gall y Gymraeg naill ai fod yn 'iaith y gweithle', hy, pan fydd siaradwyr yn defnyddio'r iaith i ryngweithio â'i gilydd yn anffurfiol mewn sefyllfaoedd sydd heb fod yn gysylltiedig â'r gwaith, neu'n 'iaith gwaith', hy, pan fydd yr iaith yn cael ei defnyddio i gynnal rhai agweddau ar y gwaith ei hun. Ar ddechrau'r bennod hon canolbwyntir ar gyfran y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg 'yn y gweithle'. Fodd bynnag, yn rhan o'r arolwg archwiliwyd hefyd y defnydd o'r Gymraeg i ddibenion penodol, fel y'u disgrifir ym mharagraffau 4.13 i 4.17.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

(23 y cant a 21 y cant yn y drefn honno), o gymharu â chyfran isel iawn o gyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru (dau y cant).

**Ffigur 4.1: Cyfran y sefydliadau lle mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl sector a rhanbarth**




- 4.5 I raddau sylweddol, roedd sefydliadau a oedd yn ceisio creu elw yn llai tebygol o gynnwys unrhyw sgiliau Cymraeg ymhlith y staff a oedd yn cael eu defnyddio yn y gweithle (33 y cant) o gymharu ag elusennau (55 y cant), llywodraeth ganolog (52 y cant) a llywodraeth leol (47 y cant).
- 4.6 Adroddodd mwy na hanner y sefydliadau a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (56 y cant) fod rhai o'u staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn defnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle, o gymharu â llai na thraean y sefydliadau nad oedd ganddynt Gynllun neu bolisi o'r fath (32 y cant).
- 4.7 Fel y byddech yn ei ddisgwyl, ceir cydberthynas gref iawn rhwng y pwysigrwydd yr oedd cyflogwyr yn ei roi i sgiliau Cymraeg, a'r gyfran o'u staff a ddefnyddiai sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Ymhlith y cyflogwyr a farnai fod sgiliau Cymraeg yn 'bwysig iawn', dywedodd hanner ohonynt fod pob aelod o staff yn eu sefydliad

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

a chanddo sgiliau Cymraeg yn defnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle (50 y cant); dylid cymharu hyn ag un y cant o blith y sefydliadau a farnai nad oedd sgiliau Cymraeg yn bwysig o gwbl.

- 4.8 Amcangyfrifodd cyflogwyr ar draws yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil fod 14 y cant o'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae hyn yn amrywio'n fawr rhwng y gwahanol sectorau fel y dengys Ffigur 4.2. Yn y sector Gofal Plant, defnyddiai oddeutu tri o bob pum aelod o staff y Gymraeg yn y gwaith (59 y cant), ac roedd y ffigur hefyd yn llawer uwch na'r cyfartaledd yn y sector Creadigol (39 y cant), ac roedd y ffigur hefyd yn llawer uwch na'r cyfartaledd yn y sector Creadigol (39 y cant) a'r sector Bwyd-amaeth (25 y cant). Roedd y ffigur ar ei isaf yn y Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol (naw y cant). Roedd gwahaniaethau hefyd yn ôl rhanbarth: yng ngogledd Cymru, roedd mwy na chwarter y staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (28 y cant), a dim ond ychydig yn is yr oedd y ffigur hwn yng nghanolbarth Cymru (24 y cant). I'r gwrthwyneb, yn ne-ddwyrain Cymru, disgrifiwyd pedwar y cant o'r staff fel staff a ddefnyddiai'r Gymraeg yn y gwaith.

**Ffigur 4.2: Cyfran y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl sector a rhanbarth**



## Defnydd rheolaidd o wahanol fathau o sgiliau Cymraeg

- 4.9 Ymhlith y sefydliadau hynny lle defnyddir y Gymraeg yn y gweithle, sgiliau deall Cymraeg llafar a siarad Cymraeg sydd yn fwyaf tebygol o gael eu defnyddio'n rheolaidd. Roedd oddeutu naw o bob deg aelod o staff a ddefnyddiai'r Gymraeg yn y gweithle yn defnyddio sgiliau deall a siarad yn rheolaidd, o gymharu â dau draean (67 y cant) a ddefnyddiai sgiliau darllen a thri o bob pump (60 y cant) a ddefnyddiai sgiliau ysgrifennu (dangosir y canlyniadau ar Dabl 4.1). Mae hyn yn golygu bod 13 y cant o'r holl staff yn defnyddio sgiliau deall Cymraeg llafar, 12 y cant yn siarad Cymraeg, naw y cant yn darllen Cymraeg ac wyth y cant yn ysgrifennu'n Gymraeg.
- 4.10 Cafwyd rhai amrywiadau arwyddocaol yn ôl sector. Ar y cyfan, roedd y cyfrannau a oedd yn siarad Cymraeg ac yr oedd angen iddynt ddeall Cymraeg llafar fwy neu lai yr un peth. Fodd bynnag, roedd y sector Gofal Plant yn eithriad i hyn, gyda mwy o staff yn siarad Cymraeg nag yr oedd angen iddynt ddeall Cymraeg llafar (87 y cant o gymharu ag 80 y cant). Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu natur y gwaith o fewn y sector, lle bydd llawer o'r cyfathrebu'n cael ei gyfeirio at blant bach. Cefnogir hyn gan yr astudiaeth achos a gynhaliwyd gyda chyflogwr Gofal Plant, a ddywedodd mai'r sgiliau pwysicaf ar gyfer staff gofal plant oedd bod â digon o hyder i siarad, canu a darllen Cymraeg gyda babanod a phlant.
- 4.11 Roedd y sector Creadigol yn nodedig fel yr unig sector lle nad oedd rhyw lawer o wahaniaeth rhwng y defnydd o'r pedwar sgîl; defnyddiai 95 y cant sgiliau darllen a 93 y cant sgiliau ysgrifennu, o gymharu â 98 y cant a oedd yn siarad ac yn deall Cymraeg llafar. Mae hyn unwaith eto'n adlewyrchu'r math o waith a wneir o fewn y sector fel arfer, lle ceir llawer mwy o ddibyniaeth ar ddeunydd ysgrifenedig. Fel yr eglurodd cyflogwr yn ystod yr astudiaethau achos:

*“Mae angen sgiliau darllen (yn ogystal â sgiliau llafar), er enghraifft er mwyn deall adroddiadau e-bost gan y Dirprwy Reolwr Llwyfan ar ôl pob perfformiad. Mae angen sgiliau llafar a sgiliau ysgrifenedig hefyd ar yr holl staff busnes a gweinyddu a'r staff marchnata.”*

**Cyflogwr Creadigol, de-orllewin Cymru**

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

4.12 Cafwyd cyfrannau uchel yn defnyddio sgiliau darllen ac ysgrifennu yn y sector Bwyd-amaeth a'r sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol hefyd; dywedodd cyflogwr Bwyd-amaeth a gafodd ei gyfweld yn ystod y cam astudiaethau achos fod oddeutu hanner gohebiaeth ysgrifenedig, dogfennau a gwaith gweinyddol y sefydliad yn Gymraeg. Ar y cyfan, roedd bwlch mawr rhwng y categorïau sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn y sectorau eraill.

**Tabl 4.1: Cyfran y staff sy'n defnyddio pob math o sgil yn rheolaidd, yn ôl sector**

<i>Canrannau colofn</i>	<b>Pawb</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Gofal Cymdeithasol</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Adeiladu</b>	<b>Cyllid</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Creadigol</b>
<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau yn yr 8 sector a chanddynt staff sy'n defnyddio'r Gymraeg</i>	1,795	361	259	391	112	174	203	194	101
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Deall	90	80	81	91	83	90	98	91	98
Siarad	89	87	81	89	83	87	97	90	98
Darllen	67	67	49	63	56	79	82	58	95
Ysgrifennu	60	51	41	55	54	66	78	55	93

*Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr holl swyddi, yn hytrach na'r holl sefydliadau.*

### Dibenion defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

4.13 Nododd bron bob cyflogwr a chanddo staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio er mwyn delio â chwsmeriaid neu gleientiaid (90 y cant). Roedd y gyfran hon yn weddol gyson ar draws y sectorau, er ei bod ychydig yn uwch yn y sectorau Manwerthu ac Adeiladu (y naill a'r llall yn 94 y cant). Diben arall allweddol oedd siarad yn anffurfiol â chydweithwyr (69 y cant)

4.14 Mae rhesymau eraill dros ddefnyddio'r Gymraeg yn dangos patrymau sy'n benodol i'r sector. Fel y dengys Tabl 4.2, roedd sefydliadau Bwyd-amaeth lle defnyddir y Gymraeg yn debygol iawn o ddefnyddio'r iaith fel dull anffurfiol o gyfathrebu rhwng cydweithwyr (90 y cant), a hefyd ar gyfer cyfarfodydd mewnol

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

(70 y cant). Adroddodd dros hanner (55 y cant) y sefydliadau Bwyd-amaeth eu bod hefyd yn defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu ffurfiol mewnol, ee, ar gyfer polisiâu ysgrifenedig. Defnyddiai ychydig yn llai na hanner ohonynt (48 y cant) y Gymraeg er mwyn cyfathrebu'n anffurfiol mewn ysgrifenedig. Mae'r cyfrannau uchel ar gyfer y rhan fwyaf o'r dibenion yn awgrymu bod y sector hwn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith naturiol y gweithle.

4.15 I'r gwrthwyneb, nododd llai na hanner (44 y cant) y cyflogwyr Gofal Plant fod eu staff yn defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu'n anffurfiol ar lafar rhwng cydweithwyr, a dim ond chwarter a grybwyllodd y rhan fwyaf o'r dibenion eraill. Mae hyn yn awgrymu, ar gyfer cyflogwyr yn y sector hwn, mai iaith a ddefnyddir yn bennaf er mwyn ymdrin â'u cleientiaid a'u cwsmeriaid yw'r Gymraeg.

4.16 Yn y sector Creadigol, gwneir defnydd sylweddol o'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu anffurfiol ysgrifenedig, fel negeseuon e-bost (66 y cant o gymharu â'r ffigur cyffredinol o 38 y cant). Hefyd, roedd y defnydd o'r Gymraeg ar gyfer gweithgarwch marchnata a gwefannau yn fwyaf cyffredin yn y sector Creadigol (58 y cant) a'r sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol (48 y cant). Ar wahân i'r sector Bwyd-amaeth, dyma'r ddau sector a adroddodd y mwyaf o wahanol ddibenion o ran defnyddio'r Gymraeg.

**Tabl 4.2: Dibenion defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl sector**

Canrannau colofn	Pawb	Gofal Plant	Gofal Cymdeithasol	Lletygarwch	Adeiladu	Cyllid	Bwyd-amaeth	Manwerthu	Creadigol
<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau yn yr 8 sector a chanddynt staff sy'n defnyddio'r Gymraeg</i>	1,795	361	259	391	112	174	203	194	101
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Delio gyda chwsmeriaid / cleientiaid	90	87	87	91	94	86	89	94	86
Cyfathrebu llafar anffurfiol rhwng cydweithwyr	69	44	61	55	71	70	90	63	65
Cyfathrebu ysgrifenedig anffurfiol fel negeseuon e-bost	38	25	27	34	28	54	48	24	66
Cyfarfodydd mewnol	38	21	24	22	41	35	70	20	47
Gweithgarwch marchnata neu wefannau	33	29	17	31	15	48	40	22	58
Cyfathrebu mewnol ffurfiol megis polisiâu ysgrifenedig	31	26	25	20	28	28	55	14	36



### **Manteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**

- 4.17 Prif fantais defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn nhyb y busnesau oedd gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Yn dilyn hyn, cyfeiriwyd at ddelwedd well yn y gymuned, cadw cwsmeriaid presennol ac ennill busnes newydd.
- 4.18 Ac eithrio Gofal Plant, y fantais fwyaf cyffredin ymhlith cyflogwyr ym mhob sector oedd gwell gwasanaeth i gwsmeriaid (roedd cyflogwyr Gofal Plant yn fwyaf tebygol o grybwyll gwella sgiliau Cymraeg y plant, er y gallai hyn fod wedi cael ei ystyried yn agwedd ar wasanaeth cwsmeriaid yn y sector neilltuol hwn, o bosib). Er bod pawb yn ystyried gwell gwasanaeth cwsmeriaid yn fantais bwysig, roedd yn arbennig o bwysig yn y sector Manwerthu (67 y cant) a'r sector Gofal Cymdeithasol (64 y cant).
- 4.19 Cyflogwyr yn y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol a'r sector Creadigol oedd yn fwyaf tebygol o gydnabod manteision busnes mwy pendant, fel cadw cwsmeriaid presennol a chymorth i ennill busnes newydd (crybwyllwyd y naill a'r llall gan oddeutu chwarter y cyflogwyr gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol ac oddeutu un o bob pump o'r cyflogwyr Creadigol). Mewn astudiaeth achos, dywedodd cyflogwr y byddai'r canlynol yn digwydd heb sgiliau Cymraeg:  
*"fydden ni ddim yn gallu tyfu i'r un graddau ... i weithio ar draws Cymru ... fydden ni ddim am aros wedi ein hynysu fel sefydliad Seisnig.....byddai hynny'n cyfyngu arnom ni"*

### **Cyflogwr Creadigol, canolbarth Cymru**

- 4.20 Er bod sefydliadau Bwyd-amaeth, fel y sonnir uchod, yn defnyddio'r Gymraeg i fwy o ddibenion na'r sectorau eraill, nid yw'n ymddangos eu bod yn cydnabod mwy o fanteision yn sgil hyn, gyda'r cyfrannau oddeutu'r cyfartaledd, neu'n is na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o'r ymatebion. Unwaith eto, gallai hyn gefnogi'r dehongliad mai'r Gymraeg, yn aml, yw iaith naturiol gweithleoedd y sector hwn, yn hytrach na bod yr iaith yn cael ei defnyddio er mwyn ennill mantais neilltuol, sef yr hyn a allai fod yn digwydd yn rhai o'r sectorau eraill. Dywedodd cynrychiolydd y busnes Bwyd-amaeth a gafodd ei gyfwrdd ar gyfer yr astudiaethau achos fod yn well gan y busnes ddefnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle: mae'r holl gyfathrebu mewnol a mwyafrif y cyfathrebu allanol yn Gymraeg, a'r holl gyflogeion wedi'u recriwtio o'r gymuned leol Gymraeg.

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 4.3: Manteision yn sgil defnyddio'r Gymraeg, yn ôl sector**

<i>Canrannau colofn</i>	<b>Pawb</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Gofal Cymdeithasol</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Adeiladu</b>	<b>Cyllid</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Creadigol</b>
<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau yn yr 8 sector a chanddynt staff sy'n defnyddio'r Gymraeg</i>	1,795	361	259	391	112	174	203	194	101
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Gwell gwasanaeth i gwsmeriaid	51	32	64	56	43	57	36	67	47
Delwedd well yn y gymuned	17	18	20	22	11	20	16	14	20
Helpu i gadw cwsmeriaid presennol	15	5	10	12	10	24	13	18	21
Helpu i ennill busnes newydd	12	9	8	9	14	24	7	12	20
Cyfathrebu'n well â chwsmeriaid / cleientiaid	10	3	16	7	8	6	14	13	8
Cynyddu gwerthiant	7	3	1	5	5	12	5	9	14
Yn bodloni cwsmeriaid / cleientiaid	5	3	3	6	4	4	7	3	4
Gwella bodlonrwydd neu gadw staff	5	1	6	3	1	9	6	2	7
Hybu'r Gymraeg / diwylliant Cymru	4	12	4	6	*	1	7	2	4
Gwella cymhelliant / undod y gweithlu	4	1	5	2	6	4	8	*	5
Gwella sgiliau Cymraeg plant	3	45	*	2	-	-	1	-	-

'-' = 0 y cant, '\*' => 0 y cant ond <0.5 y cant.

## **5 Cynyddu sgiliau Cymraeg yn y gweithle**

- 5.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r awydd ymhlith cyflogwyr am well sgiliau Cymraeg yn y gweithle, a'r manteision canfyddedig yn sgil hynny. Mae'r sylw wedyn yn troi at y prif alwedigaethau lle byddai mwy o sgiliau Cymraeg yn fuddiol oddi mewn i bob un o'r wyth sector. Yn olaf, archwilir y prif lefelau (mynediad, canolradd ac uwch) a'r math o sgiliau (deall, siarad, darllen ac ysgrifennu) a fyddai'n ddymunol ar gyfer pob galwedigaeth.

### **A fyddai sgiliau Cymraeg gwell yn fuddiol i'r sefydliad**


- 5.2 Gofynnwyd i'r cyflogwyr a fyddai o fudd i'w sefydliad pe bai ganddynt fwy o staff a fyddai'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu a chanddynt lefel uwch o sgiliau Cymraeg. Fel y dengys Ffigur 5.1, roedd yr ymateb yn amrywio'n sylweddol yn ôl pob sector.
- 5.3 Ar draws yr wyth sector, roedd dros chwarter y sefydliadau (28 y cant) yn meddwl y byddai o fudd iddynt gael mwy o staff a fyddai'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu a chanddynt lefel uwch o sgiliau Cymraeg (pump y cant o fudd sylweddol a 22 y cant yn rhywfaint o fudd). Mewn saith y cant o sefydliadau eraill, nid oedd unrhyw bosibilrwydd am welliant gan fod gan yr holl staff eisoes sgiliau lefel uwch ym mhob un o'r pedwar modd.
- 5.4 O bell ffordd, sefydliadau yn y sector Gofal Plant oedd yn fwyaf tebygol o ddweud y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad, gyda 29 y cant ohonynt yn dweud y byddai o fudd sylweddol a 39 y cant yn dweud y byddai rhywfaint o fudd i hynny. Roedd lefel yr awydd am fwy o sgiliau Cymraeg yn weddol gyson o fewn y sector ar draws y rhanbarthau (yn amrywio rhwng 63 y cant o sefydliadau Gofal Plant yng nghanolbarth Cymru a 70 y cant yn ne-ddwyrain Cymru ymhlith y rhai a ddywedodd y byddai hynny o fudd iddynt).
- 5.5 I'r gwrthwyneb, sefydliadau yn y sector Bwyd-amaeth oedd yn lleiaf tebygol o ddweud y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd iddynt, gydag ond dau y cant yn dweud y byddai hynny o fudd sylweddol, ac 11 y cant yn dweud y byddai rhywfaint o fudd i hynny. Fodd bynnag, dywedodd chwarter y sefydliadau Bwyd-amaeth (26 y cant) fod gan eu holl staff eisoes sgiliau uwch - cyfran llawer uwch nag unrhyw sector arall. Felly gall y lefel uchel gyfredol o sgiliau Cymraeg ymhlith

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

aelodau'r gweithlu egluro'n rhannol pam bod llai o awydd am fwy o sgiliau Cymraeg o fewn y sector. Wedi dweud hynny, hyd yn oed o fewn y sector hwn, adroddodd tri o bob pum cyflogwr na cheid unrhyw fudd yn gysylltiedig â chael mwy o staff i allu cyfathrebu yn Gymraeg, neu gyda lefel uwch o sgiliau yn Gymraeg.

- 5.6 Cyflogwyr Adeiladu oedd yn fwyaf tebygol o ddweud na fyddai mwy o sgiliau Cymraeg o unrhyw fudd, sef 72 y cant ohonynt.
- 5.7 Mae Ffigur 5.1 hefyd yn dangos y canfyddiadau yn ôl rhanbarth. Yn achos hanner y cyflogwyr yng ngogledd Cymru, mae gan eu holl staff sgiliau hyd at lefel uwch (16 y cant) neu maent yn teimlo y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r sefydliad (33 y cant). Ar y llaw arall, tua chwarter y cyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru (24 y cant) oedd yn teimlo y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd iddynt, a dim ond un y cant a wnaeth adrodd bod gan y gweithlu cyfan sgiliau hyd at lefel uwch.

**Ffigur 5.1: A fyddai cael mwy o staff sy'n gallu siarad Cymraeg / lefel uwch o sgiliau yn Gymraeg o fudd i'r sefydliad, yn ôl sector a rhanbarth**



5.8 Roedd sefydliadau di-elw yn llawer mwy tebygol o deimlo y byddai cael lefel well o sgiliau Cymraeg o fudd iddynt (48 y cant o'r llywodraeth ganolog, 52 y cant o elusennau a 59 y cant o sefydliadau llywodraeth leol; mae hyn yn cymharu â 25 y cant o sefydliadau sy'n ceisio creu elw).


### Manteision canfyddedig i'r busnes yn sgil gwella sgiliau Cymraeg

5.9 Ystyriwyd bod cysylltiadau â chwsmeriaid yn faes allweddol lle ceid manteision yn sgil gwella sgiliau Cymraeg, gyda thua deuparth (68 y cant) y sefydliadau a ddywedodd y byddai gwella sgiliau Cymraeg o fudd i'w busnes yn crybwyll rhesymau'n gysylltiedig â chysylltiadau cwsmeriaid. Y brif fantais ganfyddedig oddi mewn i hyn, a grybwyllwyd yn ddigymell gan fwy na hanner y sefydliadau (53 y cant), oedd y byddai gwell sgiliau Cymraeg yn golygu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Roedd y sector Lletygarwch (69 y cant) a'r sector Manwerthu (61 y cant) yn arbennig o debygol o grybwyll y fantais hon.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

5.10 Teimlai traean (33 y cant) y sefydliadau a nododd y byddai gwella sgiliau Cymraeg yn fuddiol y byddai hyn yn helpu gyda gwerthiant, gan gynnwys chwarter (25 y cant) a grybwyllodd y byddai'n eu helpu i ennill busnes newydd. Roedd y rhai a weithredai yn y gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol (43 y cant), y sector Adeiladu (35 y cant) a'r sector Creadigol (34 y cant) yn debygol iawn o feddwl y byddai gwella sgiliau Cymraeg yn eu helpu i ennill busnes newydd. Crybwyllodd oddeutu un o bump (19 y cant) o'r sefydliadau fanteision yn gysylltiedig â'u delwedd yn y gymuned a hybu'r Gymraeg. Dengys Ffigur 5.2 y prif fanteision penodol a grybwyllwyd gan sefydliadau ar draws yr wyth sector.

**Ffigur 5.2: Manteision canfyddedig i'r busnes yn sgil gwella sgiliau Cymraeg (digymell)**



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

5.11 Roedd sefydliadau yn ne-ddwyrain Cymru yn llai tebygol o grybwyll gwell gwasanaeth i gwsmeriaid fel mantais bosib yn sgil cynyddu sgiliau Cymraeg, gyda 40 y cant yn crybwyll hynny o gymharu â 56 y cant yng ngogledd Cymru, 57 y cant yng nghanolbarth Cymru a 65 y cant yn ne-orllewin Cymru. Fodd bynnag, roedd sefydliadau yn ne-ddwyrain Cymru yn fwy tebygol na'r rheiny mewn rhanbarthau eraill i ddweud y byddai mwy o sgiliau Cymraeg yn ennill mwy o fusnes iddynt - crybwyllodd 33 y cant y fantais ganfyddedig hon, o gymharu â 22 y cant yng ngogledd Cymru, 23 y cant yng nghanolbarth Cymru ac 19 y cant yn ne-orllewin Cymru.

### Galwedigaethau lle byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg

5.12 Gofynnwyd i'r holl sefydliadau a nododd y byddai'n fuddiol cael mwy o staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu â lefel uwch o sgiliau yn Gymraeg, nodi pa alwedigaethau penodol o fewn eu sefydliad y byddai hyn o fudd iddynt. Dangosir yr ymateb yn Nhabl 5.1, yn seiliedig ar god 2-ddigid y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC). Ym mhob sector, mae'r ddwy alwedigaeth y cyfeiriwyd atynt amlaf fel galwedigaethau lle byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg wedi'u tywyllu. *Er symrwydd, ni ddangosir categorïau'r SOC a grybwyllwyd gan lai na thri y cant o'r ymatebwyr ar draws yr holl sectorau.*

**Tabl 5.1: Galwedigaethau lle byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg, yn ôl sector**

<i>Canrannau colofn</i>	Gofal	Cymdeithasol	Gofal Plant	Creadigol	Lletygarwch	Cyllid	Manwerthu	Bwyd-amaeth	Adeiladu
<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau a ddywedodd y byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg</i>	275	299	114	366	175	158	59	78	
	%	%	%	%	%	%	%	%	
Rheolwyr a chyfarwyddwyr Corfforaethol (SOC11)	6	1	13	1	19	23	3	29	
Rheolwyr a pherchnogion eraill (SOC12)	34	2	16	21	8	1	29	5	

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

<i>Canrannau colofn</i>	<b>Gofal</b>	<b>Cymdeithasol</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Creadigol</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Cyllid</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Adeiladu</b>
Gweithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianeg a thechnoleg (SOC21)	-	-	4	1	4	4	4	2	1
Gweithwyr iechyd proffesiynol (SOC 22)	6	1	-	*	*	5	-	-	-
Gweithwyr proffesiynol addysgu ac addysgol (SOC 23)	*	22	2	2	-	-	-	-	-
Gweithwyr proffesiynol busnes, y cyfryngau a gwasanaeth cyhoeddus (SOC 24)	3	*	22	5	17	4	-	-	2
Gweithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg (SOC 31)	*	-	4	1	1	-	-	-	*
Galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon (SOC 34)	-	*	22	3	3	-	-	-	-
Gweithwyr proffesiynol cysylltiol busnes a gwasanaeth cyhoeddus (SOC 35)	2	*	11	3	19	-	3	2	2
Galwedigaethau gweinyddol (SOC 41)	13	3	12	12	30	4	4	5	5
Galwedigaethau ysgrifenyddol a chysylltiedig (SOC 42)	1	1	1	8	9	2	-	-	5
Masnachau crefftus amaethyddol a chysylltiedig (SOC 51)	*	-	-	*	-	-	-	21	-
Masnachau crefftus adeiladwaith ac adeiladu (SOC 53)	-	-	1	-	*	-	-	-	24
Masnachau crefftus eraill (SOC 54)	4	2	-	1	-	-	-	-	-
Galwedigaethau gwasanaeth personol â gofal (SOC 61)	79	81	-	5	-	-	-	-	-
Galwedigaethau hamdden teithio a gwasanaeth personol cysylltiedig (SOC 62)	-	1	1	15	*	-	-	-	-
Galwedigaethau gwerthu (SOC 71)	-	-	6	5	7	59	6	6	7



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

<i>Canrannau colofn</i>	<b>Gofal Cymdeithasol</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Creadigol</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Cyllid</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Adeiladu</b>
Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid (SOC 72)	1	-	3	7	3	4	1	5
Masnachau sylfaenol a galwedigaethau cysylltiedig (SOC 91)	*	-	1	1	*	-	10	2
Galwedigaethau gweinyddu a gwasanaeth sylfaenol (SOC 92)	4	1	1	31	1	*	-	1
Di-ddosbarth	1	1	3	3	1	2	2	2

'-' = 0 y cant, '\*' => 0 y cant ond <0.5 y cant.

### **Lefel a modd y sgiliau a ystyrir yn ddymunol ar gyfer galwedigaethau penodol o fewn y sector**


5.13 Ar gyfer pob un o'u pum grŵp galwedigaethol mwyaf, gofynnwyd i'r cyflogwyr pa lefel o sgiliau a ystyrir yn ddymunol ganddynt hwy, o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Cyflwynir y canlyniadau yma fesul sector, gan fod y proffiliau galwedigaethol yn amrywio'n helaeth rhwng y naill sector a'r llall. Gan fod y niferoedd sylfaen yn fach yn y sectorau Adeiladu a Bwyd-amaeth, hyd yn oed yn y grŵp galwedigaethol mwyaf, nid oes modd dadansoddi'r canlyniadau hyn ar gyfer y sectorau hynny. Ar gyfer y sectorau eraill, dim ond y ddau neu dri chategori mwyaf o alwedigaethau sydd wedi'u cynnwys, unwaith eto gan mai bach oedd y niferoedd sylfaen dan sylw. Ar ben hynny, o fewn y sectorau hyn hyd yn oed, dylid nodi bod y niferoedd sylfaen ar gyfer rhai galwedigaethau penodol yn isel iawn, a lle bo'r niferoedd hynny rhwng 25 a 49 dylid arfer gofal priodol wrth ymdrin â'r canlyniadau (ni ddangosir ffigurau lle bo'r sylfaen yn is na 25).

5.14 Cyflwynir y canfyddiadau ar gyfer sawl galwedigaeth ychwanegol yn yr Atodiadau (gweler Tablau B1-B5 yr Atodiad).

*Y Sector Gofal Cymdeithasol*

- 5.15 O fewn y sector Gofal Cymdeithasol, y tri grŵp uchaf o alwedigaethau y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd iddynt oedd galwedigaethau Gwasanaeth personol â gofal, Rheolwyr a pherchnogion eraill a Galwedigaethau gweinyddol. Fel y dengys Ffigur 5.3, roedd y ddau fath olaf o alwedigaethau yn debyg iawn o ran y proffil sgiliau a ddymunir, gydag oddeutu deuparth o gyflogwyr (sydd o'r farn y byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg) yn nodi y byddai sgiliau uwch neu ganolradd wrth siarad a deall yn ddymunol, ac oddeutu hanner yn ystyried y byddai sgiliau uwch neu ganolradd wrth ddarllen ac ysgrifennu yn ddymunol.
- 5.16 Ystyriwyd bod lefel is o sgiliau'n ddymunol ar gyfer galwedigaethau Gwasanaeth personol â gofal, gyda chyfran is o gyflogwyr a oedd o'r farn y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r alwedigaeth yn nodi y byddai sgiliau uwch yn ddymunol, a chyfran uwch yn nodi y byddai sgiliau canolradd neu (ar gyfer y rhan fwyaf o'r moddau) sgiliau lefel mynediad yn ddymunol.
- 5.17 Ym mhob un o'r tair galwedigaeth, roedd sefydliadau a nododd y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd yn fwy tebygol o ddweud nad oedd angen unrhyw sgiliau darllen ac ysgrifennu, o gymharu â siarad a deall.

**Ffigur 5.3: Y sector Gofal Cymdeithasol: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg**




*Sylfaen: cyflogwyr ym maes Gofal Cymdeithasol a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r galwedigaethau a ddangosir. Sylwch fod nifer sylfaen y galwedigaethau Gweinyddol yn gymharol isel, felly dylid ymdrin yn ofalus â'r canlyniad.*

Y Sector Gofal Plant

5.18 Fel y dengys Ffigur 5.4, ystyriwyd y byddai lefel llawer uwch o sgiliau yn fuddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysgu ac addysgol nag ar gyfer galwedigaethau Gwasanaethau personol â gofal yn y sector Gofal Plant, gyda bron hanner (45 y cant) y cyflogwyr a ddywedodd y byddai'n fuddiol cael gwell sgiliau Cymraeg yn dweud yr hoffent i'w gweithwyr proffesiynol addysgu ac addysgol feddu ar lefel uwch o sgiliau siarad Cymraeg.

**Ffigur 5.4: Y sector Gofal Plant: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg**




Sylfaen: cyflogwyr ym maes Gofal Plant a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r galwedigaethau a ddangosir

Y Sector Lletygarwch

5.19 Fel y dengys Ffigur 5.5, ym mhob un o'r tair galwedigaeth fwyaf cyffredin yn y sector Lletygarwch, ystyriwyd bod sgiliau deall a siarad Cymraeg yn fwy dymunol na sgiliau darllen ac ysgrifennu. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn galwedigaethau Gweinyddu a gwasanaeth sylfaenol.

5.20 Roedd y proffil sgiliau a ddymunir gan gyflogwyr ar gyfer Rheolwyr a pherchnogion eraill a Galwedigaethau hamdden, teithio a gwasanaeth personol cysylltiedig yn debyg, gyda lefelau sgîl ychydig yn uwch yn ddymunol ar gyfer Rheolwyr a pherchnogion eraill, yn enwedig o ran sgiliau darllen ac ysgrifennu.

**Ffigur 5.5: Y sector Lletygarwch: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg**




Sylfaen: cyflogwyr ym maes Lletygarwch a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r galwedigaethau a ddangosir

Y Sector Creadigol

5.21 Ar gyfer galwedigaethau Diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, ystyrir lefel uchel o sgiliau'n ddymunol: mae 50 i 55 y cant o gyflogwyr y sector Creadigol sydd am gael gwell sgiliau yn yr alwedigaeth hon yn dymuno cael lefel uwch o sgiliau o ran darllen, ysgrifennu, siarad neu ddeall Cymraeg llafar. Sylwer bod y nifer sylfaen yn gymharol fach, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn.

**Ffigur 5.6: Y sector Creadigol: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg**




Sylfaen: cyflogwyr yn y sector Creadigol a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r alwedigaeth a ddangosir. Sylwch fod y nifer sylfaen yn gymharol isel, felly dylid ymdrin yn ofalus â'r canlyniad.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

### Y Sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol

5.22 Ym mhob un o'r galwedigaethau penodol, ystyriwyd bod sgiliau deall a siarad Cymraeg yn fwy dymunol na sgiliau darllen neu ysgrifennu; roedd y gwahaniaeth yma'n arbennig o amlwg o fewn galwedigaethau Gweinyddol.

**Ffigur 5.7: Y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg**




Sylfaen: cyflogwyr yn y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r galwedigaethau a ddangosir. Sylwer bod y nifer sylfaen yn gymharol isel ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Busnes a Gwasanaeth Cyhoeddus, ac ar gyfer Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol, felly dylid ymdrin yn ofalus â'r canlyniadau.

Y Sector Manwerthu

5.23 Ystyriwyd unwaith eto fod sgiliau deall a siarad Cymraeg yn arbennig o ddymunol ar gyfer y ddwy brif alwedigaeth y cyfeiriwyd atynt yn y sector Manwerthu fel galwedigaethau lle'r oedd angen gwell sgiliau yn y Gymraeg (galwedigaethau Gwerthu a Rheolwyr Corfforaethol). Ar gyfer staff Gwerthu, mae sgiliau canolradd yn arbennig o ddymunol, ond ar gyfer Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol cafwyd rhaniad cymharol gyfartal rhwng y rhai a ddymunai gael sgiliau uwch, canolradd a lefel mynediad o ran deall a siarad Cymraeg.

**Ffigur 5.8: Y Sector Manwerthu: y lefelau a'r moddau a ddymunir o fewn galwedigaethau penodol o ran sgiliau Cymraeg**



Sylfaen: cyflogwyr yn y sector Manwerthu a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i'r galwedigaethau a ddangosir. Sylwch fod y nifer sylfaen ar gyfer Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol yn gymharol fach, felly dylid ymdrin yn ofalus â'r canlyniad.



### **Y sgiliau a fyddai'n fwyaf buddiol i gyflogwyr**

- 5.24 Ymhlith yr holl gyflogwyr a deimlai y byddai cynyddu sgiliau Cymraeg o fudd, ystyriwyd mai gwella sgiliau siarad oedd yn fwyaf pwysig. Nododd bron i ddau draean a ddymunai wella sgiliau (64 y cant) mai sgiliau gwell wrth siarad Cymraeg fyddai'n fwyaf buddiol ar gyfer o leiaf un o'u galwedigaethau, o gymharu â'r 47 y cant a oedd eisiau gwella sgiliau deall yn bennaf, yr 13 y cant a ddywedodd gwella sgiliau ysgrifenedig a'r 10 y cant a ddywedodd mai gwella sgiliau darllen fyddai'n fwyaf buddiol ar gyfer o leiaf un o'u galwedigaethau.
- 5.25 Roedd siarad Cymraeg yn fwy tebygol o gael ei ystyried yn fwyaf buddiol ar gyfer o leiaf un alwedigaeth gan gyflogwyr yn y sector Gofal Plant (80 y cant a dybiai y byddai gwella sgiliau Cymraeg o fudd i un o'u galwedigaethau o leiaf), yn y sector Gofal Cymdeithasol (76 y cant) a'r sector Lletygarwch (74 y cant). Cyflogwyr yn y sector Bwyd-amaeth (43 y cant) a Manwerthu (58 y cant) oedd yn lleiaf tebygol o ystyried mai dyna oedd yn fwyaf buddiol
- 5.26 Dywedodd cyfran uwch o gyflogwyr yn y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol mai deall Cymraeg fyddai'n fwyaf buddiol ar gyfer o leiaf un o'u galwedigaethau (55 y cant o'r rhai a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i o leiaf un o'u galwedigaethau). Ar y llaw arall, cyflogwyr yn y sectorau Creadigol a Gofal Plant oedd yn lleiaf tebygol o ddweud hyn (37 y cant a 40 y cant yn y drefn honno).
- 5.27 Roedd cyflogwyr y sectorau Creadigol a Gofal Plant yn fwy tebygol na'r cyffredin i gredu mai gwella sgiliau darllen Cymraeg fyddai'n fwyaf buddiol ar gyfer o leiaf un o'u galwedigaethau (24 y cant a 22 y cant o'r rhai a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i o leiaf un o'u galwedigaethau, yn y drefn honno). Cyflogwyr yn y sector Manwerthu oedd y lleiaf tebygol o ddweud mai gwella sgiliau darllen Cymraeg fyddai'n fwyaf buddiol, sef pump y cant.
- 5.28 O blith yr wyth sector, cyflogwyr yn y sectorau Creadigol a Gofal Plant hefyd oedd yn fwyaf tebygol o ddweud mai gwella sgiliau ysgrifennu Cymraeg fyddai'n fwyaf buddiol ar gyfer o leiaf un o'u galwedigaethau (29 y cant a 23 y cant o'r rhai a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd i o leiaf un o'u galwedigaethau, yn y drefn honno). Roedd sefydliadau Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol hefyd yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud mai ysgrifennu yn Gymraeg fyddai'n fwyaf buddiol (18 y cant).

### **Rhesymau pam nad oedd gan y staff well sgiliau Cymraeg**

- 5.29 Gofynnwyd i'r holl gyflogwyr a ddywedodd y byddai mwy o sgiliau Cymraeg o fudd i'w busnes am y prif resymau pam nad oedd lefelau uwch o sgiliau Cymraeg ymhlith rhai o'u staff mewn dwy alwedigaeth a ddewiswyd ar hap.
- 5.30 Fel y dengys Tabl 5.2, y rheswm mwyaf cyffredin oedd na fu cynyddu lefelau sgiliau Cymraeg yn flaenoriaeth i'r sefydliad (62 y cant). Roedd hyn yn arbennig o debygol yn y sector Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol (80 y cant o'r rhai hynny a dybiai y byddai gwella sgiliau Cymraeg o fudd i'w sefydliad), ac yn lleiaf tebygol yn y sector Bwyd-amaeth (38 y cant).
- 5.31 Rheswm arall cyffredin am ddiffyg sgiliau Cymraeg lefel uwch, a ddewiswyd gan oddeutu dau o bob pum sefydliad (39 y cant) a dybiai y byddai sgiliau gwell o fudd iddynt, oedd nad oedd gan y staff diddordeb mewn dysgu Cymraeg, neu mewn gwella'r sgiliau Cymraeg yr oedd ganddynt eisoes (neu dyna oedd y cyflogwr yn ei dybio o leiaf).
- 5.32 Dywedodd ychydig yn llai na thraean (29 y cant) y cyflogwyr a dybiai y byddai gwell sgiliau o fudd iddynt eu bod wedi'i chael hi'n anodd recriwtio staff a chanddynt y lefel a ddymunir o sgiliau Cymraeg); roedd hyn yn broblem neilltuol yn y sector Gofal Plant (45 y cant) a Gofal Cymdeithasol (43 y cant). Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau seiliedig ar sector a ddisgrifir yn y bennod sy'n dilyn ar recriwtio.
- 5.33 O blith y cyflogwyr a dybiai y byddai gwell sgiliau Cymraeg o fudd iddynt, teimlai bron chwarter (23 y cant) ohonynt mai'r rheswm pam nad oedd gan staff sgiliau Cymraeg lefel uwch, neu'r rheswm rhannol, oedd bod y lefel ofynnol o hyfedredd wedi codi. Dywedodd cyfran debyg (20 y cant) mai'r rheswm oedd ei bod hi'n ofynnol iddynt bellach gael mwy o staff a chanddynt sgiliau Cymraeg nag yn y gorffennol. Roedd y ddau reswm uchod yn llawer mwy cyffredin yn y sector Gofal Plant (50 y cant a 42 y cant, yn y drefn honno), ac ychydig o amrywio a gafwyd ar draws y rhan fwyaf o'r sectorau eraill ar y cyfan.
- 5.34 Dywedodd 16 y cant o gyflogwyr a gredai y byddai gwell sgiliau o fudd iddynt nad oeddent yn gallu canfod cyrsiau hyfforddi addas yn lleol; roedd hyn yn llawer mwy cyffredin ymhlith sefydliadau Gofal Plant (37 y cant). Fesul rhanbarth, roedd

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

cyflogwyr yng nghanolbarth Cymru'n fwy tebygol o sôn am ddiffyg cyrsiau hyfforddi lleol (22 y cant), tra bo'r tri rhanbarth arall yn cyd-fynd â'r cyfartaledd.

**Tabl 5.2: Y prif resymau pam nad oes gan staff sgiliau Cymraeg lefel uwch, yn ôl sector (awgrymwyd oni nodwyd)**

<i>Canrannau colofn</i>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Gofal Cymdeithasol</b>	<b>Gofal Plant</b>	<b>Creadigol</b>	<b>Lletygarwch</b>	<b>Cyllid</b>	<b>Manwerthu</b>	<b>Bwyd-amaeth</b>	<b>Adeiladu</b>
<i>Sylfaen: Pawb a dybiai y byddai'n fuddiol cynyddu sgiliau Cymraeg (yn ymateb gan drafod hyd at 2 gategori galwedigaethol penodol)</i>	<b>1,524</b>	275	299	114	366	175	158	59	78
	<b>%</b>	%	%	%	%	%	%	%	%
Ni fu'n flaenoriaeth i'r sefydliad gynyddu'r lefel o sgiliau Cymraeg	<b>62</b>	59	43	72	59	80	70	38	47
Nid oes gan yr aelodau hyn o staff ddiddordeb mewn dysgu / gwella eu Cymraeg	<b>39</b>	41	27	33	42	38	46	24	43
Rydym yn ei chael yn anodd recriwtio staff gyda'r lefel a ddymunir o sgiliau Cymraeg	<b>29</b>	43	45	30	33	26	28	9	22
Mae'r lefel hyfedredd rydym ei angen mewn sgiliau Cymraeg wedi codi	<b>23</b>	28	50	21	25	23	22	16	10
Mae nifer y bobl rydym eu hangen gyda sgiliau Cymraeg wedi cynyddu	<b>20</b>	23	42	24	20	18	19	17	11
Nid ydym yn medru canfod cyrsiau hyfforddiant addas yn y Gymraeg yn lleol	<b>16</b>	22	37	13	13	10	23	16	8
Maent wedi bod ar hyfforddiant yn y Gymraeg ond nid yw eu sgiliau wedi gwella'n ddigonol	<b>11</b>	9	27	14	16	9	11	11	1
Rydym yn cael problemau'n cadw staff gyda'r lefel a ddymunir o sgiliau Cymraeg	<b>7</b>	11	14	9	7	7	6	3	3
Addysg / cefndir di-Gymraeg (digymell)	<b>5</b>	7	3	2	9	5	2	8	1
Dim rheswm penodol	<b>5</b>	5	4	6	7	3	4	7	7

### **Ffactorau sy'n Rhwystro Cynnydd Sgiliau Cymraeg**

- 5.35 Gofynnwyd i'r cyflogwyr a ddywedodd y byddai lefel uwch o sgiliau Cymraeg o fudd i'w busnes beth oedd yn eu hatal rhag cyflogi mwy o staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, neu rhag gwella sgiliau'r staff presennol.
- 5.36 Y prif reswm ar y cyfan oedd lefelau isel o drosiant staff, neu nad oedd angen recriwtio (71 y cant o'r rhai a dybiai y byddai gwell sgiliau o fudd iddynt); roedd y rheswm hwn yn arbennig o amlwg mewn sefydliadau Creadigol (85 y cant), Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol (83 y cant) a Gofal Plant (82 y cant).
- 5.37 Er y byddai gwerth i well sgiliau Cymraeg, dywedodd un cyflogwr Gofal Cymdeithasol a gafodd ei gyfsweld yn rhan o'r cam astudiaethau achos fod lefel trosiant staff y sefydliad yn isel. Cydnabu hefyd y byddai'n annhebygol o fynd ati'n weithredol i chwilio am hyfforddiant i'w staff presennol. Dywedodd cyflogwr mewn astudiaeth achos arall, er ei fod yn teimlo y byddai gallu cyfarch a sgwrsio â chwsmeriaid yn Gymraeg yn dda i'r busnes, nad oedd fodd bynnag yn teimlo unrhyw bwysau gwirioneddol i geisio cyflawni hynny.

*“Mae ychydig yn debyg i'r Ffrancwyr mewn ffordd....dybiwn i... cyn gynted ag y byddwch chi wedi dysgu'r ymadroddion....gallwch chi wastad lithro'n ôl i Saesneg a dweud 'Mae'n ddrwg gen i, dydw i ddim yn deall'... Dydw i ddim yn meddwl y byddai hynny'n golled enfawr”*

### **Cyflogwr Manwerthu, canolbarth Cymru**

- 5.38 Dywedodd dros draean (36 y cant) o'r sefydliadau a gredai y byddai sgiliau gwell o fudd iddynt nad oedd digon o ymgeiswyr yn meddu ar sgiliau Cymraeg o safon ddigonol; roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith cyflogwyr Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol, gyda 48 y cant o'r naill a'r llall yn rhestru hynny fel problem. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau a drafodir yn y bennod ddilynol, sy'n cynnwys archwiliad manylach o safbwyntiau cyflogwyr ynghylch argaeledd ac ansawdd sgiliau yn y farchnad lafur gyfredol.

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 5.3: Rhesymau sy'n atal mwy o staff â sgiliau Cymraeg rhag cael eu cyflogi neu wella sgiliau staff presennol, yn ôl sector**

<i>Canrannau Colofn</i>	Cyfanswm	Gofal Cymdeithasol	Gofal Plant	Creadigol	Lletygarwch	Cyllid	Bwyd-amaeth	Manwerthu	Adeiladu
<i>Sylfaen: Pawb sy'n meddwl y byddai'n fuddiol cael mwy o sgiliau Cymraeg</i>	<b>1,524</b>	275	299	114	366	175	59	158	78
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Trosiant staff isel sydd gennym a/neu dim angen recriwtio	<b>71</b>	64	82	85	64	83	60	77	56
Nid oes gan ddigon o ymgeiswyr sgiliau da yn y Gymraeg	<b>36</b>	48	48	43	39	32	15	41	25
Nid yw staff eisiau hyfforddi i wella eu sgiliau Cymraeg	<b>34</b>	40	25	29	40	34	17	42	23
Nid oes gan ymgeiswyr gyda sgiliau Cymraeg y sgiliau eraill rydym eu hangen	<b>25</b>	25	26	39	26	22	23	31	10
Hyfforddiant mewn sgiliau iaith Gymraeg yn ddrud	<b>24</b>	21	41	25	29	29	16	19	18
Dim digon o amser ar gyfer hyfforddiant	<b>2</b>	1	1	2	2	3	-	*	5
Dim digon o gyrsiau ar gael / ddim yn gwybod lle i gael hyfforddiant neu gyllid	<b>1</b>	1	3	1	*	*	2	2	-
Arall	<b>3</b>	1	2	3	3	2	4	5	6
Dim un o'r uchod / dim byd yn ein rhwystro ni	<b>13</b>	12	4	5	11	15	20	10	24
Ddim yn gwybod	<b>2</b>	1	1	-	5	-	-	*	10

'-' = 0 y cant, '\*' => 0 y cant ond <0.5 y cant.

## 6 Recriwtio a Sgiliau Cymraeg

6.1 Mae'r bennod hon yn archwilio gweithgarwch recriwtio yn ystod y 12 mis cyn y cyfweliad, gan ganolbwyntio ar y sefyllfaoedd lle cafodd cyflogwyr yn yr wyth sector anawsterau'n recriwtio gan fod diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith yr ymgeiswyr. Mae'r bennod yn mynd rhagddi i archwilio safbwyntiau cyflogwyr ynghylch argaeledd ac ansawdd sgiliau Cymraeg o fewn y farchnad lafur, ac yn cloi drwy ddisgrifio sut y bydd cyflogwyr yn asesu sgiliau Cymraeg ymgeiswyr.

### **Gweithgarwch recriwtio a pha mor ddymunol yw sgiliau Cymraeg wrth recriwtio**

- 6.2 Roedd bron dau o bob pum sefydliad (39 y cant) wedi ceisio recriwtio staff yn ystod y 12 mis diwethaf. Fel y dengys Tabl 6.1, ceir amrywiaeth sylweddol ym maint y gweithgarwch recriwtio yn ôl y sector a maint y sefydliad ac, i raddau llai, yn ôl y rhanbarth. Roedd cyflogwyr yn y sector Gofal Cymdeithasol yn debygol iawn o adrodd ynghylch swyddi gwag (70 y cant). Mae hyn yn cymharu ag ond 12 y cant o gyflogwyr Bwyd-amaeth.
- 6.3 At ei gilydd, adroddodd un o bob deg cyflogwr fod ganddynt swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai lefel sylfaenol o sgiliau Cymraeg o leiaf wedi bod yn ddymunol. O fewn y farchnad lafur, mae'r galw am sgiliau Cymraeg ar ei uchaf yn y sector Gofal (adroddodd 30 y cant o sefydliadau Gofal Plant ac 19 y cant o sefydliadau Gofal Cymdeithasol am swyddi gwag lle byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol).
- 6.4 Yn nhermau cyfaint, byddai sgiliau Cymraeg wedi bod yn ddymunol ym mron un o bob pum swydd gwag yn ystod y 12 mis diwethaf (18 y cant). Mae hyn yn cynyddu i oddeutu tair o bob pum swydd wag o fewn y sector Gofal Plant (59 y cant). Y tu allan i dde-ddwyrain Cymru, byddai sgiliau Cymraeg sylfaenol o leiaf wedi bod yn ddymunol ar gyfer rhwng chwarter a thraean yr holl swyddi gwag.

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 6.1: Gweithgarwch recriwtio a chyfran y swyddi gwag lle cafodd sgiliau Cymraeg eu hystyried yn ddymunol, yn ôl sector a rhanbarth**

<i>Canrannau rhes</i>	<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector</i>	<b>% y cyflogwyr a chanddynt unrhyw swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf</b>	<b>% y cyflogwyr a chanddynt swyddi gwag lle'r oedd SC yn ddymunol</b>	<b>Nifer y swyddi gwag dros y 12 mis diwethaf</b> <i>(Wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf)</i>	<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector a chanddynt swyddi gwag</i>	<b>% y swyddi gwag lle'r oedd SC yn ddymunol</b>
Pawb	4,026	39	10	105,700	2078	18
<b>Sector</b>						
Gofal Plant	425	43	30	1,000	221	59
Gofal Cymdeithasol	581	70	19	14,600	462	31
Creadigol	291	39	15	1,900	114	27
Manwerthu	454	42	8	20,600	257	20
Lletygarwch	1,010	47	14	26,800	577	18
Bwyd-amaeth	459	12	5	4,300	72	12
Cyllid	460	47	10	28,600	242	11
Adeiladu	346	33	4	7,900	133	11
<b>Rhanbarth</b>						
Gogledd Cymru	1,059	35	14	24,100	536	31
Canolbarth Cymru	827	26	11	6,400	348	32
De-orllewin Cymru	1,026	37	11	19,100	540	26
De-ddwyrain Cymru	1,114	47	6	56,200	654	8
<b>Maint</b>						
2-9	2,161	29	7	19,700	619	23
10-24	1,024	74	21	27,000	753	22
25-49	523	79	19	14,000	425	19
50-99	209	86	27	16,100	185	18
100+	109	87	25	29,000	96	10

*Sylwer: Mae'r canrannau yn y golofn olaf yn seiliedig ar yr holl swyddi gwag, yn hytrach na'r holl sefydliadau.*

*Mae 'SC' yn cyfeirio at Sgiliau Cymraeg*

### Prinder sgiliau Cymraeg

- 6.5 Fel arfer, mae'r farchnad lafur yn gallu bodloni anghenion recriwtio'r cyflogwyr; er bod gan ddau o bob pum cyflogwr swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf, dim ond wyth y cant a adroddodd eu bod yn ei chael hi'n anodd llenwi'r swyddi hynny.
- 6.6 Adroddodd un y cant o'r sefydliadau iddynt gael anawsterau recriwtio dros y 12 mis diwethaf, a achoswyd yn rhannol o leiaf oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith yr ymgeiswyr.
- 6.7 Yn nhermau cyfaint, swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg oedd un y cant o'r holl swyddi gwag (pump y cant o'r holl swyddi anodd eu llenwi). Cynyddodd hyn i dri y cant yn y sector Gofal Plant a dau y cant yn y sector Creadigol (19 ac 12 y cant o'r swyddi anodd eu llenwi yn y sectorau hyn, yn y drefn honno). Fodd bynnag, gan fod nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg yn fach iawn mewn rhai manau, dylid gofalu peidio allosod y canfyddiadau hyn yn ormodol.
- 6.8 Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 6.2.
- 6.9 Gofynnwyd i'r cyflogwyr pa alwedigaethau penodol oedd yn anodd eu llenwi, yn rhannol o leiaf oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith yr ymgeiswyr. Roedd dwy o bob pump yn alwedigaethau Gwasanaeth Personol â gofal (41 y cant). Yn y bennod flaenorol (Tabl 5.1) trafodwyd bod cyflogwyr o'r sector Gofal Plant a'r sector Gofal Cymdeithasol yn debygol iawn o ddweud eu bod am gael gwell sgiliau Cymraeg yn y math hwn o alwedigaeth, a'u bod yn dymuno caffael sgiliau canolradd yn arbennig. Dyma alwedigaethau eraill a oedd yn cynrychioli pump y cant o leiaf o'r cyfanswm:
- Galwedigaethau gweinyddol (16 y cant)
  - Gweithwyr proffesiynol cysylltiol iechyd a gofal cymdeithasol (wyth y cant)
  - Gweithwyr proffesiynol busnes, y cyfryngau a gwasanaeth cyhoeddus (saith y cant)
  - Galwedigaethau gweinyddu a gwasanaeth sylfaenol (saith y cant)
  - Gweithwyr proffesiynol cysylltiol busnes a gwasanaeth cyhoeddus (pump y cant)
  - Masnachau crefftus adeiladwaith ac adeiladu (pump y cant)



Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 6.2: Gweithgarwch recriwtio a chyfran y swyddi gwag lle'r ystyriwyd bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol, yn ôl sector a rhanbarth**

<i>Canrannau rhes</i>	<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector</i>	<b>% y cyflogwyr a chanddynt unrhyw swyddi gwag anodd eu llenwi yn ystod y 12 mis diwethaf</b>	<b>% y cyflogwyr a chanddynt swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg</b>	<i>Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector a chanddynt swyddi gwag</i>	<b>% y swyddi gwag a oedd yn anodd eu llenwi oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg, yn rhannol o leiaf</b>	<b>Nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg (Weddi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf)</b>
Pawb	4,026	8	1	2,078	1	540
<b>Sector</b>						
Gofal Plant	425	9	2	221	3	30
Creadigol	291	9	2	114	2	30
Cyllid	460	11	2	242	1	180
Gofal Cymdeithasol	581	16	1	462	1	210
Adeiladu	346	9	<0.5	133	<0.5	40
Bwyd-amaeth	459	3	<0.5	72	<0.5	*
Lletygarwch	1,010	7	<0.5	577	<0.5	45
Manwerthu	454	7	<0.5	257	<0.5	5
<b>Rhanbarth</b>						
Gogledd Cymru	1,059	7	1	536	1	125
Canolbarth Cymru	827	6	1	348	1	65
De-orllewin Cymru	1,026	7	1	540	2	295
De-ddwyrain Cymru	1,114	10	<0.5	654	<0.5	55
<b>Maint</b>						
2-9	2,161	6	<0.5	619	2	345
10-24	1,024	13	1	753	<0.5	85
25-49	523	16	1	425	<0.5	50
50-99	209	19	2	185	<0.5	60
100+	109	19	<0.5	96	<0.5	*

*Sylwer: Mae'r canrannau yn y golofn olaf ond un yn seiliedig ar yr holl swyddi gwag, yn hytrach na'r holl sefydliadau.*

*\*\* => 0 swydd wag <13 o swyddi gwag.*

- 6.10 Dywedodd ychydig dros ddau draean y cyflogwyr a chanddynt swyddi gwag a oedd, yn rhannol o leiaf, yn anodd eu llenwi oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg, eu bod yn y pen draw wedi llenwi rhai neu'r holl swyddi (69 y cant). Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr hyn (57 y cant) iddynt lenwi'r swyddi dan sylw â phobl nad oedd ganddynt y lefel a ddymunent o sgiliau Cymraeg (dau o bob pump o'r holl rai a chanddynt swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg). Unwaith eto, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn oherwydd y niferoedd sylfaen isel (48 o sefydliadau a chanddynt swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg).
- 6.11 O gymryd tystiolaeth o'r astudiaethau achos, soniodd dau gyflogwr o'r sector Creadigol ei bod hi'n anodd recriwtio staff a chanddynt y lefel o sgiliau Cymraeg a'r sgiliau technegol arbenigol yr oedd eu hangen, gan olygu bod angen iddynt weithiau dderbyn ymgeiswyr heb y lefel ddymunol o Gymraeg. Soniodd cyflogwr yn y sector Lletygarwch hefyd ei bod hi'n anodd recriwtio siaradwyr Cymraeg, a dywedodd ei fod wedi gorfod rhoi llai o sylw i sgiliau eraill hanfodol er mwyn gallu recriwtio.

### **Safbwyntiau cyflogwyr ynghylch argaeledd ac ansawdd sgiliau Cymraeg o fewn y farchnad lafur**

- 6.12 Hyd yma, mae'r bennod hon wedi canolbwyntio ar arferion cyflogwyr wrth recriwtio a'u profiad diweddar o brinder sgiliau Cymraeg. Trown ein sylw yn awr at safbwyntiau'r cyflogwyr ynghylch argaeledd sgiliau Cymraeg o fewn y farchnad lafur ar gyfer galwedigaethau allweddol o fewn eu sector. Trafodir hyn yn nhermau nifer yr ymgeiswyr a chanddynt sgiliau Cymraeg, a hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith yr ymgeiswyr hynny.
- 6.13 Fel y dengys Ffigur 6.1, ymhlith y cyflogwyr hynny a oedd o'r farn fod sgiliau Cymraeg yn bwysig, roedd rhaniad cymharol gyfartal rhwng y rhai a ystyriai fod argaeledd sgiliau Cymraeg o fewn y farchnad lafur yn dda (31 y cant), y rhai a gredai fod yr argaeledd yn wael (25 y cant) a'r rhai a feddyliai nad oedd argaeledd sgiliau Cymraeg yn dda nac yn wael (26 y cant). Nid oedd 18 y cant arall yn gallu pennu gradd.


6.14 Mae daearyddiaeth yn agwedd allweddol sy'n dylanwadu ar safbwyntiau ynghylch argaeledd sgiliau Cymraeg. Roedd 44 y cant o sefydliadau yng ngogledd Cymru'n barnu bod argaeledd sgiliau yn dda (pedwar neu bump allan o bump, o gymharu â 30 y cant yng nghanolbarth Cymru, 24 y cant yn ne-orllewin Cymru a 10 y cant yn ne-ddwyrain Cymru). Eglurodd cyflogwr a fu'n astudiaeth achos:

*"Ceir diffyg ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg ac mae'r sefyllfa'n gwaethygu dros amser. Mae nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr sy'n dod i'r amlwg wedi dirywio, ac mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau ieithyddol sy'n digwydd yn y gymuned leol."*

**Cyflogwr Lletygarwch, de-orllewin Cymru**


6.15 O gymharu â'r saith sector arall, sefydliadau Bwyd-amaeth oedd y sefydliadau mwyaf cadarnhaol o bell ffordd ynghylch nifer yr ymgeiswyr a chanddynt sgiliau Cymraeg, gyda mwy na hanner y rhai a ystyriai fod sgiliau Cymraeg yn bwysig yn pennu gradd gadarnhaol, ac wyth y cant yn pennu gradd negyddol. Mae hyn i ryw raddau'n adlewyrchu proffil daearyddol unigryw'r sector, a'r nifer cymharol fach o sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru, o gymharu â'r saith sector arall. Fel y gellid ei ddisgwyl o ystyried y proffiliau daearyddol lled-debyg, ychydig o amrywio a geir i'r darlun ar draws y sectorau eraill, i raddau cymharol. Roedd sefydliadau yn y sectorau Creadigol, Manwerthu, Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol a'r sectorau Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol oll yn fwy tebygol o bennu graddau negyddol na rhai cadarnhaol. Ym maes Adeiladu a Lletygarwch, pennodd cyfrannau cymharol gyfartal raddau cadarnhaol a negyddol.

**Ffigur 6.1: Safbwyntiau cyflogwyr ynghylch argaeledd sgiliau Cymraeg ymhlith ymgeiswyr ar gyfer galwedigaethau allweddol, yn ôl sector a rhanbarth**



6.16 Gan ddefnyddio'r un raddfa, casglwyd safbwyntiau cyflogwyr hefyd ynghylch ansawdd sgiliau, (hy, hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith ymgeiswyr a chanddynt rai sgiliau Cymraeg). Dangosir y rhain yn Ffigur 6.2. Fel y gwelir, caiff y patrymau a ddisgrifir uchod o ran argaeledd sgiliau Cymraeg eu hailadrodd yn glir mewn perthynas ag ansawdd y sgiliau hynny. Unwaith eto, cyflogwyr Bwyd-amaeth, a chyflogwyr yng ngogledd Cymru, oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gadarnhaol eu barn ynglŷn â'r farchnad lafur (pennodd 58 y cant a 49 y cant, yn y drefn honno, radd gadarnhaol ar gyfer ansawdd sgiliau).

**Ffigur 6.2: Safbwyntiau cyflogwyr ynghylch ansawdd sgiliau Cymraeg ymhlith ymgeiswyr ar gyfer galwedigaethau allweddol, yn ôl sector a rhanbarth**



### Asesu sgiliau Cymraeg yn ystod y broses recriwtio

6.17 Asesodd tua un o bob wyth o sefydliadau (12 y cant) sgiliau Cymraeg ymgeiswyr, fel rhan o'u proses recriwtio. Roedd hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn y sectorau Gofal Plant (34 y cant), Creadigol (18 y cant) a Gofal Cymdeithasol (16 y cant). Yr oedd yn llai cyffredin yn y sector Manwerthu (8 y cant). Yn ôl rhanbarth, cyflogwyr yn ngogledd Cymru oedd yn fwyaf tebygol o asesu'r sgiliau hyn (21 y cant), a'r rhai yn ne-ddwyrain Cymru oedd yn lleiaf tebygol o wneud hynny (6 y cant).


6.18 Fel y dengys Ffigur 6.3, roedd y rhai a oedd yn asesu sgiliau yn gwneud hynny mewn sawl ffordd. Gan amlaf, roedd hyn yn digwydd ar lafar, drwy sgwrs anffurfiol â'r ymgeisydd, neu roedd yr holl gyfweiliad, neu ran ohono'n cael ei gynnal yn Gymraeg. Fel yr esboniodd cyflogwr:

*"Rwy'n siarad â'r ymgeiswyr i fesur lefel eu Cymraeg. Mae angen iddyn nhw fod yn ddigon hyderus i sgwrsio'n naturiol â rhieni a phlant. Gallaf weld a ydynt yn addas wrth gwrdd â nhw a siarad â nhw. Does dim rhaid iddyn nhw fod yn academiaidd iawn ac ysgrifennu llawer - mae siarad yn llawer pwysicach".*

#### Cyflogwr Gofal Plant, Gogledd Cymru

6.19 Fodd bynnag, gofynnai un o bob pump o'r rhai a asesai sgiliau Cymraeg yn rhan o'r broses recriwtio i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen gais neu lunio CV yn Gymraeg, ac adroddodd un o bob saith (14 y cant) eu bod wedi defnyddio asesiadau neu brofion llafar.

**Ffigur 6.3: Sut mae cyflogwyr yn asesu sgiliau Cymraeg ymgeiswyr**



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 6.20 Roedd cyflogwyr yn y sectorau Bwyd-amaeth ac Adeiladu yn debygol iawn o ddibynnu ar sgysiau anffurfiol i asesu sgiliau ymgeiswyr (61 y cant a 56 y cant yn y drefn honno), tra'r oedd asesu'r Gymraeg ar ffurflenni cais neu CV yn fwyaf cyffredin yn y sector Lletygarwch (37 y cant), y sector Gofal Cymdeithasol (33 y cant) a'r sector Gofal Plant (28 y cant).
- 6.21 Yn ddiddorol, soniodd y cyflogwr Lletygarwch a gafodd ei gyfweld yng ngham yr astudiaethau achos, ei fod wedi sylwi bod ymgeiswyr a chanddynt sgiliau Cymraeg gwan yn tueddu i organmol eu gallu yn ystod y broses hunanasesu wrth ymgeisio.

## **7 Cymwysterau a Hyfforddiant i ddatblygu Sgiliau Cymraeg**

- 7.1 Yn y bennod hon, edrychir ar nifer o faterion sy'n ymwneud â chymwysterau a sgiliau Cymraeg, yn enwedig:
- Y graddau y mae cyflogwyr yn dymuno cael cymwysterau galwedigaethol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg
  - A yw'n ofynnol gan gyflogwyr bod staff yn meddu ar gymwysterau Cymraeg penodol (ac os felly, pa gymwysterau a pha grwpiau galwedigaethol)
  - Pe bai cymwysterau Cymraeg yn darparu gwybodaeth am gymhwysedd dysgwyr mewn sgiliau penodol yn ogystal â rhoi gradd gyffredinol, cyfran y cyflogwyr a fyddai'n cael hynny'n ddefnyddiol.
  - Cyfran y cyflogwyr sy'n darparu hyfforddiant ar sgiliau Cymraeg, y mathau o ddarparwyr a ddefnyddir, unrhyw anhawster wrth ganfod cyrsiau addas, ac unrhyw weithgarwch anffurfiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg.

### **Cymwysterau galwedigaethol a chyflwyno cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg**

- 7.2 Mae'n ofynnol gan ddau o bob pum cyflogwr (40 y cant) i'r staff ar eu safle feddu ar dystysgrifau neu gymwysterau galwedigaethol penodol. Roedd hyn yn llawer amlycach yn y sector Gofal Cymdeithasol (83 y cant) a'r sector Gofal Plant (78 y cant), ac yn llawer llai amlwg ymhlith sefydliadau Manwerthu (24 y cant). Roedd y sefydliadau lleiaf a chanddynt lai na 10 aelod o staff yn llai tebygol na'r cyffredin o ofyn am gymwysterau galwedigaethol (37 y cant; ymhlith sefydliadau mwy, gofynnai 50-57 y cant am y cymwysterau hyn).
- 7.3 O blith y sefydliadau oedd yn gofyn bod gan staff dystysgrifau neu gymwysterau galwedigaethol, teimlai naw y cant ei bod hi'n fuddiol, neu y byddai'n fuddiol, cyflwyno'r holl hyfforddiant, neu gyfran o'r hyfforddiant ar gyfer y cymwysterau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg; mae hyn yn gyfwerth â phedwar y cant o'r holl sefydliadau yn y sectorau a drafodwyd yn yr ymchwil.
- 7.4 Ymhlith cyflogwyr lle'r oedd yn ofynnol cael cymwysterau galwedigaethol penodol, roedd y canlynol yn llawer mwy tebygol na'r cyffredin o deimlo bod, neu



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

y byddai hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn fuddiol ar gyfer y cymwysterau hynny:

- Cyflogwyr y sector Gofal Plant (24 y cant o'r rhai a ofynnai am gymwysterau galwedigaethol, sy'n gyfwerth ag 19 y cant o'r holl gyflogwyr yn y sector hwn)
- Sefydliadau Bwyd-amaeth (23 y cant o'r rhai a ofynnai am gymwysterau galwedigaethol, sydd gyfwerth â saith y cant o'r holl gyflogwyr Bwyd-amaeth)
- Y rheiny yng ngogledd Cymru (16 y cant) neu yng nghanolbarth Cymru (15 y cant) (gan gynrychioli oddeutu un o bob ugain cyflogwr yn y rhanbarthau hyn).
- Sefydliadau llywodraeth ganolog (22 y cant), llywodraeth leol (19 y cant) neu elusennol (18 y cant); ym mhob achos, mae hyn yn gyfwerth â bod oddeutu 10 y cant o'r mathau hyn o sefydliadau'n teimlo ei bod yn fuddiol, neu y byddai'n fuddiol cyflwyno hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg
- Y rheiny a farnai fod cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn i'w sefydliad (39 y cant)
- Y rheiny lle'r oedd gan yr holl staff sgiliau Cymraeg (30 y cant, o gymharu â saith y cant o'r rhai yr oedd gan rai aelodau o'u staff sgiliau Cymraeg, ac un y cant o'r rhai nad oedd gan yr un aelod o'u staff sgiliau Cymraeg).

### **Cymwysterau Cymraeg Penodol**

7.5 Roedd hi'n ofynnol gan un y cant o'r cyflogwyr i unrhyw staff ar eu safle feddu ar gymwysterau Cymraeg penodol. Roedd hyn rhywfaint yn fwy cyffredin yn y sector Gofal Plant (saith y cant) a'r sector Creadigol (tri y cant), ac ymhlith sefydliadau llywodraeth ganolog (naw y cant), neu rai a weithredai fel elusennau neu yn y sector gwirfoddol (pedwar y cant).

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 7.6 Mae'r niferoedd sylfaen yn rhy isel i ddweud gydag unrhyw hyder ar gyfer pa alwedigaethau penodol y mae angen cymwysterau Cymraeg penodol, a pha gymwysterau sydd eu hangen, ond mae'r canlyniadau'n awgrymu bod y gofyniad hwn yn effeithio ar yr ystod lawn o grwpiau galwedigaethol, o swyddi rheoli (ar draws pob sector) a rolau proffesiynol (yn enwedig yn y sector Gofal Plant, y sector Gofal Cymdeithasol a'r sector Creadigol), i rolau sylfaenol (fel swyddi gweini yn y sector Lletygarwch).
- 7.7 Ymhlith y cyflogwyr yr oedd angen cymwysterau Cymraeg penodol arnynt (sylfaen o 95 o ymatebwyr), teimlai'r mwyafrif (69 y cant) y byddai'n fuddiol pe bai cymwysterau Cymraeg yn darparu gwybodaeth am gymhwysedd dysgwyr mewn sgiliau penodol (fel deall Cymraeg llafar, siarad Cymraeg ac ati) yn ogystal â darparu gradd gyffredinol. Mae hyn yn gyfwerth ag un (0.9) y cant o'r holl gyflogwyr.

### **Hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddatblygu sgiliau Cymraeg**

- 7.8 Dros y 12 mis diwethaf, roedd pedwar y cant o sefydliadau ar draws yr wyth sector wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant wedi'i gynllunio'n benodol i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynyddu i 12 y cant ymhlith rhai a chanddynt 50 neu fwy o staff.
- 7.9 Cafwyd amrywiadau eang yn ôl sector: yn y sector Gofal Plant, roedd bron i draean (31 y cant) wedi darparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y 12 mis diwethaf, ac roedd y ffigur yn uwch na'r cyffredin yn y sectorau Lletygarwch (naw y cant), Gofal Cymdeithasol (saith y cant) a'r Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol (chwech y cant). Ar y llaw arall, yn y sectorau Adeiladu, Bwyd-amaeth a Manwerthu, dim ond un y cant o gyflogwyr oedd wedi ariannu neu drefnu'r math hwn o hyfforddiant (yn y sector Bwyd-amaeth, mae hyn yng nghydestun lefelau hyfedredd sydd eisoes yn uchel, fel y trafodwyd ym mhennod 3).
- 7.10 Cafwyd amrywio ehangach fyth yn ôl math o sefydliad, gyda sefydliadau llywodraeth leol (45 y cant), llywodraeth ganolog (27 y cant), ac yn y sector elusennol neu wirfoddol (15 y cant) yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod wedi trefnu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg dros y 12 mis diwethaf, o gymharu ag ond dau y cant o sefydliadau sy'n ceisio creu elw.


## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- 7.11 Roedd sefydliadau a chanddynt swyddi anodd eu llenwi dros y 12 mis diwethaf, yn rhannol o leiaf oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith ymgeiswyr, yn fwy tebygol o fod wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg (19 y cant).
- 7.12 Roedd ychydig dros chwarter (26 y cant) y sefydliadau a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg wedi trefnu neu ariannu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn ystod y 12 mis diwethaf, o gymharu â dau y cant nad oedd ganddynt bolisi neu gynllun o'r fath.

### Mathau o ddarparwyr hyfforddiant a ddefnyddiwyd i gyflwyno hyfforddiant ar sgiliau Cymraeg

- 7.13 Defnyddiwyd amrywiaeth o fathau gwahanol o ddarparwyr yn ystod y 12 mis blaenorol i gyflwyno hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg, ac nid oedd yr un math o ddarparydd yn amlycach na'r gweddill. Nid oedd saith y cant o'r cyflogwyr hyn wedi defnyddio darparydd allanol, gan ddefnyddio eu staff eu hunain i ddarparu'r hyfforddiant dan sylw (roedd hyn yn fwy cyffredin yn y sector Gofal Cymdeithasol (17 y cant)).

### Ffigur 7.1: Mathau o ddarparwyr hyfforddiant a ddefnyddiwyd i gyflwyno hyfforddiant ar sgiliau Cymraeg



**Anhawster wrth gael hyd i gyrsiau hyfforddi i staff ar sgiliau Cymraeg**

- 7.14 Rydym wedi gweld bod pedwar y cant o gyflogwyr yn y sectorau a drafodwyd yn yr ymchwil wedi darparu hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Mae'n ddiddorol gweld i ba raddau y cyfyngir ar hyfforddiant yn y maes hwn gan (ganfyddiad o) ddiffyg cyflenwad. At ei gilydd, nid oedd dau y cant o gyflogwyr erioed wedi cael anhawster yn cael hyd i gyrsiau hyfforddi priodol. Dylid nodi fodd bynnag nad oedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (88 y cant) erioed wedi ymchwilio i'r cyrsiau hyfforddi Cymraeg a oedd ar gael.
- 7.15 O bell ffordd, cyflogwyr y sector Gofal Plant oedd y mwyaf tebygol o fod wedi cael anhawster yn cael hyd i hyfforddiant Cymraeg (25 y cant). Yn rhannol, mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r ffaith mai cyflogwyr yn y sector hwn oedd y mwyaf tebygol o bell ffordd o fod wedi chwilio am hyfforddiant o'r fath (roedd mwy na thri o bob pump wedi gwneud hynny; yn y sector nesaf uchaf, Gofal Cymdeithasol, roedd llai nag un o bob pump wedi chwilio am y cyrsiau hyn). Yn y sector Gofal Cymdeithasol a'r sector Creadigol, roedd pump y cant o gyflogwyr wedi'i chael hi'n anodd cael hyd i gyrsiau hyfforddi Cymraeg priodol.
- 7.16 Yn ôl maint, ychydig o amrywio a gafwyd i'r gyfran oedd yn ei chael hi'n anodd cael hyd i hyfforddiant Cymraeg priodol (2-4 y cant ym mhob un o'r bandiau maint). Roedd cyflogwyr mwy yn fwy tebygol o fod wedi chwilio am y math hwn o hyfforddiant, felly yn ôl y canlyniadau, o blith y cyflogwyr a oedd wedi chwilio'n wirioneddol am gyrsiau hyfforddi Cymraeg, roedd cyflogwyr mwy wedi cael llai o anhawster yn cael hyd i ddarpariaeth briodol.
- 7.17 Ychydig o amrywio a gafwyd yn ôl rhanbarth, er bod cyflogwyr yng ngogledd Cymru fymryn yn fwy tebygol o fod wedi chwilio am hyfforddiant Cymraeg.

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 7.1: A yw cyflogwyr wedi cael anawsterau wrth gael hyd i gyrsiau hyfforddi Cymraeg priodol, yn ôl sector a rhanbarth**


Canrannau rhes	Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector		Do	Naddo	Erioed wedi edrych
Pawb	4,026	%	2	8	88
<b>Sector</b>					
Gofal Plant	425	%	25	37	36
Gofal Cymdeithasol	581	%	5	13	80
Creadigol	291	%	5	10	83
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	460	%	3	8	87
Lletygarwch	1,010	%	2	15	81
Bwyd-amaeth	459	%	1	5	94
Manwerthu	454	%	*	4	95
Adeiladu	346	%	*	3	96
<b>Rhanbarth</b>					
Gogledd Cymru	1,059	%	2	12	85
Canolbarth Cymru	827	%	1	8	89
De-orllewin Cymru	1,026	%	3	7	89
De-ddwyrain Cymru	1,114	%	2	7	90
<b>Maint</b>					
2-9	2,161	%	2	8	89
10-24	1,024	%	3	9	86
25-49	523	%	2	10	85
50-99	209	%	4	13	79
100+	109	%	2	22	75

Sylwer: Nid yw pob rhes yn creu cyfanswm o 100%, gan na ddangosir y rhai a atebodd 'ddim yn gwybod' (2 y cant o'r holl ymatebwyr).

'-' = 0 y cant, '\*' => 0 y cant ond <0.5 y cant.

Dengys Ffigur 7.2 y prif anawsterau a gafwyd.

**Ffigur 7.2: Anawsterau a gafwyd wrth gael hyd i gyrsiau hyfforddi Cymraeg (digymell)**



7.18 Dyma'r tri phrif anhawster a gafodd cyflogwyr wrth ganfod hyfforddiant Cymraeg priodol: cyrsiau heb fod yn ddigon lleol (35 y cant), amserau dechrau cyrsiau'n anghyfleus, neu heb fod yn ddigon hyblyg (35 y cant, er bod hyn yn broblem neilltuol yng ngogledd Cymru (51 y cant)), a chyrsiau'n rhy ddrud (30 y cant, er bod cyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru yn fwy tebygol o grybwyll hyn i raddau sylweddol (40 y cant))

7.19 Cwynodd un o bob wyth a oedd wedi profi anawsterau (13 y cant) nad oedd darparwyr yn gallu neu'n barod i addasu cyrsiau yn unol â dymuniadau'r cyflogwr.


### **Gweithgareddau Hyfforddi Anffurfiol**

7.20 Yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi ariannu neu drefnu unrhyw weithgareddau anffurfiol gyda'r nod o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn gyffredinol, roedd 2 y cant o'r sefydliadau wedi gwneud hynny. Roedd hyn yn uwch ymhlith:

- Sefydliadau a chanddynt 100 neu fwy o aelodau staff (11 y cant)
- Sefydliadau yn y sector Gofal Plant (20 y cant) a'r sector Lletygarwch (pump y cant)
- Sefydliadau llywodraeth ganolog (30 y cant), llywodraeth leol (naw y cant) ac elusennol / gwirfoddol (naw y cant); o ran cymharu, un y cant o sefydliadau'r sector preifat a oedd wedi darparu'r gweithgareddau anffurfiol hyn
- Y rhai a drefnodd hyfforddiant ffurfiol yn y 12 mis blaenorol (18 y cant)
- Y rhai a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (14 y cant).

7.21 Y prif weithgaredd anffurfiol a gynhaliwyd oedd grwpiau sgwrsio, a grybwyllwyd gan bron ddau draean o'r cyflogwyr hyn (64 y cant). Rhestrir yr ymatebion yn Ffigur 7.3

**Ffigur 7.3: Gweithgareddau anffurfiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg (digymell)**



7.22 Mae'r gweithgareddau anffurfiol hyn yn tueddu i ddigwydd yn gymharol fynych: ymhlith bron hanner ohonynt (48 y cant) roeddent yn digwydd bob wythnos, ac ymhlith 13 y cant roeddent yn digwydd bob mis. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu traean a nododd fod y gweithgareddau'n cael eu cynnal bob chwarter, neu'n llai aml na hynny (34 y cant).

### **Systemau neu ddulliau ar gyfer mesur lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith staff**

7.23 Prin yw'r ymwybyddiaeth o systemau neu ddulliau penodol ar gyfer mesur lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith staff: dim ond tri y cant o gyflogwyr yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil oedd yn ymwybodol o unrhyw systemau neu ddulliau penodol i'r perwyl hwnnw.<sup>9</sup> Roedd hyn yn uwch ymhlith:

- Rhai yn y sectorau Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol (wyth y cant yn y naill a'r llall)
- Rhai a chanddynt 50 neu fwy o gyflogeion (naw y cant)

<sup>9</sup> Yn seiliedig ar gwestiwn digymell.



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

- Cyflogwyr llywodraeth ganolog a llywodraeth leol (27 y cant a 24 y cant, yn y drefn honno)
- Rhai sy'n trefnu unrhyw hyfforddiant neu weithgaredd anffurfiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg (18 y cant)
- Rhai a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (15 y cant).

7.24 Y prif fathau o ddulliau neu systemau a grybwyllwyd oedd asesiadau gan y cyngor lleol neu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (21 y cant), cyrsiau'n gyffredinol (18 y cant), archwiliadau neu arolygon amhenodol rheolaidd (18 y cant), fframweithiau/cymwysterau (chwech y cant) ac asesiadau gan Ganolfan/Gymdeithas Gymraeg / Menter Iaith / sefydliad arall (pump y cant). Nododd cyfran weddol uchel (17 y cant) eu bod yn ymwybodol o systemau a dulliau penodol, ond nad oeddent yn gallu eu henwi na manylu arnynt.

### **A yw sefydliadau'n cofnodi, yn mesur neu'n asesu lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith staff**

- 7.25 Mae tri y cant o'r cyflogwyr yn yr wyth sector yn cofnodi, yn mesur neu'n asesu lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith eu staff.
- 7.26 Mae hyn yn llawer mwy cyffredin yn y sectorau Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol (24 y cant ac 13 y cant, yn y drefn honno; pump y cant neu lai oedd y ffigur ym mhob sector arall); ymhlith rhai a chanddynt 50 neu fwy o staff (16 y cant); rhai ym maes llywodraeth ganolog (21 y cant); llywodraeth leol (16 y cant); ac yn y sector elusennol / gwirfoddol (14 y cant); a rhai a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (19 y cant).
- 7.27 Roedd amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio i gofnodi, mesur neu asesu lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith staff. Y dull mwyaf cyffredin oedd asesiad mewnol anffurfiol (59 y cant), ac asesiad aelodau staff o'u lefel eu hunain (55 y cant).

**Tabl 7.2: Dulliau a ddefnyddir i gofnodi, mesur neu asesu lefel y sgiliau Cymraeg ymhlith staff (dewis o blith opsiynau)**

<i>Sylfaen: y cyflogwyr hynny sy'n cofnodi, yn mesur neu'n asesu lefel sgiliau Cymraeg eu staff (298)</i>	%
Drwy asesiad mewnol anffurfiol, megis trafodaethau rhwng cydweithwyr	59
Drwy asesiad yr aelod o'r staff ei hun	55
Seiliedig ar eu cymwysterau ffurfiol	37
Drwy asesiad allanol ffurfiol, megis asesiad gan diwtor iaith	14
Drwy asesiad mewnol ffurfiol, megis profion ysgrifenedig neu lafar, asesiadau ar-lein, neu ddefnyddio fframweithiau cymhwysedd neu ddulliau diagnostig	13
Arall	5
Ddim yn gwybod	2

## 8 Deddfwriaeth a pholisi

- 8.1 Yn y bennod fer hon, edrychir ar nifer o faterion sy'n ymwneud â deddfwriaeth a pholisi, gan gynnwys a yw sefydliadau yn yr wyth sector wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg neu Bolisi Iaith Gymraeg ai peidio, ac ymwybyddiaeth ymatebwyr o'r polisiau hynny.
- 8.2 Ar adeg cynnal ein harolwg, nid oedd gofynion deddfwriaeth iaith ond yn berthnasol i leiafrif yn unig o'r sefydliadau a oedd yn cymryd rhan, sef y rhai a oedd yn ymateb ar ran gwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Nid oedd unrhyw ofynion na gorchymyn allanol tebyg i fwyafrif yr ymatebwyr fabwysiadu unrhyw fath o bolisi ar gyfer y Gymraeg. Er gwaethaf yr ystyriaeth hon, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn ymwybodol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ac yn deall y ddeddfwriaeth honno, ac a oeddent wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Trafodir eu hymateb yn yr adran hon.
- 8.3 Mae angen crybwyll newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf, greu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Cafodd y cynlluniau hyn eu cymeradwyo a'u monitro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a sefydlodd yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn sgil y Mesur, sefydlwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg, a diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 8.4 Cynlluniau statudol sy'n ofynnol yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac a grëwyd gan gyrff cyhoeddus fel y'u diffinnir yn y Ddeddf, yw'r rhan fwyaf o Gynlluniau Iaith Gymraeg. Mae'r diffiniad "cyrff cyhoeddus" yn cynnwys cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru, cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yr heddlu, y llysoedd ac asiantaethau eraill sy'n gweinyddu cyfiawnder, yr awdurdodau tân, ymddiriedolaethau / byrddau iechyd rhanbarthol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ati. Cafodd dros 500 o gynlluniau o'r fath eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Maent yn dal yn weithredol, ond bellach yn cael eu monitro gan y

Comisiynydd Iaith tra bo safonau'n cael eu paratoi yn unol â Mesur y Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg hefyd yn sefydlu fframwaith i orfodi dyletswydd ar rai cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector i gydymffurfio â'r safonau.

- 8.5 Yn ychwanegol at y Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol, cafodd cynlluniau gwirfoddol eu creu gan sefydliadau a oedd y tu hwnt i gwmpas Deddf 1993, ond a benderfynodd greu cynllun ohonynt eu hunain er hynny. Sefydliadau trydydd sector oedd nifer o'r rhai a berthynai i'r categori hwn. Roedd y sefydliadau hynny'n awyddus i ddangos ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg, yn aml fel mater a oedd yn gysylltiedig â chydarddoldeb, fel arwydd o ofal cwsmeriaid da neu yn yr ysbryd o gydymffurfio â pholisi cyhoeddus ynglŷn â'r Gymraeg. Er i'r cynlluniau gwirfoddol hyn hefyd gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd, nid oeddent yn ddarostyngedig i'r un gofynion a'r drefn monitro statudol â chynlluniau statudol.
- 8.6 Yn ychwanegol at y trefniadau hyn ar gyfer creu, cymeradwyo a mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol neu wirfoddol, dewisodd nifer o sefydliadau lunio a mabwysiadu eu polisiau eu hunain ar gyfer eu defnydd o'r Gymraeg. Lluniwyd y polisiau hyn yn fewnol fel arfer, ac er bod rhai ohonynt wedi mabwysiadu rhai agweddau ar y cynlluniau uchod, neu eiriad y cynlluniau hynny, cafodd polisiau eraill eu llunio'n gyfan gwbl gan y sefydliad ei hun. Dilynodd sawl menter o'r sector preifat y trywydd hwn. Tra'r oedd yn weithredol, cynigiai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyngor ac arweiniad i gynorthwyo sefydliadau o'r trydydd sector a'r sector preifat naill ai i lunio cynllun gwirfoddol neu bolisi mewnol ar ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg.
- 8.7 Mae'n bosib bod ymatebwyr yr arolwg a nododd fod gan eu sefydliad bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg, ond nad oeddent wedi cymryd unrhyw ran yn y broses o'i greu neu o'i weithredu, yn ansicr ynghylch pa un o'r uchod a weithredir gan eu cyflogwr. Mae hyn yn amlwg o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg.

### Polisiâu neu Gynlluniau Iaith Gymraeg

- 8.8 At ei gilydd, roedd gan 10 y cant o sefydliadau yn yr wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (ac roedd pump y cant arall yn ansicr ynghylch hyn). Pan ofynnwyd iddynt am natur y cynllun neu'r polisi, dywedodd tri y cant o'r holl gyflogwyr mai Cynllun Iaith Gymraeg ydoedd dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Nododd yr un gyfran mai polisi gwirfoddol ar gyfer y Gymraeg ydoedd (roedd gan dri y cant bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg, ond roeddent yn ansicr a oedd y polisi neu'r cynllun hwnnw'n wirfoddol neu dan delerau Deddf 1993).
- 8.9 Dengys tabl 8.1 y tebygolrwydd o fod â chynllun neu bolisi, ac a oedd y cynllun neu'r polisi hwnnw dan delerau Deddf 1993, yn ôl newidynnau demograffig allweddol.
- 8.10 Mewn ychydig dros ddau o bob pum safle llywodraeth leol (43 y cant) a thraean o safleoedd llywodraeth ganolog (35 y cant), gwyddai'r ymatebwr fod gan y safle Gynllun Iaith Gymraeg dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<sup>10</sup>. Roedd hyn yn wir yn achos un y cant o sefydliadau sector preifat. Roedd gwahaniaethau yn ôl maint yn llai amlwg, er mai'r cwmnïau bach a chanddynt lai na 10 aelod o staff oedd y lleiaf tebygol o fod â chynllun neu bolisi.

---

<sup>10</sup> Nid yw'r ymatebion hyn gan y cyfweleion yn gyson â'r ffaith bod **holl** awdurdodau lleol Cymru, ynghyd ag adrannau o Lywodraeth Cymru, a llawer o adrannau yn Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol, ac yn gweithredu'r cynlluniau hynny. Gellir tybio felly fod yr ymatebion yn adlewyrchu i ba raddau y mae'r ymatebwyr yn ymwybodol o bolisiâu eu cyflogwr, yn hytrach na gwir natur y polisiâu hynny.

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

**Tabl 8.1: A oes gan y sefydliad bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg, yn ôl math, sector a maint y sefydliad**

Canrannau rhes	Syfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector		Unrhyw bolisi neu gynllun	Cynllun dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993	Cynllun gwirfoddol	Polisi gwirfoddol	Math arall o bolisi neu gynllun	Yn meddu ar bolisi neu gynllun ond heb wybod beth yw ei natur / math	Ddim yn gwybod a oes polisi / cynllun ai peidio
Pawb	4,026	%	10	3	*	3	*	3	5
<b>Math o sefydliad</b>									
Llywodraeth leol	280	%	77	43	2	6	*	26	10
Llywodraeth ganolog	50	%	65	35	-	16	1	14	7
Sector elusennol / gwirfoddol	413	%	38	7	2	15	1	13	13
Yn ceisio creu elw	3,263	%	5	1	*	2	*	1	4
<b>Sector</b>									
Lletygarwch	1,010	%	18	9	*	4	*	5	6
Gofal Plant	425	%	44	8	3	18	3	12	5
Gofal Cymdeithasol	581	%	31	6	1	10	1	13	9
Bwyd-amaeth	459	%	3	1	*	2	*	*	2
Creadigol	291	%	12	2	1	7	*	2	3
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	460	%	9	2	1	4	-	2	4
Manwerthu	454	%	5	1	-	1	-	3	9
Adeiladu	346	%	2	1	-	1	-	*	1
<b>Maint</b>									
2-9	2,161	%	8	2	*	3	*	2	4
10-24	1,024	%	17	5	1	5	*	7	9
25-49	523	%	16	3	1	6	*	5	8
50-99	209	%	27	8	1	8	-	10	8
100+	109	%	19	10	*	2	-	6	10


\* = 0%, \*\* => 0% ond llai na 0.5%.

8.11 O edrych yn fras yn ôl sector, mae'r canlyniadau i raddau helaeth yn adlewyrchu amlygrwydd cyrff o'r sector cyhoeddus neu sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau contract trydydd parti ar ran cyrff cyhoeddus. Y sectorau hynny lle'r oedd hyn yn digwydd amlaf (Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol a Lletygarwch) oedd y sectorau a oedd yn fwyaf tebygol o fod â Chynllun Iaith Gymraeg dan delerau Deddf 1993. Roedd cyflogwyr y sector Gofal Plant yn arbennig o debygol o ddefnyddio cynlluniau neu bolisiau gwirfoddol (21 y cant), ac roedd y gyfran a ddefnyddiai gynlluniau gwirfoddol neu bolisiau gwirfoddol hefyd yn uwch na'r cyffredin yn y sector Gofal Cymdeithasol (11 y cant) a'r sector Creadigol (wyth y cant).

### **Lefel yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle**

8.12 Teimlai un o bob deuddeg ymatebwr (wyth y cant) fod ganddo ddealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, ac roedd gan draean o'r ymatebwyr beth dealltwriaeth ynghylch hynny. Roedd lefel y ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth yn llawer uwch ymhlith sefydliadau a oedd yn rhan o'r sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol nag ymhlith cwmnïau preifat. Nid yw hyn yn syndod o gwbl, gan mai'r sefydliadau hynny yr oedd deddfwriaeth iaith yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt. Teimlai tua un o bob pum ymatebwr a weithiai i sefydliadau llywodraeth leol neu lywodraeth ganolog fod ganddo ddealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle (23 ac 19 y cant, yn y drefn honno), o gymharu â saith y cant o gyflogwyr y sector preifat. Cymharol brin oedd y rhai a chanddynt ddealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth yn y sector elusennol / gwirfoddol (10 y cant), ond roedd gan y rhan fwyaf o'r rheiny beth dealltwriaeth o leiaf (62 y cant). Dangosir y canlyniadau yn ôl math o gyflogwr ar y siart canlynol.

**Ffigur 8.1: Lefel gyffredinol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, yn ôl math o gyflogwr**



8.13 Yn ôl sector, hyd yn oed yn y tri sector lle honnodd mwyafrif yr ymatebwyr fod ganddynt beth dealltwriaeth o leiaf (Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol a'r sector Creadigol), ychydig (tua un o bob deg) a deimlai fod eu dealltwriaeth yn dda (roedd hyn ar ei uchaf yn y sector Gofal Plant, sef 13 y cant). Adeiladu oedd y sector a chanddo'r lefel isaf o ymwybyddiaeth: nododd tua thri chwarter (76 y cant) nad oeddent yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle.

8.14 Roedd cyflogwyr yn ne-ddwyrain Cymru yn llai tebygol na chyflogwyr y rhanbarthau eraill o fod â dealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth (chwech y cant, o gymharu ag wyth y cant yn ne-orllewin Cymru, naw y cant yng nghanolbarth Cymru, ac 11 y cant yng ngogledd Cymru).

8.15 Roedd sefydliadau lle defnyddiai'r holl staff y Gymraeg yn y gwaith yn fwy tebygol o fod â dealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth (23 y cant, o gymharu â naw y cant o'r rhai lle'r oedd rhai o'r staff yn defnyddio'r Gymraeg, a chwech y cant o'r rhai lle nad oedd yr un aelod o staff yn defnyddio'r Gymraeg).



### **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

- 8.16 Fel y dengys Tabl 8.2, roedd un o bob un ar ddeg o ymatebwyr (naw y cant) wedi clywed am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 8.17 Roedd hyn yn llawer uwch ymhlith cyflogwyr llywodraeth ganolog (22 y cant), llywodraeth leol (19 y cant) a'r sector elusennol/gwirfoddol (18 y cant) nag ymhlith sefydliadau'r sector preifat (wyth y cant). Yn gysylltiedig â hyn, roedd yr ymwybyddiaeth yn llawer uwch ymhlith sefydliadau a chanddynt bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (23 y cant) na'r rhai heb bolisi neu gynllun o'r fath (wyth y cant).
- 8.18 Yn ôl sector benodol, roedd yr ymwybyddiaeth yn sylweddol uwch ymhlith cyflogwyr yn y sectorau Gofal Plant (21 y cant), Creadigol (16 y cant), Gofal Cymdeithasol (14 y cant) a Bwyd-amaeth (12 y cant), ac yn sylweddol is yn y sectorau Adeiladu (pedwar y cant) a Manwerthu (chwech y cant).
- 8.19 Nid oedd yr ymwybyddiaeth yn amrywio rhyw lawer yn ôl maint sefydliadau nac yn ôl rhanbarth.
- 8.20 Roedd lleiafrif o'r rhai a oedd yn ymwybodol o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn meddwl y byddai'n cael effaith sylweddol (saith y cant) neu ychydig o effaith (21 y cant) ar eu sefydliad yn y dyfodol (er bod naw y cant yn ansicr ynghylch hyn).
- 8.21 Y cyflogwyr yn y sectorau Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol (a oedd yn ymwybodol o Fesur 2011) oedd yn fwyaf tebygol o ragweld y byddai'n cael effaith fach ar eu sefydliad. Ceir crynodeb o'r canlyniadau yn Nhabl 8.2, gyda'r sectorau mewn trefn ddisgynnol yn ôl y nifer a nododd y byddai'r Mesur yn cael effaith sylweddol.
- 8.22 Roedd cyflogwyr llywodraeth leol (25 y cant) a chyflogwyr a chanddynt rhwng 10 a 49 o aelodau staff (18 y cant) a oedd yn ymwybodol o Fesur 2011 yn llawer mwy tebygol na'r cyffredin o ystyried y byddai'n cael effaith sylweddol ar eu sefydliad yn y dyfodol.
- 8.23 Rhagwelwyd amrywiaeth o oblygiadau gan gyflogwyr, gan gynnwys yr angen i recriwtio mwy o staff â sgiliau Cymraeg (15 y cant o'r rhai a oedd yn rhagweld y byddai Mesur 2011 yn effeithio arnynt), yr angen i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg am y tro cyntaf (15 y cant), mwy o ddefnydd o'r Gymraeg neu ddwyieithrwydd ymhlith staff (12 y cant), yr angen i ddarparu mwy o hyfforddiant Cymraeg (11 y cant), a'r angen i ddiwygio eu Cynllun Iaith Gymraeg i

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (10 y cant). Roedd cyfran weddol uchel o'r rhai a ragwelai effaith yn sgil y Mesur yn ansicr ynghylch union natur y goblygiadau i'w sefydliad (23 y cant).

**Tabl 8.2: Ymwybyddiaeth o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac os oes ymwybyddiaeth ohono, ei effaith debygol ar y sefydliad yn y dyfodol, yn ôl sector, math o sefydliad, maint a rhanbarth**

Canrannau rhes ar wahân i'r golofn gyntaf o ganrannau	Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector	Ymwybodol	Sylfaen: pob cyflogwr sy'n ymwybodol o'r Mesur		Effaith os oes ymwybyddiaeth ....			
					Syl.	Bach	Dim effaith	Ddim yn gwybod
Pawb	4,026	9%	486	%	7	21	63	9
<b>Sector</b>								
Gofal Plant	425	21%	96	%	18	48	20	14
Gofal Cymdeithasol	581	14%	96	%	12	40	39	9
Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol	460	9%	51	%	12	22	59	7
Creadigol	291	16%	*46	%	11*	27*	53*	9*
Lletygarwch	1,010	11%	98	%	6	29	51	14
Manwerthu	454	6%	*28	%	2*	12*	68*	18*
Bwyd-amaeth	459	12%	54	%	2	10	88	-
Adeiladu	346	4%	17^	%	^	^	^	^
<b>Math o sefydliad</b>								
Llywodraeth leol	280	19%	64	%	25	43	19	12
Elusennol / gwirfoddol	413	18%	84	%	16	39	35	10
Llywodraeth ganolog	50	22%	14^	%	^	^	^	^
Yn ceisio creu elw	3263	8%	319	%	3	16	73	8

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Canrannau rhes ar wahân i'r golofn gyntaf o ganrannau	Sylfaen: Yr holl sefydliadau o'r 8 sector	Ymwybodol	Effaith os oes ymwybyddiaeth ...					
			Sylfaen: pob cyflogwr sy'n ymwybodol o'r Mesur	Syl.	Bach	Dim effaith	Ddim yn gwybod	
<b>Maint</b>								
2-9	2,161	9%	229	%	3	18	69	9
10-24	1,024	11%	149	%	17	30	45	8
25-49	523	10%	58	%	19	30	40	11
50+	318	12%	50	%	12	41	38	9
<b>Rhanbarth</b>								
Gogledd Cymru	1,059	11%	139	%	7	24	63	6
Canolbarth Cymru	827	11%	92	%	7	18	72	3
De-orllewin Cymru	1,026	9%	117	%	7	24	57	12
De-ddwyrain Cymru	1,114	9%	138	%	5	19	63	13

<sup>^</sup> = Sylfaen isel o lai na 25 o gyflogwyr, felly ni ddangosir y ffigurau. Lle nodir \* wrth ymyl y ffigurau, mae'r niferoedd sylfaen yn isel, felly dylid eu trin yn ofalus.

'-' = 0%.

## **9 Cymorth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle**

- 9.1 Yn y bennod hon, edrychir ar y defnydd o wybodaeth, cyngor a chymorth busnes sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, a'r bodlonrwydd â hynny. Ystyrir hefyd a fyddai sefydliadau nad oeddent wedi defnyddio gwybodaeth, cyngor a chymorth o'r fath o'r blaen yn gwybod o le i'w cael.

### **Defnydd o wybodaeth, cyngor neu gymorth busnes sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle, a'r bodlonrwydd â hynny.**

- 9.2 At ei gilydd, roedd pedwar y cant o gyflogwyr yn y sectorau a drafodir yn yr ymchwil wedi gofyn am unrhyw wybodaeth, cyngor neu gymorth busnes ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf.
- 9.3 Roedd y sefydliadau mwyaf (a chanddynt fwy na 100 o staff) yn fwy tebygol o fod wedi gofyn am wybodaeth, cyngor neu gymorth (13 y cant), a hefyd y sefydliadau yn y sectorau Gofal Plant (13 y cant), Creadigol (wyth y cant) a Gofal Cymdeithasol (saith y cant). Yn y sectorau Adeiladu, Manwerthu a Bwyd-amaeth, dau y cant neu lai oedd wedi gofyn am wybodaeth, cyngor neu gymorth o'r fath ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd sefydliadau llywodraeth leol hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gofyn am wybodaeth neu gyngor (23 y cant, o gymharu ag ond dau y cant o sefydliadau sy'n ceisio creu elw).
- 9.4 Gofynnwyd am gymorth ar amrywiaeth weddol eang o faterion, gan gynnwys agweddau fel: arwyddion, dogfennau neu gynnwys ar-lein yn y Gymraeg (28 y cant o'r rhai a oedd wedi gofyn am gyngor); hyfforddiant sgiliau yn y Gymraeg, e.e. sut i ganfod darparwyr neu gyrsiau addas (24 y cant); materion sy'n ymwneud â chyfieithu (14 y cant); goblygiadau cyfreithiol parthed darpariaeth yn y Gymraeg/materion cydymffurfiaeth (11 y cant); sut i gael y budd mwyaf o fod â sgiliau yn y Gymraeg (naw y cant); a chymorth ynghylch datblygu polisi neu Gynllun Iaith Gymraeg (chwech y cant).
- 9.5 Gofynnwyd am gymorth o amrywiaeth eang o ffynonellau, rhai ffurfiol ac anffurfiol, ac nid oedd yr un sefydliad na thrywydd yn amlycach na'r gweddill, fel y dengys y tabl canlynol.

**Tabl 9.1: Lle'r aethpwyd i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth ynglŷn â'r Gymraeg yn y gweithle (digymell)**

<i>Sylfaen: y rhai a ofynnodd am wybodaeth, cyngor neu gymorth ynglŷn â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf (250)</i>	%
Y Cyngor Lleol	18
Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Y Comisiynydd Iaith	17
Cydweithiwr, ffrind neu aelod o'r teulu	16
Llywodraeth Cymru / gwefan Llywodraeth Cymru	14
Ffynonellau ar-lein cyffredinol	11
Coleg, prifysgol, neu ddarparwr hyfforddiant neu Ganolfan Cymraeg i Oedolion	10
Cysylltiadau / rhwydweithiau busnes	6
Menter Iaith (rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg yn y gymuned)	3
Menter a Busnes	2
Cyrff o sector penodol	2
Asiantaethau cymorth busnes eraill	1
Cyfieithwyr	1
Arall	9
Ddim yn gwybod	7


9.6 Ymhlith y rhai a oedd wedi defnyddio gwybodaeth, cyngor a chymorth busnes yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf, ceir lefel uchel o fodlonrwydd â'r cymorth a gafwyd. Roedd bron naw o bob deg yn fodlon iawn (51 y cant) neu'n weddol fodlon (36 y cant), ac roedd tri y cant yn anfodlon (yn ychwanegol at hyn, roedd tri y cant heb fod yn fodlon nac yn anfodlon, ac roedd saith y cant yn ansicr).

9.7 Ychydig o wahaniaethau a gafwyd yn ôl maint neu sector yn y safbwyntiau ynghylch ansawdd y cymorth sydd ar gael (er y dylid nodi'r niferoedd sylfaen isel).

**I le y byddai sefydliadau'n mynd i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth am y Gymraeg**

- 9.8 Gofynnwyd i'r mwyafrif helaeth o gyflogwyr nad oeddent wedi gofyn am wybodaeth, cyngor na chymorth busnes yn y 2-3 blynedd diwethaf yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn y gweithle a fyddent yn gwybod ymhle i chwilio am y cymorth hwnnw pe bai'r angen yn codi. Ni fyddai bron hanner y cyflogwyr hyn (45 y cant) yn gwybod o le i gael gwybodaeth neu gyngor o'r fath.
- 9.9 Yn ôl sector, sefydliadau'r sectorau Bwyd-amaeth a Manwerthu oedd yn lleiaf hyderus ynghylch lle'r oedd y math hwn o wybodaeth neu gyngor ar gael (58 y cant a 50 y cant yn ansicr, yn y drefn honno). Yn ôl y math o gyflogwr, roedd diffyg gwybodaeth am ffynonellau cymorth yn llawer mwy cyffredin ymhlith sefydliadau'r sector preifat (48 y cant) na sefydliadau elusennol neu wirfoddol (29 y cant), a sefydliadau llywodraeth ganolog (15 y cant) neu lywodraeth leol (10 y cant).
- 9.10 Roedd cyflogwyr yng nghanolbarth Cymru nad oeddent wedi ceisio cyngor yn ddiweddar am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle hefyd yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod yn ansicr ynghylch lle y gellid cael y cymorth hwn (52 y cant; roedd hyn yn cymharu â 40 y cant yng ngogledd Cymru).
- 9.11 Fel y dengys Ffigur 9.1, dywedodd sefydliadau nad oeddent wedi gofyn am unrhyw wybodaeth, cyngor neu gymorth am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg y byddent yn fwyaf tebygol o ddefnyddio ffynonellau ar-lein cyffredinol (26 y cant) neu o geisio cyngor gan Lywodraeth Cymru, e.e. oddi ar wefannau'r Llywodraeth (15 y cant).

**Ffigur 9.1: I le y byddai sefydliadau nad ydynt wedi derbyn cyngor am y Gymraeg yn ddiweddar yn mynd i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth (digymell)**



## **Atodiad A: Astudiaethau achos**

### *Astudiaeth achos 1: Gofal Plant*

Cafodd y darparwydd Gofal Plant hwn yng Ngogledd Cymru ei sefydlu yn 2011, ac mae'n rhedeg canolfan gofal dydd cyfrwng Cymraeg sy'n darparu gofal plant preifat i fabanod a phlant 3 mis oed i 11 oed. Yn ogystal â hyn, mae'n gweithredu gwasanaeth crèche symudol cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn ystod digwyddiadau cyhoeddus/preifat, fel priodasau, ac ar gyfer darparwyr hyfforddiant (y mae rhai ohonynt yn y sector cyhoeddus) a chwmnïau. Mae'r cwmni'n ehangu ac yn datblygu, gyda'r ddwy agwedd ar y cwmni'n parhau i dyfu'n gyson. Adroddodd y rheolwr fod lefel uchel o alw am ofal plant a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith rhieni Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg. Cyflogir wyth aelod staff amser llawn, gan gynnwys rheolwr, dirprwy reolwr a chynorthwyr meithrinfa/goruchwylwyr plant yn y ganolfan gofal dydd. Mae'r wyth aelod o staff gofal dydd a phawb ond dau o blith y deg aelod rhan-amser ychwanegol ar gyfer tîm y crèche symudol yn siarad/dysgu Cymraeg. Mae eu rhuglder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn amrywio.

Nid oes gan y cwmni bolisi ffurfiol ar gyfer y Gymraeg, ond adroddir mai ei ethos yw darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog gan roi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg. Ystyrir bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob agwedd ar fusnes y cwmni, ac mae'r rheolwyr yn ystyried bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ansawdd eu gwasanaeth a darparu'r gwasanaeth hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg (i'r plant) a thrwy gyfrwng y Gymraeg ac/neu'r Saesneg, fel bo'n briodol, i'r rhieni.

Defnyddir y Gymraeg fel yr iaith lafar ymhlith cyflogeion y cwmni i bob diben ffurfiol ac anffurfiol. Cymraeg hefyd yw'r brif iaith a siaredir â'r holl blant ac â'r rhieni Cymraeg eu hiaith. Cymraeg yw amgylchedd y ganolfan gofal dydd o ran llythrennedd ysgrifenedig (cynhyrchir arwyddion yn fewnol); mae llyfrau a deunyddiau eraill argraffedig a ddarperir i'w defnyddio gyda/gan y plant yn Gymraeg, a hefyd y dogfennau mewnol ysgrifenedig (e.e. amserlenni, cynlluniau gwaith a chontractau cyflogaeth). Mae cynnyrch marchnata'r cwmni (y wefan / taflenni), a'r wybodaeth i gwsmeriaid (y pecyn croeso) yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r



## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Saesneg. Mae'r cwmni hefyd yn mynd ati'n weithredol i ganfod siaradwyr Cymraeg i ddarparu eu gwasanaethau busnes lle bo modd (e.e. cyfrifydd, rheolwr banc).

Yn ôl y rheolwyr, y gallu a'r hyder i siarad, canu a darllen yn Gymraeg â babanod a phlant yw'r sgiliau iaith pwysicaf wrth ofalu am blant. Mae hefyd yn bwysig i gyflogeion allu cyfathrebu ar lafar â rhieni yn Gymraeg neu'n Saesneg lle bo'n briodol. Ni ystyrir bod sgiliau ysgrifenedig/llythrennedd datblygedig iawn mor hanfodol yn Gymraeg oherwydd natur y rhan fwyaf o'r swyddi, ond bydd hynny'n fantais os yw'n bosibl. Ystyrir sgiliau llythrennedd Cymraeg yn angenrheidiol ar gyfer rolau rheoli lle mae angen darllen a llunio testunau ysgrifenedig (e.e. contractau, rheoliadau, deunydd marchnata).

Mae'r rheolwyr yn mynd ati'n weithredol i gyflogi siaradwyr/dysgwyr Cymraeg er mwyn cynnal ethos Cymraeg y gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Ni chafwyd unrhyw anhawster yn recriwtio nac yn cadw staff gofal dydd Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, maent wedi methu penodi cogydd sy'n siarad Cymraeg i baratoi prydau'r plant. Mae'r cwmni wedi trefnu hyfforddiant sgiliau Cymraeg lefel uwch ar gyfer dau aelod o'r staff. Mae hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg o bwysigrwydd mawr i'r cwmni, ond bu'n anodd cael hyd i hyfforddiant o'r fath. Mae angen hyfforddiant ar-lein yn ogystal â hyfforddiant wyneb yn wyneb cyfrwng Cymraeg ar yr agweddau canlynol: Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant, Cymorth Cyntaf, Codi a Chario Plant, Hyfforddiant Tân, prosesu cyfrifiadurol (Word, Excel), creu cynllun busnes, sgiliau rheoli, cyfrifeg. Ceir angen hefyd am restr/gronfa ddata o ddarparwyr hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, a chyhoedduswydd da ar gyfer y rhestr neu'r gronfa ddata honno.

### *Astudiaeth achos 2: Gofal Cymdeithasol*

Mae'r cartref gofal preswyl hwn yng nghanolbarth Cymru wedi'i hen sefydlu, ac yn rhan o grŵp sy'n gweithredu drwy'r DU. Mae'n un o 12 safle o'r fath yng Nghymru. Mae'r preswylwyr yn tueddu i fod yn unigolion oedrannus a gweddol fregus ac arnynt angen gofal personol. Er bod mwyafrif y preswylwyr yn hanu o ganolbarth Cymru, dim ond lleiafrif ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r cartref gofal yn cyflogi 35 o bobl, sy'n amrywio rhwng arweinwyr tîm sy'n gyfrifol am reoli shifftiau a

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

chynorthwywyr gofal ac arweinwyr gweithgareddau a chogyddion, staff cadw tŷ a golchdy. Mae'r amodau busnes wedi bod yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, er bod y farchnad cartrefi gofal yn datblygu'n fwyfwy cystadleuol.

Mae dau o'r 35 aelod o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n cynrychioli dirywiad o gymharu â'r sefyllfa ddegawd yn ôl. Mae gan sawl aelod arall o'r staff sgiliau Cymraeg sylfaenol, gan gynnwys cyfres o frawddegau sy'n berthnasol i leoliadau gofal, e.e. 'dyma eich meddyginiaeth/tailedi/ffisig, mae'n amser cinio, mae'n amser brecwast' ac ati. Mae'r ddau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn defnyddio'r iaith fel mater o gwrs wrth ddelio â phreswylwyr Cymraeg eu hiaith, tra bo'r rhai a chanddynt sgiliau mwy sylfaenol yn defnyddio'r iaith yn achlysurol er mwyn creu awyrgylch mwy naturiol a chyfeillgar i breswylwyr Cymraeg eu hiaith. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ychydig o Gymraeg a ddefnyddir gyda'r preswylwyr.

Yn ddieithriad, bydd y cwmni'n cyfathrebu â theuluoedd preswylwyr yn Saesneg, waeth beth fo dymuniadau'r teuluoedd hynny. Er bod staff Cymraeg eu hiaith yn sgwrsio â'i gilydd yn anffurfiol yn Gymraeg, nid yw'r iaith yn cael ei defnyddio'n eang i ddibenion gwaith nac, yn sicr, mewn unrhyw fodd ffurfiol. Nid oes gan y rhiant-gwmni na'r cartref gofal bolisiau Cymraeg ac mae'r arwyddion ar y safle yn uniaith Saesneg. Yn ei hanfod, nid yw defnyddio na hybu'r Gymraeg yn rhan o ethos y sefydliad, ond perchir yr iaith fel nodwedd achlysurol.

Er na ellir dweud bod sgiliau Cymraeg yn effeithio ar linell waelod y sefydliad mewn unrhyw ffordd, cydnabuwyd bod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn perthnasu'n wahanol â phreswylwyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith naturiol, ac mae'n bosib bod y berthynas honno'n well o ganlyniad i hynny. Cydnabuwyd hefyd y bydd achosion cynyddol o ddementia ymhlith y preswylwyr (sydd yn aml yn achosi i ddiodefwrwyr ddychwelyd i'w mamiaith) yn amlygu'r angen am sgiliau Cymraeg ymhlith y staff. Mae sgiliau Cymraeg yn fwyaf tebygol o fod o werth ymhlith 'arweinwyr tîm', 'gofalwyr' a 'staff nos', hy, rhai sy'n cysylltu'n fwyaf uniongyrchol â phreswylwyr. Ar y cyfan, y farn oedd nad oedd y sgiliau yr oedd eu hangen yn ymestyn y tu hwnt i sgiliau sgwrsio ar lefel weithredol (sylfaenol i ganolradd). Ni ystyrir rhugledd ar lafar, na'r gallu i ddarllen neu ysgrifennu'n Gymraeg, yn flaenoriaeth.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Ystyrir sgiliau Cymraeg fel 'bonws' yn hytrach na rhagofyniad wrth recriwtio. Yn wir, o ystyried y lefel isel o drosiant staff sydd gan y sefydliad, a'r ffaith bod sgiliau Cymraeg sylfaenol eisoes yn bodoli ymhlith y staff presennol, tybiwyd y byddai hyfforddiant yn cynnig dull mwy ymarferol o gynyddu'r capasiti o ran y Gymraeg o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r tebygolrwydd y bydd y busnes yn gweithredu mewn unrhyw ffordd i ddatblygu sgiliau Cymraeg y staff yn isel. Pe bai'r sefydliad yn trefnu hyfforddiant Cymraeg, byddai angen i'r ysgogiad ar gyfer hynny ddod o du darparydd allanol, ond gan ddarparu'r hyfforddiant ar-safle.

### *Astudiaeth achos 3: Creadigol (theatr)*

Mae'r cwmni theatr hwn wedi ei leoli yng nghanolbarth Cymru. Mae'r deg aelod craidd o staff yn cynnwys cyfarwyddwr artistig, tri phennaeth adran, yn ogystal â staff cynhyrchu, busnes, marchnata a gweinyddol. Defnyddir gweithwyr llawrydd (actorion, dylunwyr a chriw technegol) ar gontract ar gyfer cynyrchiadau. Prif gynulleidfa'r cwmni yw'r cyhoedd yng Nghymru, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg, dysgwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Targedir cynulleidfaoedd o ddysgwyr Cymraeg yn ogystal â phobl ifanc. Mae gan y cwmni swyddog sy'n gweithio gydag ysgolion ledled Cymru er mwyn ceisio ehangu cyfranogiad.

Cyflwynir holl gynyrchiadau'r cwmni yn Gymraeg. Defnyddir is-deitlau Saesneg mewn rhai cynyrchiadau, a darperir crynodeb Saesneg drwy glustffonau mewn cynyrchiadau eraill. Mae holl staff craidd y cwmni'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae lefel eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yn amrywio. Mae gan actorion a dylunwyr llawrydd lefel uchel o sgiliau Cymraeg, ond nid yw hyn yn wir am rai o weithwyr llawrydd y criw technegol. Cymraeg yw iaith yr holl gyfathrebu ffurfiol/anffurfiol mewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn ogystal â holl adroddiadau a gwaith gweinyddol y sefydliad. Cynhelir cyfarfodydd mewnol yn Gymraeg, gan gyfieithu gwybodaeth sy'n berthnasol i dechnegydd nad yw'n siarad Cymraeg fel bo'r angen. Mae deunydd marchnata a gwefan y cwmni'n ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nid oes modd mesur effaith y Gymraeg ar linell waelod y cwmni gan mai gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yw *raison d'être* y cwmni. Ceir effaith negyddol o ran costau (a welir yn bennaf yn nhermau amser yn hytrach na chost ariannol

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

wirioneddol) pan na fydd gan dechnegydd sgiliau Cymraeg digonol ac y bydd angen cyfieithu adroddiadau'r Dirprwy Reolwr Llawr i Saesneg er budd yr unigolyn hwnnw.

Mae cwsmeriaid craidd y cwmni'n tueddu i fod yn siaradwyr Cymraeg/dysgwyr. Un her yw denu cynulleidfa ehangach sy'n croesi ffiniau ieithyddol. Mae recriwtio yn her arall. Mae angen lefel uchel o sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg ar gyfer pob swydd barhaol a llawrydd, ar wahân i'r staff technegol (mae angen iddynt hwy allu deall Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ar lefel ganolradd). Mae sgiliau ysgrifenedig yn fwy o her na sgiliau llafar; mae rhai aelodau o staff yn awyddus i dderbyn hyfforddiant i wella'u sgiliau Cymraeg. Ar y cyfan, mae proffil oedran y cwmni'n ifanc, a disgrifiwyd y rhan fwyaf o'r cyflogaion fel rhai a oedd wedi derbyn addysg ddwyieithog, ac a oedd felly'n hyderus yn y Gymraeg ac yn meddu ar sgiliau lefel uchel. Fodd bynnag, mae'r cwmni'n wynebu problemau neilltuol wrth recriwtio criwiau a chanddynt arbenigedd technegol ym maes sain a goleuo, er enghraifft. Oherwydd hynny, weithiau mae'n rhaid defnyddio pobl a chanddynt sgiliau arbenigol sydd naill ai heb unrhyw sgiliau Cymraeg, neu a chanddynt ond lefelau isel o sgiliau Cymraeg. Dim ond un ymgeisydd a gafwyd ar gyfer swydd dros dro yn yr adran farchnata lle'r oedd angen sgiliau Cymraeg lefel uwch ar lafar ac yn ysgrifenedig. Roedd gan yr ymgeisydd hwnnw y set angenrheidiol o sgiliau ar wahân i'r sgiliau lefel uwch yn Gymraeg. Penodwyd yr unigolyn a rhoddwyd cefnogaeth fewnol i ddatblygu ei hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Disgwylir i'r galw am sgiliau Cymraeg dyfu gan fod y cwmni'n datblygu drwy'r amser. Os bydd y busnes yn tyfu, bydd angen mwy o staff technegol, marchnata a chynhyrchu a chanddynt sgiliau Cymraeg. Mae'r cwmni'n ailddechrau ei gynllun prentisiaeth i siaradwyr Cymraeg er mwyn ceisio tyfu ei arbenigedd technegol a marchnata ei hun. Mae angen hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y meysydd canlynol: creu gwefannau, lechyd a Diogelwch, marchnata a hyrwyddo, sgiliau technegol (ee, sain, goleuo, adeiladau setiau). Mae'n anodd cael hyd i hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, ac roedd y cwmni'n teimlo y byddai'n fuddiol cael ffynhonnell hygyrch o wybodaeth er mwyn gwybod pa ddarparwyr sydd ar gael.

*Astudiaeth achos 4: Creadigol*

Mae'r sefydliad aelodaeth hwn yn gweithredu drwy'r DU ac yn gweithio o fewn maes penodol yn y sector gwasanaethau proffesiynol. Mae wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers y 1970au. Ystyrir bod meddu ar rai sgiliau Cymraeg o fewn y sefydliad yn hanfodol. Cyflogir pedwar aelod o staff amser llawn yn swyddfa Caerdydd, yr unig un yng Nghymru.

Yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd rai blynyddoedd yn ôl, credir bod tua 10 y cant o aelodau'r sefydliad yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad ar hyn o bryd 'yn fân ac yn afreolaidd', gan mai ond un o'r pedwar aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, ond ceir awydd i ehangu ar y defnydd hwn. Mae'r sefydliad yn dymuno i bob aelod o staff allu cyfarch yr aelodau'n Gymraeg dros y ffôn, a gallu trosglwyddo'r alwad i'r unigolyn priodol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy hyfforddiant mewnol.

Teimlir bod cael sgiliau Cymraeg yn cynorthwyo perthynas y sefydliad â'r rhiant-gorff (drwy wahaniaethu'r sefydliad oddi wrth swyddfeydd rhanbarthol eraill y sefydliad yn Lloegr) ac yn cynyddu hygrdedd y sefydliad o safbwynt yr aelodau.

Yn y tymor byr, blaenoriaeth y sefydliad fydd darparu hyfforddiant mewnol anffurfiol i'r staff allu dysgu brawddegau allweddol yn Gymraeg. Ni ragwelir y bydd yr angen na'r galw am sgiliau Cymraeg o fewn y sefydliad yn cynyddu i'r graddau lle bydd angen hyfforddiant mwy ffurfiol neu benodi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg dros y blynyddoedd nesaf.

*Astudiaeth achos 5: Creadigol (teledu a ffilm)*

Yn ei hanfod, mae'r cwmni'n cynnig cyfleoedd dysgu drwy brofiad i unigolion sy'n bwriadu dechrau gyrfa yn y sector Creadigol, ac yn eu helpu i greu cysylltiadau â darpar gyflogwyr/gomisiynwyr perthnasol. Sefydlwyd y cwmni tua 11 mlynedd yn ôl, ac mae'n cyflogi saith o bobl ar hyn o bryd. Mae hefyd yn defnyddio gwasanaethau gan bobl o ystod o ddisgyblaethau perthnasol (ee, teledu, ffilm, theatr a dylunio) drwy drefniant llawrydd i fentora hyfforddeion ynghyd â gweithio ar brosiectau penodol. Gall hyn ymestyn i gynnwys cynifer â 30 o bobl ar unrhyw bryd. Mae'r rhan

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

fwyaf o refeniw'r cwmni'n tarddu o bartneriaid darlledu (sianeli teledu) a Chyngor Sgiliau Sector, ynghyd â Chyngor Celfyddydau Cymru sydd hefyd yn ariannu'r sefydliad i gynnal nifer o brosiectau cymunedol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r amodau masnachu wedi troi'n fwy heriol wrth i gyllidebau cyrff ariannu leihau. Fodd bynnag, mae trosiant y cwmni wedi cynyddu yn sgil amrywio ei bortffolio o weithgareddau ac ennill contractau newydd.

Mae dau o saith aelod parhaol y cwmni yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae gan drydydd aelod o staff lefel weddol uchel o allu yn yr iaith. Er bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei annog yn swyddfa'r cwmni, Saesneg yw'r brif iaith oherwydd proffil ieithyddol y tîm. Mae cyfran uchel o'r staff llawrydd a ddefnyddir gan y cwmni hefyd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Defnyddir y Gymraeg yn helaeth i gyfathrebu ar lafar â chwsmeriaid (darlledwyr, y Cyngor Sgiliau Sector a'r Cyngor Celfyddydau), gyda thrafodaethau'n aml yn llithro'n naturiol o'r naill iaith i'r llall. Defnyddir Cymraeg ysgrifenedig hefyd mewn sawl ffordd, er enghraifft, ar gyfer sgrïptiau cynyrchiadau cyfrwng Cymraeg, disgrifiadau o raglenni a dogfennau contract. Mae'r cwmni weithiau'n defnyddio cyfieithwyr i lunio dogfennau o'r math hwn, ond gan amlaf yn dibynnu ar staff neu isgontractwyr sy'n siarad Cymraeg i wneud hynny.

Nid oes gan y cwmni bolisi ar gyfer y Gymraeg.

Mae sgiliau Cymraeg yn arbennig o bwysig ar gyfer rolau rheoli a chreadigol (e.e. cyfarwyddwyr, staff cynhyrchu ac awduron sgrïptiau) ac o bosib yn llai pwysig ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r disgyblaethau dylunio a thechnegol, (ee, dynion camera a pheirianwyr sain) er bod y sgiliau'n ddymunol ar eu cyfer hwy hefyd. Mae angen i'r rhai sy'n cyflawni rolau rheoli allu siarad Cymraeg yn hyderus, o leiaf. Mae angen i'r rhai sy'n cyflawni rolau creadigol fel awduron/golygwyr sgrïpt ac ymchwilwyr lleoliadau allu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg hyd at safon broffesiynol. Disgwylir i bwysigrwydd sgiliau Cymraeg gynyddu i'r cwmni wrth iddo geisio datblygu busnes ag S4C a chwmnïau'r cyfryngau Cymraeg.

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

Mae sgiliau Cymraeg yn cyfrannu at linell waelod y busnes, a hynny'n syml gan fod comisiynwyr a chwmnïau'r cyfryngau Cymraeg yn gwsmeriaid pwysig. Tybiwyd hefyd y gallai cynyrchiadau cyfrwng Cymraeg ddenu sylw ehangach ar raddfa ryngwladol, a bod modd i hyn adlewyrchu'n gadarnhaol ar y cwmni. Lle bo modd, mae'r cwmni'n ceisio penodi pobl â sgiliau Cymraeg, er ei fod wedi profi anawsterau'n cael hyd i unigolion a chanddynt sgiliau priodol, yn enwedig wrth recriwtio ar gyfer prosiectau byrdymor, lle bydd angen recriwtio'n gyflym neu mewn rhannau mwy Seisnig o Gymru. Yn wir, os na fydd y cwmni'n llwyddo i recriwtio digon o bobl a chanddynt lefel briodol o sgiliau Cymraeg, gallai hynny amharu ar ei gynlluniau i dyfu yn y dyfodol agos.

### *Astudiaeth achos 6: Lletygarwch (Teithio a thwristiaeth)*

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar Wasanaeth Gwybodaeth i Ymwelwyr sydd wedi'i leoli ar draws chwe safle oddi mewn i un awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru. Sefydlwyd y gwasanaeth ymhell dros bum mlynedd ar hugain yn ôl, ac mae'n cyflogi naw aelod parhaol o staff (rheolwr gwasanaeth a goruchwylwyr swyddfa amser llawn a chwe chynorthwydd gwybodaeth rhan-amser) ynghyd â gweithwyr ychwanegol dros dro a gyflogir o'r Pasg hyd fis Hydref. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth i ymwelwyr a phobl lleol am atyniadau, digwyddiadau a llety o fewn yr awdurdod lleol. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth gwerthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau ac yn darparu sachau ysbwriel/ailgylchu i'r cyhoedd. Ceir siop cofroddion ar bob un o'r chwe safle, ac mae partneriaeth rhwng rhai canolfannau â'r heddlu rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau perthnasol fel eiddo coll. Yn 2013, roedd y cwsmeriaid yn cynnwys ymwelwyr lleol (280,072), o'r DU (174,795), ac o wledydd tramor (15,119)

Mae tri o'r naw aelod parhaol o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae'r rhan fwyaf o'r aelodau eraill o staff yn dysgu Cymraeg ac wedi cyrraedd lefelau amrywiol. Mae gan yr awdurdod lleol Gynllun Iaith Gymraeg, felly mae'r holl ddeunydd argraffedig, yr arwyddion, y wefan ac ati yn ddwyieithog. Siaredir yn Gymraeg wrth ddelio â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Fel arfer, Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir fel arfer wrth gyfathrebu o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, defnyddir y Gymraeg i'r

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

holl ddibenion anffurfiol mewn un ganolfan, ac fe geir rhywfaint o sgwrsio anffurfiol a thros y ffôn yn Gymraeg ymhlith y staff sy'n dysgu Cymraeg yn y canolfannau eraill,

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ymwelwyr yn rhoi pwys mawr ar gydnabod a hybu treftadaeth, diwylliant ac iaith Cymru. Mae cael sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn i'r gwasanaeth, a bydd y Gymraeg wedi'i nodi bob tro fel sgil a dymunir mewn hysbysebion swydd/manylebau swydd. Ni all y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ymwelwyr fesur effaith y Gymraeg ar ei linell waelod. Er hynny, mae sgiliau Cymraeg yn ychwanegu gwerth o ran ansawdd gofal cwsmeriaid drwy greu awyrgylch mwy croesawgar a gwneud i gwsmeriaid deimlo'n fwy cartrefol. Maent hefyd yn dangos bod y gwasanaeth yn gwethfawrogi ei gwsmeriaid Cymraeg ac yn ymdrechu i fod yn gynhwysol. Cynorthwywyr gwybodaeth yw'r swyddi lle ceir blaenoriaeth am sgiliau Cymraeg, gan eu bod yn delio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Sgiliau llafar Cymraeg yw'r rhai sydd eu hangen fwyaf, sef: sgiliau 'cwrdd a chyfarch', sgwrsio anffurfiol cyffredinol, cwestiynau a chyfeiriadau. Y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yw Lefel 1-3 Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop (ALTE) / graddfa Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd. Er eu bod yn fantais, rhoddir llai o flaenoriaeth i sgiliau Cymraeg ysgrifenedig wrth recriwtio, gan fod y gwaith gweinyddol mewnol yn cael ei gynnal yn Saesneg, a chan fod yr awdurdod lleol yn darparu dogfennau dwyieithog drwy ei wasanaeth cyfieithu. Mae cyfleoedd am hyfforddiant sgiliau Cymraeg ar gael drwy'r awdurdod lleol a thrwy 'gwrs gofal cwsmeriaid dwyieithog' Croeso Cymru.

Dyma rai o'r prif heriau i'r busnes: cynyddu'r defnydd o'r gwasanaeth gan gwsmeriaid lleol; cyfleu delwedd fwy rhagweithiol a deinamig o'r gwasanaeth yn hytrach na'r stereoteip o Wasanaeth Gwybodaeth i Ymwelwyr; cynnal gwasanaeth archebu gwelyau yn erbyn y gystadleuaeth ar-lein; a chyfuno â'r gwasanaeth llyfrgelloedd, sydd i fod i ddigwydd ym mis Ebrill 2014. Bydd yr angen am sgiliau Cymraeg yn cynyddu o fewn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gynnydd yn yr awdurdod lleol, ac oherwydd twf cyffredinol mewn diddordeb yn y Gymraeg ac mewn gweithgareddau Cymraeg yn lleol. Mae agweddau at y Gymraeg yn llawer mwy cadarnhaol bellach na'r agweddau a gafwyd ddegawdau yn ôl. Bydd angen i'r staff gynyddu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg oherwydd disgwylir y bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â'r cyhoedd yn cynyddu.



*Astudiaeth achos 7: Lletygarwch (Llyfrgell)*

Mae'r gwasanaeth llyfrgell hwn (sy'n cynnwys prif safle a dwy gangen allgymorth) wedi'i leoli yn ne-orllewin Cymru ac yn rhan o Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol. Mae'n darparu gwasanaethau i'r gymuned leol drwy roi llyfrau, llyfrau llafar, DVDs, cryno ddisgiau ar fenthyg a chynnig mynediad rhad ac am ddim i'r rhyngwrwyd. Mae'r llyfrgell yn cyflogi naw aelod o staff. Mae un aelod o staff, y Rheolwr Llyfrgell, yn gweithio'n llawnamser ac mae'r aelodau eraill o staff yn cael eu cyflogi drwy drefniant rhan-amser neu achlysurol. Gelwir yr holl gyflogeion yn llyfrgellwyr (gan wahaniaethu rhwng uwch lyfrgellwyr a llyfrgellwyr cyffredinol), ac mae pob un ohonynt yn cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chynnal llyfrgell. Mae'n ofynnol i uwch lyfrgellwyr feddu ar y Gymraeg fel sgil hanfodol, tra bo'r Gymraeg yn sgil dymunol ymhlith y llyfrgellwyr cyffredinol. Mae chwech o'r naw cyflogai yn siarad Cymraeg, ac er bod eu gallu'n amrywio mae pob un o'r chwech yn gallu sgwrsio â chwsmeriaid yn Gymraeg.

Gwneir defnydd sylweddol o'r Gymraeg ac mae'r llyfrgell yn gweithredu'n ddwyieithog er mwyn cyflawni ei dyletswyddau statudol o ran y Gymraeg. Mae'r llyfrgell yn gwasanaethu cymuned lle mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Serch hynny, mae'r gyfran bresennol o siaradwyr Cymraeg, sef 40%, yn dal i gynrychioli lleiafrif mawr o'r boblogaeth. Defnyddir y Gymraeg yn fynych, mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, a rhoddir pwyslais arbennig ar ddefnyddio sgiliau Cymraeg llafar. Mae hyfforddiant mewnol wedi cael ei ddarparu i staff di-Gymraeg er mwyn iddynt allu cyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog, ac mae'r cyfleoedd datblygu hyn wedi bod yn effeithiol.

Un her allweddol yw recriwtio staff a chanddynt sgiliau Cymraeg, ac mae'r sefydliad wedi gorfod rhoi llai o bwys ar sgiliau eraill hanfodol er mwyn penodi siaradwr Cymraeg. Bydd swyddi lle nodir bod y Gymraeg yn sgil dymunol yn aml yn cael eu llenwi gan staff di-Gymraeg oherwydd prinder a diffyg ansawdd yr ymgeiswyr a

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

chanddynt sgiliau Cymraeg. Mae nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr a chanddynt sgiliau Cymraeg wedi dirywio dros amser. Dyma'r prif resymau pam y tybiwyd ei bod hi'n anodd recriwtio siaradwyr Cymraeg i rolau allweddol: cyflogau anghystadleuol i weithwyr proffesiynol llyfrgell, yn enwedig o gymharu â chyflogau'r sector addysg lleol sy'n tueddu i ddenu'r un math o ymgeiswyr; newid i ddefnyddio dulliau mwy cost-effeithiol o hysbysebu swyddi, ee ar-lein. Teimlwyd nad oedd hyn yn cyrraedd aelodau brodorol Cymraeg eu hiaith o'r gymuned leol i'r un graddau â'r dulliau traddodiadol, sef y cyfryngau lleol; a'r duedd i ymgeiswyr gwan o ran sgiliau Cymraeg or-ganmol eu gallu yn hunanasesiad y ffurflen gais.

Mae toriadau i'r sector cyhoeddus wedi cael effaith ddifrifol ar y sefydliad hwn, a bydd yr effaith honno'n parhau, gan nad yw gwasanaethau llyfrgell yn ddarpariaeth statudol sydd wedi'i diogelu gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn debygol o arwain at gau canghennau neu leihau oriau agor dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal â hyn, bydd y symud a gafwyd yn ddiweddar tuag at wasanaeth llyfrgell mwy awtomatig, ee, cyflwyno manau hunanwasanaeth i gwsmeriaid, hefyd yn lleihau'r galw am staff sy'n delio wyneb yn wyneb â chwsmeriaid yn y dyfodol.

### *Astudiaeth achos 8: Gwasanaethau Cyllid / Proffesiynol*

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y corff arweiniol mewn prosiect partneriaeth a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Nod y prosiect yw canfod llwybrau at waith i oedolion sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Mae'r prosiect yn ariannu dros 100 o staff, y mae saith ohonynt yn gweithio o fewn y tîm rheoli prosiect craidd. Mae mwyafrif y cleientiaid rhwng 25 a 54 oed, ac mae gan oddeutu 15 y cant ohonynt ryw lefel o allu yn y Gymraeg. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelodd y prosiect newid aruthrol i'r math o gleient sy'n chwilio am gymorth, gyda chynnydd sydyn yn nifer y bobl a chanddynt lefel uchel o sgiliau ond sy'n ddi-waith oherwydd y dirwasgiad.

O fewn y tîm o saith sy'n rheoli'r prosiect, ceir dau siaradwr Cymraeg. Ceir hefyd ddau siaradwr Cymraeg sy'n gweithio yn nhîm cyflenwi'r awdurdod arwain sy'n cydweithio'n agos â'r tîm prosiect. Bydd staff yn siarad yn anffurfiol â'i gilydd yn Gymraeg ond nid yw'r awdurdod arwain erioed wedi cael unrhyw gais am ohebiaeth

## Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector

yn Gymraeg gan y cleientiaid y mae'n delio'n uniongyrchol â hwy. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn teimlo ei bod hi'n bwysig ei gyflwyno ei hun fel gwasanaeth dwyieithog a chyfieithu'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn unol â pholisi'r awdurdod lleol o safbwynt y Gymraeg.

